Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Mehefin 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Mehefin 2023

senedd.cymru






# Cynnwys

**Trosolwg ........ 6**

Rhagair ........ 8

Cyflwyniad ........ 10

Datganiad o ddiben ........ 12

Comisiynwyr ........ 14

Cynghorwyr Annibynnol ........ 16

Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn ........ 20

Strwythur Llywodraethu ........ 22

Trefniadau Rheoli’r Comisiwn ........ 23

Crynodeb o’r gweithgareddau ........ 24

**Dadansoddi Perfformiad ........ 32**

Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol ........ 35

Proffil risg ........ 43

Adolygiad ariannol ........ 46

Darparu cymorth seneddol o’r radd flaenaf ........ 51

Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn ........ 73

Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy ........ 85

Cynaliadwyedd ........ 99

**Atebolrwydd ........ 109**

Llywodraethu Corfforaethol ........ 112

Staff a thaliadau ........ 139

Atebolrwydd ac archwilio ........ 158

**Datganiadau ariannol ........ 172**

Nodiadau i gyd-fynd â’r Cyfrifon ........ 179

Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra ........ 209

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

# Trosolwg

Mae'r adran Trosolwg hon yn darparu gwybodaeth am ddiben, strwythur a nodau strategol y Comisiwn a rhai gweithgareddau allweddol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

▼ **Digwyddiad i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Senedd**

1 Mawrth 2023



# Rhagair



**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
**Llywydd, Senedd Cymru**

**Rwy'n falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn sy'n cwmpasu fy seithfed flwyddyn fel Llywydd; ail adroddiad y Chweched Senedd.**

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi rhoi rheswm inni fyfyrio ar y gorffennol ac edrych i'r dyfodol. Mae wedi bod yn galonogol gweld pobl Cymru yn mwynhau eu senedd drostynt eu hunain unwaith eto, ac i arddangos ein hadeilad a'i waith i ddirprwyaethau rhyngwladol o Awstralia i Ganada. Mae nifer yr ysgolion sy'n ymweld â'r Senedd yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig gyda'r Aelodau'n croesawu ysgolion o Ysgol Sant Dunawd yn Wrecsam i Ysgol Nant y Parc yng Nghaerffili.

Mae'r deuddeng mis diwethaf wedi gweld pwyllgorau yn dangos dro ar ôl tro sut mae'r Senedd yn ychwanegu gwerth at y broses ddemocrataidd. O dynnu sylw at yr anawsterau sy'n wynebu nifer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yng Nghymru i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol am yr arian y mae'n ei wario. Mae prif fusnes y Senedd gyfan wedi parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwaith craffu cadarn ar ddeddfwriaeth y llywodraeth.

Ac wrth inni wneud hynny, mae wedi bod yn galonogol bod y Senedd wedi cael mwy o sylw yn y cyfryngau a bod mwy o bobl wedi ymgysylltu â ni, drwy ymweliadau, gweithgareddau allgymorth ledled y wlad.

Gan fod gweithio hybrid yn parhau i fod yn nodwedd o'r ffordd yr ydym yn cynnal busnes y Senedd o wythnos i wythnos, rydym yn parhau i arloesi i sicrhau y gall yr Aelodau ymgymryd â'u gwaith yn y ffordd fwyaf ystwyth ac effeithlon bosibl. Ym mis Mehefin 2022, dros 25 mlynedd ers y refferendwm i sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ar y pryd, pleidleisiodd yr Aelodau o blaid cynigion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd i gryfhau'r Senedd drwy gynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd yn yr etholiad nesaf. Wrth i'r ddeddfwriaeth hon ddechrau ei thaith drwy'r gwahanol gyfnodau craffu gan yr Aelodau yn ddiweddarach eleni, byddwn hefyd yn anelu at sicrhau bod ein senedd yn adlewyrchu'n well yr holl bobl sy'n byw yma yng Nghymru.

Fel bob amser, hoffwn ddiolch i staff y Comisiwn am barhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu busnes y Senedd mor effeithiol ac am eu brwdfrydedd a'u hegni wrth ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf.

# Cyflwyniad



**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

**Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi bod yn falch o weld pa mor gyflym y mae cydweithwyr ar draws Comisiwn y Senedd wedi bod yn paratoi ar gyfer newidiadau sylweddol i'r ffordd y gallai ein sefydliad weithredu yn y dyfodol.**

Ar ddechrau'r flwyddyn a drafodir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, roeddem yn dal i gadw at reoliadau Covid a oedd yn cyfyngu ar elfennau o'n gwaith. Gyda'r pandemig bellach wedi dod i ben, rydym wedi bod yn sicrhau bod newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd rydym yn defnyddio ein swyddfeydd, gan sicrhau gwerth am arian i'r cyhoedd, a chynnal y gefnogaeth o ansawdd uchel a ddisgwylir gan yr Aelodau.

Fel Senedd fodern, ddigidol yn gyntaf, byddwn yn sicrhau bod yr hyblygrwydd a ddangoswyd gennym yn ystod y pandemig yn parhau i gynnig y gwerth gorau am arian i'r cyhoedd, a'r gwasanaeth gorau i'r Aelodau. Ac wrth inni barhau i fod yn ddarbodus gyda'n gwariant, mae hefyd yn galonogol gweld ein pryniannau gan gwmnïau yng Nghymru yn cyrraedd y lefel uchaf erioed.

Ym mis Mehefin 2022, trafododd yr Aelodau adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a argymhellodd gynyddu nifer ac amrywiaeth yr Aelodau a newid y ffordd y cânt eu hethol i'r Senedd. Mae timau yn y Gyfarwyddiaeth Busnes wedi bod yn gweithio gydag eraill ar draws y Comisiwn i sicrhau y gall unrhyw newidiadau fod ar waith erbyn yr etholiad nesaf yn 2026. Rydym wedi sefydlu bwrdd Diwygio'r Senedd a fydd yn cydgysylltu ein cefnogaeth a'n cyngor ac yn sicrhau y gall Comisiwn y Senedd ymateb i unrhyw faterion a allai godi yn ystod hynt Bil Diwygio'r Senedd, a chyn hynny.

Roedd marwolaeth Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth yn cynnig cyfle i'r Aelodau a swyddogion fyfyrio ar oes o wasanaeth, a oedd yn cynnwys ymweliadau rheolaidd â'r Senedd. Cafodd Ei Fawrhydi y Brenin groeso cynnes gennym ar ei ymweliad cyntaf â'r Senedd fel pennaeth y wladwriaeth, pan dderbyniodd gynnig o gydymdeimlad.

Roedd hefyd yn bleser croesawu Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn ystod yr hydref wrth iddo geisio dyfnhau ei ddealltwriaeth o Gymru drwy gyfarfod â chynrychiolwyr o bleidiau gwleidyddol. Manteisiodd Tywysog William hefyd ar y cyfle i gwrdd ag Aelodau o'r Senedd Ieuenctid lle buont yn trafod eu blaenoriaethau cyffredin o ran yr amgylchedd a heriau iechyd meddwl.

Fel Senedd, rydym wedi parhau i adlewyrchu'r anawsterau sy'n wynebu'r cyhoedd yn sgil hinsawdd economaidd arbennig o heriol. Mae ein pwyllgorau wedi bod yn clywed tystiolaeth ar faterion fel digartrefedd, tlodi tanwydd ac effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i amrywio ein tystion fel y nodwyd gan adroddiad Diana Stirbu y llynedd, yn ogystal â nod ein strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu i dynnu sylw'r cyfryngau at dystiolaeth tystion. Drwy wneud hynny, maent wedi sicrhau bod llais y cyhoedd wrth wraidd ein gwaith.

# Datganiad o Ddiben

### Senedd Cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

### Comisiwn y Senedd

Mae Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Senedd er mwyn helpu i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd a deddfwrfa gref, hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

# Nodau Strategol Comisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf
- Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn
- Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

# Blaenoriaethau i Gomisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Rhoi cymorth i'r Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau.
- Ymateb i, a hwyluso newid cyfansoddiadol, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyng-sefydliadol a dysgu.
- Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy.
- Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais.
- Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac yn wyneb yn wyneb.
- Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru, sy'n arwain y ffordd fel sefydliad dwyieithog.
- Sicrhau bod dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn.
- Meithrin a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau.
- Cynllunio a rheoli arian a phrosiectau yn effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd.
- Rhoi sicrwydd drwy lywodraethu priodol a dangos gwerth am arian.
- Darparu amgylchedd diogel ac iach i weithio ac ymgysylltu.

## Comisiynwyr

Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn rhagnodi bod Senedd Cymru (y Senedd) yn penodi Comisiynwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei rôl yn effeithiol i bobl Cymru.



**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS (Plaid Cymru)**

Y Llywydd yw Cadeirydd y Comisiwn a hi hefyd yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am gyfathrebu.

Mynychodd y Gwir Anrhydeddus Elin Jones 8 allan o 8 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Janet Finch-Saunders AS (Ceidwadwyr Cymreig)**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy.

Mynychodd Janet Finch-Saunders 8 allan o 8 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Rhun ap Iorwerth AS (Plaid Cymru)**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ieithoedd swyddogol.

Mynychodd Rhun ap Iorwerth 8 allan o 8 o gyfarfodydd y Comisiwn.





Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Senedd. Ymhlith cyfrifoldebau'r Comisiynwyr fel 'bwrdd llywodraethu' mae gosod nodau strategol y sefydliad, darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith, goruchwylio'r ffordd y caiff y nodau strategol hynny eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau a bod yn atebol i'r Senedd o ran eu stiwardiaeth.

Caiff y Comisiwn ei gadeirio gan y Llywydd ac mae'n cynnwys pedwar Aelod o'r Senedd sydd wedi'u penodi gan y Senedd. Mae gan bob aelod o'r Comisiwn bortffolio penodol o gyfrifoldebau.



**Joyce Watson AS (Llafur Cymru)**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gydraddoldeb.

Mynychodd Joyce Watson 8 allan o 8 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Ken Skates AS (Llafur Cymru)**

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu (gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

Mynychodd Ken Skates 7 allan o 8 o gyfarfodydd y Comisiwn.

# Cynghorwyr Annibynnol

## Mae'r Comisiwn yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr a thîm gweithredol y Comisiwn yn cael her adeiladol a sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn gweithredu mewn capasiti cynghorol, anwleidyddol. Maent yn unigolion sydd â chyfoeth o brofiad o ystafelloedd bwrdd, llywodraeth, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n cyflwyno arbenigedd, sgiliau a dealltwriaeth amrywiol, i helpu'r Comisiwn i gyrraedd ei safonau uchel ei hun o lywodraethu da a defnydd effeithiol o arian cyhoeddus. Gallant ddarparu mewnwelediad gwrthrychol a her adeiladol a rhoi sicrwydd.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn ymwneud â nifer o weithgareddau'r Comisiwn, gan weithredu fel cyfeillion beirniadol ar brosiectau, drwy ryngweithio â meysydd gwasanaeth y Comisiwn, yn eu rolau ar Bwyllgorau cynghorol i'r Comisiwn a thrwy gyfrannu safbwynt allanol ac annibyniaeth i'n llywodraethu corfforaethol.

Cafodd Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu y Comisiwn ei ddisodli yn ystod y flwyddyn gyfredol gan Bwyllgor Taliadau. I adlewyrchu ein dymuniad i wella'n rhagweithiol ein hamrywiaeth, mae Cynghorydd Annibynnol wedi'i benodi i gymryd diddordeb arbennig mewn anghydraddoldebau, amrywiaeth a chynhwysiant, ac mae'n cyfrannu'n weithredol at y maes hwn yn y Comisiwn.

Y rheswm dros yr amrywiad yn nifer y cyfarfodydd yw eu priod gyfnodau swydd.

### Tâl

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn derbyn tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, gyda £7,000 y flwyddyn i'r Cadeiryddion.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23



**Robert (Bob) Evans (Tachwedd 2018 - Presennol)**

Dechreuodd Bob ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ac yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2018. Ym mis Chwefror 2019, cafodd ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

Mynychodd Bob Evans 6 o 6 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg



**Dr Aled Eirug (Ebrill 2019 - Presennol)**

Dechreuodd Aled ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Ebrill 2019 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hyd at fis Gorffennaf 2023. Mae wedi'i benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau newydd. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Taliadau ym mis Ebrill 2023.

Mynychodd Aled Eirug 6 o 6 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Dr Mark Egan (Tachwedd 2022 – Presennol)**

Dechreuodd Mark ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae Mark Egan wedi mynychu 1 allan o 1 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Yr Athro Uzo Iwobi (Tachwedd 2022 – Presennol)**

Dechreuodd Uzo ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliadau. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Taliadau ym mis Ebrill 2023. Mae Uzo hefyd yn un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Menai Owen-Jones (Tachwedd 2022 – Presennol)**

Dechreuodd Menai ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Taliadau ym mis Ebrill 2023.

Mae Menai Owen-Jones wedi mynychu 1 allan o 1 cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Ann Beynon (Tachwedd 2018 - Tachwedd 2022)**

Dechreuodd Ann ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. Daeth ei chyfnod fel Cynghorydd Annibynnol i ben ym mis Tachwedd 2022. Mynychodd Ann Beynon 5 allan o 5 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a 2 allan o 2 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu.



**Ceri Hughes (Tachwedd 2018 – Tachwedd 2022)**

Dechreuodd Ceri ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. Daeth ei chyfnod fel Cynghorydd Annibynnol i ben ym mis Tachwedd 2022.

Mynychodd Ceri Hughes 2 allan o 2 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu.



**Sarah Pinch (Tachwedd 2018 - Tachwedd 2022)**

Dechreuodd Sarah ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2018 a chafodd ei phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. Daeth ei chyfnod fel Cynghorydd Annibynnol i ben ym mis Tachwedd 2022.

Mynychodd Sarah Pinch 1 allan o 2 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu.





# Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn



**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, dirprwyir swyddogaethau Comisiwn y Senedd, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a Chlerc, yn unol â nifer o eithriadau ac amodau.

Y Prif Weithredwr hefyd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Er mwyn ei chefnogi, mae gan y Prif Weithredwr dîm o Gyfarwyddwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros reolaeth gorfforaethol strategol yn ychwanegol at y cyfrifoldebau penodol a amlinellir isod.



**Siwan Davies**
**Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**

Darparu gwasanaethau cymorth y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys cymorth i swyddfa'r Llywydd a'r uwch-dîm rheoli, gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i'r Byrddau corfforaethol a'r Comisiwn.

Darparu gwasanaethau seneddol, cyfreithiol, llywodraethu gwybodaeth, cyfansoddiadol ac ymchwil arbenigol i'r Senedd, gan sicrhau bod busnes y Senedd yn cael ei ddarparu'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys pasio deddfwriaeth drwy'r Senedd a darparu cyngor arbenigol diduedd i Aelodau o'r Senedd.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23



**Arwyn Jones**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Darparu cyfieithu a chofnodi, gan gynnwys y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a darparu TGCh a'r Swyddfa Rhaglenni a Newid.

Mae'n sicrhau bod ein gwasanaethau cyfathrebu corfforaethol, ymgysylltu ag ymwelwyr a gwybodaeth gyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.




**Ed Williams**
**Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd**

Darparu swyddogaethau Ystadau a Chyfleusterau, Adnoddau Dynol, Diogelwch, Caffael, yr Uned Cynllunio Strategol a Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd.

Mae'r Prif Swyddog Ariannol, sy'n gyfrifol am y strategaeth ariannol gorfforaethol, cynllunio, rheoli'r gyllideb, taliadau a phensiynau yn adrodd i Ed Williams.

# Strwythur Llywodraethu




### Cyrff Cynghori Annibynnol

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

Adolygu a monitro effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg.

**Y Pwyllgor Taliadau**

Yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â thaliadau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.





# Trefniadau Rheoli'r Comisiwn

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol a staffio'r Comisiwn wedi'u cynllunio i fodloni gofynion hysbys. Yn benodol, yn unol â nodau strategol y Comisiwn, mae'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu cronfa prosiectau'r Comisiwn sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r ystâd, darparu gwasanaethau TGCh effeithiol a darparu prosiectau newydd i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Elfen sylweddol o gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol yw darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol ar raglen newid y Comisiwn[1]. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwyr, y Prif Swyddog Cyllid, y Prif Swyddog Pobl, a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dyma'r corff gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Mae hefyd yn gorff ymgynghorol i'r Comisiwn, wrth osod strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, y gyllideb, a rheoli risgiau corfforaethol.

Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol a phob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth. Prif gyfrifoldeb y Tîm Arwain yw sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau gweithredol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Mae cyfathrebu effeithiol rhwng y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd yn bwysig er mwyn llywio'r ddarpariaeth o'r safonau uchaf posibl o wasanaeth. Mae'r Prif Weithredwr a'r Llywydd yn chwarae rhan allweddol wrth hwyluso'r cyfathrebu hwn, gyda'r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau yn darparu cymorth wrth ymdrin â phryderon a materion a godwyd gan yr Aelodau. Mae dulliau amrywiol ar waith ar gyfer cyfathrebu rhwng y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys adborth rheolaidd gan y Comisiynwyr i aelodau eu grŵp am waith y Comisiwn a darparu gwybodaeth drwy fewnrwyd yr Aelodau. Mae Grŵp Cyswllt Plaid y Senedd yn darparu cyfarfodydd strwythuredig, wedi'u cynllunio gyda grwpiau plaid i lywio syniadau a phenderfyniadau'r Comisiwn.

[1] Mae Rhaglen Newid y Comisiwn yn cynnwys nifer o brosiectau a mentrau, a reolir gan dimau amrywiol yn y Senedd. Y Swyddfa Rhaglenni a Newid sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gyflwyno adroddiad rheolaidd ar gynnydd, eithriadau, risgiau a materion i'r Bwrdd Gweithredol.

# Crynodeb o'r gweithgareddau

| Nod strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2022-23 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | Rhoi cymorth i'r Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau<br>❶ ❷ ❸ ❹ | Fframwaith Rheoleiddio | | Mae gwaith lliniaru mewn perthynas â heriau cyfathrebu'n effeithiol, a sicrhau dealltwriaeth o elfennau amrywiol y fframwaith rheoliadol fel y maent yn berthnasol i Aelodau o'r Senedd yn mynd rhagddo. Bydd adolygiad archwilio a gwblhawyd yn ddiweddar yn llywio'r gwaith hwn. | Bwrw ymlaen â'r gwaith ar symleiddio a chyfleu rheolau a gweithdrefnau yn ein fframwaith rheoleiddio fel y mae'n berthnasol i Aelodau |
| | | Diwygio'r Senedd | Diwygio'r Senedd | Cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei adroddiad ym mis Mai 2022. Mynegodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i baratoi a chyflwyno deddfwriaeth i fwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor a chynhaliodd y Comisiwn ymarfer asesu costau. Mae Rhaglen Diwygio'r Senedd wedi'i sefydlu, a bydd yn cydgysylltu'r cymorth a'r cyngor a ddarperir gan y Comisiwn. | |



| Nod strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2022-23 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | Ymateb i newid cyfansoddiadol a hwyluso'r newid hwnnw, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyngsefydliadol a dysgu | Newid Cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU | Newid Cyfansoddiadol y DU | Mae targedu adnoddau ar lefelau priodol, datblygu gwaith rhyng-seneddol a rhannu gwybodaeth â swyddogion perthnasol y Comisiwn a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol wedi helpu i sicrhau amlygrwydd a rheolaeth ar faterion cyfansoddiadol cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg. | |
| | Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy | Gallu a chapasiti corfforaethol | | Mae'r Uned Cynllunio Strategol wedi'i sefydlu i gefnogi Bwrdd Gweithredol y Comisiwn i wneud penderfyniadau am ei amcanion strategol, drwy oruchwylio'r fframweithiau cynllunio, rheoli portffolio ac adrodd. | Ymgorffori'r fframwaith cynllunio gwasanaeth a chorfforaethol wedi'u diweddaru |

| Nod strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2022-23 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn** | Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais<br>7 | | | Roedd sesiynau casglu tystiolaeth yn sicrhau bod profiadau byw y rhai y mae polisïau a deddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol arnynt wrth wraidd yr argymhellion a wneir i Lywodraeth Cymru. | |
| | Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb<br>5 6 | | | Cynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys grŵp cynghori ar-lein a sesiynau grŵp ffocws wyneb yn wyneb. | |
| | Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru, sy'n arwain y ffordd fel sefydliad dwyieithog | | | Ymwelodd Tywysog Cymru â'r Senedd am y tro cyntaf i wella ei ddealltwriaeth o'r dirwedd wleidyddol ddatganoledig a'r materion allweddol y mae pobl yng Nghymru yn eu hwynebu.<br>Cafodd Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd ei gymeradwyo a'i fabwysiadu yn y Cyfarfod Llawn ym mis Medi 2022. | Chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ynghylch cydymffurfio â'n Cynllun Ieithoedd Swyddogol |



| Nod strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2022-23 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy** | Rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn<br>14 | | | Mae staff cynaliadwyedd yn ymwneud â datblygu manylebau ac adolygiadau tendro ar gyfer pob contract mawr; sicrhau bod safonau amgylcheddol yn cael eu pennu lle bynnag y bo'n berthnasol. | |
| | Meithrin a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau<br>10 11 12 | Seiberddiogelwch | | Mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn un o risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn ac mae'n destun gwaith monitro cyson, gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd adnoddau ychwanegol i gryfhau rheolaethau ymhellach ac i hybu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth. | |
| | | Gallu a chapasiti corfforaethol | | Fel rhan o Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig mae Cynllun Gweithlu yn cael ei ddatblygu er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl gywir, gyda'r sgiliau cywir, ar gael i gefnogi gweithlu gwydn sy'n gallu addasu. | Cwblhau a gweithredu'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig |

| Nod strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2022-23 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy** | Cynllunio a rheoli arian a phrosiectau yn effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd<br>8 | | Cwblhau a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Corfforaethol newydd | Cyflwynwyd Cynllun Cyflawni Corfforaethol cyntaf y Comisiwn ac adroddwyd ar gynnydd ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r Cynllun Cyflawni Corfforaethol yn cael ei ddatblygu ymhellach ar gyfer 2023-24 i gynnwys adborth gan Dîm Arwain y Comisiwn. | Sicrhau bod trefniadau llywodraethu prosiectau a rhaglenni'n parhau i fod yn effeithiol, a gweithredu'r fframwaith rheoli portffolio a chylchoedd adrodd ar y cyd ar gyfer rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio a phrosiectau mawr eraill. |
| | | Gallu a chapasiti corfforaethol | | Bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cael ei ddatblygu yn sicrhau bod blaenoriaethau, adnoddau a chyflawni yn ceisio cyflawni'r nodau tymor canolig, yn ogystal â thargedau'r flwyddyn gyfredol. | |



| Nod strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2022-23 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy** | Rhoi sicrwydd drwy lywodraethu priodol a dangos gwerth am arian<br>9 15 | Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd) | | Mae'r rhaglen waith i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys gwaith gyda meysydd gwasanaeth a Hyrwyddwyr Llywodraethu Gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth ac i sicrhau bod Asesiadau Effaith Diogelu Data yn cael eu cynnal yn briodol, yn parhau. | |
| | | Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Aelodau o'r Senedd) | | Cynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer y garfan newydd o Aelodau yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 ac mae cytundebau prosesu data gydag Aelodau o'r Senedd (gan eu bod yn rheolwyr data yn eu rhinwedd eu hunain) yn cael eu datblygu. | |
| | Darparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer gweithio ac ymgysylltu<br>13 | Coronafeirws | Cwblhau a gweithredu strategaeth a rhaglen waith Ffyrdd o Weithio | Mae Strategaeth Ystadau'r Comisiwn, Strategaeth Cynaliadwyedd (Carbon Sero Net) a dau adolygiad a gwblhawyd yn flaenorol (Adolygiadau Dyfodol Ystwyth a Chapasiti) wedi'u cyfuno'n strategaeth Ffyrdd o Weithio integredig, mae ffrydiau gwaith cysylltiedig wedi'u sefydlu ac mae mentrau'n cael eu datblygu. | |

| Nod strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2022-23 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy** | | Urddas a pharch | | Mae gwaith wedi mynd rhagddo i symleiddio gweithdrefnau a pholisïau Urddas a Pharch y Comisiwn. | |

Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol - Mae rhagor o wybodaeth am ein Dangosyddion ar gael ar dudalen 35.

1. Busnes Seneddol yn digwydd fel yr amserlennwyd
2. Y Cofnod wedi'i gyhoeddi yn unol â'r targed
3. Trawsgrifiadau pwyllgorau wedi'u cyhoeddi yn unol â'r targed
4. Darparu papurau dwyieithog
5. Ymgysylltu â dinasyddion
6. Dilynwyr sianeli cyfryngau corfforaethol y Senedd
7. Ymgysylltu â phlatfformau dosbarthu cyfryngau
8. Cyllideb weithredol
9. Cyfrifon diamod
10. Arolwg staff
11. Dysgwyr Cymraeg
12. Ceisiadau swydd gan uniogolion o leiafrifoedd ethnig
13. Cyfradd salwch staff
14. Ôl-troed carbon blynyddol
15. Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru

Mae rhagor o fanylion am sut mae'r proffil risg wedi newid yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys yn yr adran Dadansoddi Perfformiad ar dudalen 43. Mae rhagor o wybodaeth am y broses a'r camau lliniaru ar gyfer y risgiau hyn a'r cynnydd a wnaed ar y meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2022-23 i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 116.





**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

# Dadansoddi Perfformiad

Mae'r adran Dadansoddi Perfformiad hon yn darparu manylion am sut rydym wedi datblygu gwaith ar flaenoriaethau'r Comisiwn o dan ein nodau strategol.

▼ **Ymweliad ysgol â'r Senedd, Gwanwyn 2023**







# Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Senedd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

Mae rhai o'n dangosyddion yn statig, ac yn adrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae rhai dangosyddion yn darparu 'ymestyniad' i wella perfformiad mewn nifer o feysydd a nodwyd, a chaiff y dangosyddion hyn eu hadolygu'n flynyddol.

Yn ystod y pandemig Covid-19, gwnaeth Comisiwn y Senedd addasu i'r sefyllfa a oedd yn newid a bu i rai o'n ffyrdd o weithio addasu o ganlyniad i hynny. Dylid cadw hyn mewn cof wrth wneud cymariaethau uniongyrchol flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r newidiadau hyn i'n harferion gwaith yn ddigonol, ac i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, cynhaliwyd adolygiad o'n dangosyddion perfformiad allweddol ar ddechrau'r Chweched Senedd. Dyma'r flwyddyn gyntaf o adrodd ar y dangosyddion perfformiad allweddol ers yr adolygiad ac felly nid yw data'r blynyddoedd blaenorol ar gael ar gyfer pob dangosydd.

## Darparu cymorth seneddol o’r radd flaenaf


**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**


❶ Parhaodd y Cyfarfod Llawn a’r pwyllgorau i gyfarfod ar ffurf hybrid. Parhaodd yr amserlenni ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor a osodwyd gan y Pwyllgor Busnes yn gynnar yn y Chweched Senedd mewn patrwm cylchdroi o slotiau wedi’u hamserlennu bob yn ail a slotiau wrth gefn. Cynhaliwyd pob un o'r 67 Cyfarfod Llawn a drefnwyd o fewn gofynion statudol, gydag un o’r rhain yn gyfarfod brys ychwanegol. O’r 313 o gyfarfodydd pwyllgor a drefnwyd gan y Pwyllgor Busnes, cynhaliwyd 307 fel y cynlluniwyd.


❷ Cyrhaeddwyd yr holl dargedau mewn perthynas â Chofnod y Trafodion 100 y cant drwy gydol y flwyddyn.

❸ Dangosydd Perfformiad Allweddol newydd ar gyfer y cyfnod adrodd hwn yw cyhoeddi trawsgrifiadau pwyllgor ar-lein (gyda chyfraniadau Cymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg) o fewn tri diwrnod gwaith. Oherwydd llwyth gwaith trwm, amser-sensitif dros y cyfnod craffu ar y gyllideb, methwyd un terfyn amser ar gyfer trawsgrifiad pwyllgor, allan o gyfanswm o 237.

❹ O fewn pwyllgorau unigol, gall y Cadeirydd a'r Aelodau benderfynu peidio â chynhyrchu pob papur a gaiff ei baratoi’n fewnol yn ddwyieithog. O’r 1,668 o bapurau pwyllgor a baratowyd yn fewnol, cynhyrchwyd 1,153 yn ddwyieithog. O’r 1,153 o’r papurau hynny, oherwydd terfynau amser tyn, ni chafodd 17 o bapurau eu cynhyrchu’n ddwyieithog yn unol â therfynau amser cytunedig y pwyllgorau.










## Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

❺ Yn dilyn cymeradwyo’r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, mae mesur gwerthuso newydd wedi’i ddatblygu sy’n cyfuno’r holl weithgarwch a ddarperir gan y Gwasanaeth Ymgysylltu, gan gynnwys digwyddiadau, teithiau, sesiynau addysg, Senedd Ieuenctid Cymru, cymorth ymgysylltu â dinasyddion i bwyllgorau ac ymwelwyr â’r Senedd. Bydd y mesur newydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel meincnod ar gyfer perfformiad yn y dyfodol.





❻ Mae nifer y dilynwyr ar draws ein prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn y Senedd (prif dudalennau Facebook Senedd Cymru / Senedd Wales, sianeli Twitter, LinkedIn, Instagram ac YouTube) wedi parhau i godi. Mae ymdrechion wedi bod yn canolbwyntio ar dyfu ein cynulleidfa Instagram, sydd â dilynwyr iau na Twitter a Facebook. Mae hyn yn cyd-fynd â'n strategaeth i gyrraedd cynulleidfa iau. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol gyda Linkedin, gyda thwf cynulleidfa o 25 y cant. Mae dylanwadwyr allanol yn cael effaith fawr ar gyrhaeddiad ac ymgysylltiad - rhannodd cyfrif swyddogol Y Teulu Brenhinol drydariad o'n cyfrif Cymraeg a arweiniodd at gynnydd sylweddol mewn cyrhaeddiad.



## Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

❼ Ar ddechrau'r flwyddyn roedd y tîm newyddion yn brin o staff ac mae effaith hyn yn amlwg yn y ffigurau. O fis Awst ymlaen roedd y tîm wedi'i staffio'n llawn a chyhoeddwyd nifer o adroddiadau pwyllgor ar ddechrau toriad yr haf. O’r hydref ymlaen, bu’r tîm newyddion yn briffio’r cyfryngau bob pythefnos, sydd wedi arwain at sylw sylweddol i faterion mwy cymhleth, megis adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ac adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar gyfrifon Llywodraeth Cymru. Mae'r tîm llawn hefyd wedi caniatáu amser i'r tîm ymgysylltu ag astudiaethau achos, yn ogystal â sefydlu trefniadau cyfryngau, fel yn achos adroddiad cerbydau trydan Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ym mis Mawrth, a gafodd sylw sylweddol.






**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23


## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**


❽ Dangosydd Perfformiad Allweddol newydd ar gyfer y cyfnod hwn yw bod lefel yr amrywiad rhwng gwariant gweithredol net y Comisiwn a’i gyllideb gweithredol blynyddol o fewn 1.5 y cant. Mae’r alldro gweithredol ar gyfer 2022-23 0.84 y cant yn is na’r gyllideb.

❾ Mae ein cyfrifon yn ddiamod ac wedi’u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

❿ Cyflwynwyd ein Harolwg Pobl Blynyddol drwy arbenigwr arolwg annibynnol am y drydedd flwyddyn yn olynol, gan ddefnyddio’r ymgysylltiad Chwe Cham at y Gweithle unwaith eto: llesiant, gwobrwyo a chydnabod, rhannu gwybodaeth, grymuso, meithrin balchder a boddhad swydd. Y Sgôr Ymgysylltu yn y Gweithle eleni yw 75 y cant, sef 6 y cant yn uwch na chyfartaledd y diwydiant a 3 y cant yn uwch na'r cyfartaledd byd-eang.





⓫ Yn ystod y pandemig parhaodd y dosbarthiadau Cymraeg i gael eu cynnal yn rhithwir. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau personol dysgwyr unigol bu gostyngiad yn nifer cyfartalog y dysgwyr (63 o ddysgwyr yn 2020-21 a 59 o ddysgwyr yn 2021-22). Mae’r cyfnod adrodd hwn wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer cyfartalog y dysgwyr cofrestredig (103). Mae hyn oherwydd denu dysgwyr newydd a chyn-ddysgwyr, bod mwy o adnoddau addysgu ar gael a bod dosbarthiadau ar-lein yn cael eu darparu sy’n denu dysgwyr newydd sy’n gweithio o bell, yn enwedig o blith staff cymorth yr Aelodau.




## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

⓬ Ein targed yw cynyddu nifer y ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn allanol gan unigolion sy'n nodi eu bod o gefndir lleiafrifoedd ethnig flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ar 31 Mawrth 2023, mae nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n nodi eu bod o gefndir lleiafrifoedd ethnig wedi parhau i gynyddu, sef 112 (13.0 y cant), o'i gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf pan nododd 105 (11.0 y cant) o ymgeiswyr eu bod o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Rydym yn parhau i fonitro'r cyfraddau trosi ar draws ein prosesau recriwtio ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd yn defnyddio mewnwelediadau data ac adborth ymgeiswyr i nodi unrhyw rwystrau posibl a/neu wirioneddol i addasu ein prosesau yn unol â hynny.




⓭ Cyfradd dreigl gyfartalog absenoldeb salwch 12 mis staff yw 2.83 y cant ac mae wedi parhau i fod yn is na chyfradd meincnodi'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o 3 y cant ym mhob mis yn y cyfnod adrodd hwn. Mae'r Comisiwn yn cynnal arolygon pwls llesiant rheolaidd a, chan nodi bod iechyd meddwl yn cyfrif am tua hanner ein habsenoldeb salwch, mae cynlluniau gweithredu llesiant wedi'u creu ar gyfer pob maes gwasanaeth sy'n nodi'r camau allweddol y byddant yn eu cymryd i gefnogi llesiant o fewn eu timau.










## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

⓮ Mae Dangosydd Perfformiad Allweddol newydd ar gyfer y cyfnod adrodd hwn yn cysylltu â Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn - i leihau ein hôl troed carbon yn flynyddol o 1150t ym mlwyddyn sylfaen 2019-20 i 500t erbyn 2030. Mae targed o <955 tunnell o garbon erbyn diwedd y flwyddyn wedi'i gyrraedd (827 o dunelli). Mae mesurau effeithlonrwydd a gyflwynwyd ar gyfer y gaeaf wedi helpu i leihau'n sylweddol ein defnydd o nwy yn arbennig.




⓯ Fel rhan o'r adolygiad o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol mae'r targed ar gyfer y canran gwariant gyda chyflenwyr o Gymru wedi cynyddu o 43 y cant erbyn diwedd y Bumed Senedd i 50 y cant erbyn diwedd y Chweched Senedd. Mae ein gwariant dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi gweld cynnydd cadarnhaol o 45 y cant i 47 y cant. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd contract gyda chyflenwyr yng Nghymru.







# Proffil risg

Mae'r risgiau mwyaf arwyddocaol y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu yn cael eu nodi mewn Cofrestr o Risgiau Corfforaethol (y Gofrestr), sy'n cael ei hadolygu a'i monitro'n rheolaidd gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn, ac mae'n eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae manylion am y prosesau ar gyfer nodi, monitro ac adrodd ar risgiau ar bob lefel[2] wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 116.

Er gwaethaf ffocws parhaus ar gamau lliniaru, mae'r risgiau a ganlyn wedi aros ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol drwy gydol y flwyddyn oherwydd eu difrifoldeb parhaus (yn enwedig oherwydd eu heffaith bosibl) ac yn bennaf oherwydd dylanwadau allanol nad oes gennym fawr o reolaeth drostynt, os o gwbl.

## Seiberddiogelwch

Mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn un o risgiau mwyaf sylweddol y Comisiwn ac mae'n destun gwaith monitro cyson, gyda diweddariadau rheolaidd ar liniaru yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol. Mae hefyd yn faes sy'n destun gwaith archwilio a chraffu annibynnol rheolaidd, gan gynnwys gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn sydd, ynghyd â'r diweddariad ar reoli'r risg ym mhob cyfarfod, yn cael diweddariadau ar weithredu argymhellion archwilio mewnol, ac adroddiadau sicrwydd manwl a gyflwynir gan uwch-swyddogion TGCh. Yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd adnoddau ychwanegol i gryfhau rheolaethau ymhellach ac i hybu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth.

## Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd)

Roedd lliniaru risgiau diogelu data yn parhau i fod yn ffocws yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi parhau i wneud cynnydd gyda'i raglen waith i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac mae'n datblygu cytundebau prosesu data gydag Aelodau o'r Senedd (fel rheolwyr data yn eu rhinwedd eu hunain). Mae'r tîm hefyd yn parhau i weithio gyda meysydd gwasanaeth a Hyrwyddwyr Llywodraethu Gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth ac i sicrhau bod Asesiadau Effaith Diogelu Data yn cael eu cynnal yn briodol.

[2] Risgiau corfforaethol – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni nodau a blaenoriaethau Comisiwn y Senedd, neu unrhyw amcanion allweddol sydd ag effaith drawsbynciol ar draws y sefydliad. Risgiau lefel gwasanaeth – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni amcanion lefel gwasanaeth.

## Urddas a pharch

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr gan fod angen gwneud rhagor o waith i symleiddio polisïau a gweithdrefnau Urddas a Pharch y Comisiwn i sicrhau eu bod mor hygyrch â phosibl i'r rhai sydd eu hangen.

## Newid Cyfansoddiadol sy’n gysylltiedig â’r DU

Mae’r risg wedi parhau ar y Gofrestr i’r Bwrdd Gweithredol fonitro mesurau lliniaru sydd ar waith wrth i’r Senedd ymateb i dirwedd gyfansoddiadol esblygol Cymru a’r DU. Mae hyn yn cynnwys goblygiadau *Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020* ar y Senedd a’r heriau arwyddocaol a’r heriau sy’n dod i’r amlwg yn sgil Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU.

## Diwygio’r Senedd

Mae’r risg hon wedi parhau ar y Gofrestr i ymgorffori strwythurau llywodraethu i hwyluso’r ymateb i ofynion sy’n deillio o raglen ddiwygio arfaethedig y Senedd. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael o dan y teitl Diwygio’r Senedd yn yr adran ar Ddadansoddi Perfformiad ar dudalen 54.

## Fframwaith Rheoleiddio

Mae’r risg hon wedi parhau ar y Gofrestr i amlinellu mesurau lliniaru yn ymwneud â’r heriau o gyfathrebu’n effeithiol, a sicrhau dealltwriaeth o elfennau amrywiol y fframwaith rheoleiddio fel y maent yn berthnasol i Aelodau o’r Senedd.

Ychwanegwyd y risg a ganlyn at y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod y cyfnod hwn:

## Gallu a chapasiti corfforaethol

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr yn ystod y flwyddyn i gydnabod yr angen am fecanweithiau cadarn er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl iawn, gyda’r sgiliau cywir, ar gael i gefnogi’r gweithlu gwydn ac addasadwy i gyflawni’r newidiadau trawsnewidiol sylweddol.

Tynnwyd y risgiau a ganlyn oddi ar y Gofrestr yn ystod y cyfnod hwn:

## Coronafeirws

Mewn ymateb i sefyllfa a oedd yn gwella wrth i achosion o Covid-19 ddirywio a chyfyngiadau gael eu codi, tynnwyd y risg hon oddi ar y Gofrestr ym mis Medi 2022 gyda’r bwriad o’i huwchgyfeirio eto pe bai angen. Parhaodd y risgiau i gael eu monitro ar lefelau gwasanaeth a pharhaodd uwch-reolwyr i adolygu'r Asesiad o





Risgiau Corfforaethol yn rheolaidd, sy'n ymgorffori clefydau heintus a'r mesurau parhaus sydd ar waith i liniaru'r risg.

## Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Aelodau o’r Senedd)

Roedd y risg ynghylch diogelu data ar gyfer Aelodau o’r Senedd wedi’i huwchgyfeirio i’r Gofrestr i adlewyrchu’r angen i godi ymwybyddiaeth ar gyfer y garfan newydd o Aelodau yn dilyn etholiadau’r Senedd ym mis Mai 2021, gan eu bod yn rheolwyr data yn eu rhinwedd eu hunain. Cafodd y risg ei thynnu oddi ar y Gofrestr ym mis Ionawr 2023 ond mae’n parhau i gael ei rheoli ar lefel gwasanaeth gyda chamau lliniaru yn parhau.

# Adolygiad ariannol

O dan delerau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod y Senedd yn cael y staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflawni rôl y Senedd fel deddfwrfa ddemocrataidd gref, hygyrch a blaengar sy'n darparu'n effeithiol i bobl Cymru.

Nod cyllideb y Comisiwn yw bod yn dryloyw, yn ddarbodus ac wedi'i gosod yng nghyd-destun y sefyllfa gyllido ariannol hirdymor yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi parhau i fireinio'r ffordd y mae'n cyflwyno ei gyllideb yn seiliedig ar y gwaith craffu a'r adborth a gafodd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid. Mae'r Comisiwn yn dilyn y canllawiau a ddarperir yn 'Natganiad Egwyddorion' y Pwyllgor Cyllid.

Mae'r Comisiwn yn cyflwyno ei gyllideb mewn fformat tryloyw i ddangos y gwahanol fathau o wariant. Defnyddir cyllideb y Comisiwn i dalu costau rhedeg y Senedd yn ogystal â chostau cyflogau a lwfansau Aelodau o'r Senedd, fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Bob pum mlynedd mae pennawd gwariant ychwanegol yn cael ei gynnwys ar gyfer etholiadau'r Senedd.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

**Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn**

| | 2018-19 £m | 2019-20 £m | 2020-21 £m | 2021-22 £m | 2022-23 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb weithredol (Nodyn 1)** | 38 | 40 | 42 | 41 | 45 |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 16 | 16 | 16 | 16 | 17 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol (Nodyn 2)** | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad** | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 |
| | 55 | 58 | 61 | 61 | 64 |

**Nodyn 1** - Gellir dadansoddi'r gyllideb weithredol yn ôl ei helfennau allweddol (fel y darperir).

**Nodyn 2** - Mae'r term 'Gwariant a reolir yn flynyddol' yn ymwneud â'r ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd o dan reolau Trysorlys EM ac mae'n bennawd gwariant nad yw'n arian parod.

**Dadansoddiad o'r Gyllideb Weithredol**

| Dadansoddiad o'r gyllideb weithredol: | 2018-19 £m | 2019-20 £m | 2020-21 £m | 2021-22 £m | 2022-23 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau sy'n gysylltiedig â staff (Nodyn 3)** | 23 | 25 | 26 | 26 | 27 |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | 12 | 12 | 13 | 13 | 10 |
| **Cronfa prosiect (Nodyn 4)** | 0 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod) (Nodyn 5)** | 2 | 2 | 2 | 2 | 6 |
| | 38 | 40 | 42 | 41 | 45 |

**Nodyn 3** - Mae'r newid rhwng 2018-19 a 2019-20 mewn costau sy'n gysylltiedig â staff yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwr a osodwyd gan Drysorlys EM.

**Nodyn 4** - Ers 2019-20 mae'r gyllideb wedi cynnwys Cronfa Prosiectau ddynodedig.

**Nodyn 5** – Mae'r cynnydd mewn dibrisiant i'w briodoli i effaith IFRS16 a'r gofyniad i gydnabod prydlesi fel 'Asedau Hawl i Ddefnyddio', a thaliadau dibrisiant.

| Cyfanswm Gwariant y Comisiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2018-19 £m** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** |
| **Gwariant gweithredol** | 38 | 40 | 42 | 41 | 44 |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 15 | 15 | 16 | 15 | 17 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad** | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| | 54 | 56 | 60 | 60 | 62 |
| **Cyfanswm y gwariant yn erbyn cyfanswm y gyllideb – o dan/(drosodd) (Nodyn 6)** | 1.0 | 2.0 | 1.0 | 1.0 | 2.0 |

**Nodyn 6** - Mae'r Comisiwn yn rheoli ei gyllideb ariannol yn agos. Mae'r tanwariant uwch yn 2019-20 yn rhannol oherwydd y pandemig Covid-19 a oedd yn golygu nad aeth nifer o brosiectau a gynlluniwyd ar gyfer pedwerydd chwarter y flwyddyn honno yn eu blaenau.

| Dadansoddiad o'r Gwariant Gweithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o wariant gweithredol:** | **2018-19 £m** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** |
| **Costau cysylltiedig â staff** | 24 | 24 | 25 | 25 | 27 |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | 13 | 13 | 14 | 14 | 10 |
| **Cronfa brosiectau** | 0 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod)** | 2 | 2 | 2 | 2 | 5 |
| | 39 | 40 | 42 | 41 | 44 |
| **Gwariant gweithredol yn erbyn y gyllideb weithredol - o dan/(drosodd)** | (1.0) | - | - | 1.0 | 0 |

Cyn 2019-20 nid oedd gan y Comisiwn Gronfa Prosiectau bwrpasol. Yn lle hynny, defnyddiwyd tanwariant a gynhyrchwyd o benawdau eraill y gyllideb i ychwanegu at y gyllideb weithredol.

Nod y Comisiwn yw sicrhau alldro gweithredol diwedd blwyddyn o fewn yr ystod 0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb weithredol.





| Alldro 2022-23 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y gyllideb £m** | **Alldro £m** | **Amrywiad £m** | **Amrywiad %** |
| **Costau cysylltiedig â staff** | 27 | 27 | 0 | 1.0% |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | 10 | 10 | 0 | 0% |
| **Cronfa brosiectau** | 2 | 2 | 0 | 0% |
| **Costau etholiad** | 0 | 0 | 0 | - |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod)** | 6 | 5 | 1 | 1.7% |
| **Cyfanswm y gweithgaredd gweithredol** | 45 | 44 | 1 | 2% |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 17 | 17 | 0 | - |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | 2 | 2 | 0 | - |
| | 64 | 63 | 1 | 1.6% |

Mae'r alldro gweithredol ar gyfer 2022-23 0.84 y cant yn is na'r gyllideb. Mae'r Comisiwn yn rhagweithiol wrth reoli'r gyllideb a sicrhau'r gwerth gorau am arian o'r adnoddau sydd ar gael. Mae rheolaeth ofalus yn ystod y flwyddyn a rhagolygon cywir wedi hwyluso safle alldro ar ddiwedd y flwyddyn sydd o fewn ystod y targed.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

# Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Yn yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol rydym yn disgrifio sut rydym wedi cyflawni busnes y Senedd

▼ **Cyfarfod Llawn, Hydref 2022**



## CEFNOGI'R CYFARFOD LLAWN

**67 Cyfarfod Llawn**

## CEFNOGI'R PWYLLGORAU

**307 o gyfarfodydd pwyllgor**

**166 o adroddiadau pwyllgor**





## DEDDFWRIAETH ATEGOL

**Cyflwynwyd 2 Fil newydd**

**Pasiwyd 5 Bil i ddod yn Ddeddfau**

## CWESTIYNAU A OFYNNIR YN Y CYFARFOD LLAWN

**270 o Gwestiynau Amserol**

**1,413 o Gwestiynau Llafar**

**2,996 o Gwestiynau Ysgrifenedig**

**6 Chwestiwn Brys**

## Diwygio'r Senedd

Ar 30 Mai 2022, cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei adroddiad – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru[3]. Trafodwyd yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mehefin, a derbyniwyd y cynnig a ganlyn gan y Senedd:

> *Cynnig bod y Senedd:*
>
> *1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 'Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru'.*
>
> *2. Yn cymeradwyo'r cyfarwyddiadau polisi a argymhellir ynghylch deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd mewn digon o amser ar gyfer etholiadau nesaf y Senedd yn 2026.*
>
> *3. Yn nodi bod yr adroddiad hefyd yn galw ar y Senedd i drafod nifer o faterion sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd.*

Yn ei hymateb ffurfiol i'r adroddiad[4], mynegodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i baratoi a chyflwyno deddfwriaeth i fwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor.

Ar 12 Ionawr 2023, mewn llythyr at y Llywydd (yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Comisiwn y Senedd), gwnaeth y Prif Weinidog gais i Gomisiwn y Senedd ddarparu gwybodaeth graidd erbyn diwedd mis Mawrth am oblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth diwygio i'r Senedd, sy'n ofynnol ar gyfer yr adrannau perthnasol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Memorandwm Esboniadol ("y Memorandwm") a fydd yn cyd-fynd â'r Bil.

Mewn ymateb i'r cais hwn, cynhaliodd Comisiwn y Senedd ymarfer asesu costau ac mae wedi cyflwyno ei asesiad i Lywodraeth Cymru. Gan gydnabod y newidynnau a'r penderfyniadau niferus sydd, hyd yma, yn anhysbys/heb eu gwneud, roedd yr ymarfer asesu costau yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau cyffredin yr oedd Comisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Busnes o'r farn eu bod yn sail resymol ar gyfer cynhyrchu'r amcangyfrifon gorau. Yn unol â hynny, mae'n debygol y bydd costau rhagamcanol y diwygiadau yn esblygu dros amser, wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ac wrth i gostau ddod yn gliriach yn raddol.

Wrth edrych ymlaen, mae rhaglen Diwygio'r Senedd wedi'i sefydlu a bydd yn cydgysylltu'r cymorth a'r cyngor a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd. Yn benodol, bydd y rhaglen yn sicrhau y gellir cwblhau'r holl baratoadau gweithdrefnol angenrheidiol i ganiatáu i'r Seithfed Senedd weithredu ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2026. Bydd yn sicrhau y gall Comisiwn y Senedd ymateb i unrhyw faterion y gall fod am ymateb iddynt cyn, a/neu yn ystod, taith Bil Diwygio'r Senedd, a gall wneud penderfyniadau gwybodus ar ffurf ei fusnes seneddol o ddechrau ei dymor. Bydd hefyd yn cefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol i roi ei Benderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd ar waith yn unol â'i raglen waith strategol. Gan weithio ar y cyd â rhaglen Diwygio'r Senedd, strategaeth Ffyrdd o Weithio y Comisiwn (tudalen 90) fydd yn gyfrifol am weithredu rhai agweddau ar y diwygiadau, megis unrhyw newidiadau angenrheidiol i ystâd y Senedd.

[3] https://senedd.cymru/media/nekjfv3a/cr-ld15130-w.pdf
[4] https://senedd.cymru/media/nekjfv3a/cr-ld15130-w.pdf



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

## Y Bwrdd Taliadau Annibynnol

### Darparu adnoddau i'r Bwrdd

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) o dan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*. Mae'n annibynnol ar y Senedd ac yn gyfrifol am bennu tâl yr Aelodau a'r adnoddau sydd eu hangen ar yr Aelodau i wneud eu gwaith yn effeithiol. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu ar gyfer y Bwrdd unrhyw gymorth gweinyddol y mae'n rhesymol iddo ofyn amdano i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau.

Ym mis Mawrth 2022, adolygodd y Bwrdd ei raglen waith strategol a gofynnodd am adnoddau ychwanegol i wneud ei waith. Ym mis Mai 2022, cytunodd y Comisiwn i ofyn am gyllideb atodol i geisio adnoddau ychwanegol ar gyfer y Bwrdd. Fel rhan o'r broses hon, cytunodd y Comisiwn i glustnodi'r cymorth uniongyrchol sydd ar gael i'r Bwrdd o fewn cyllideb y Comisiwn er mwyn cyflwyno costau'r Bwrdd yn fwy tryloyw. Mae prosesau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith i alluogi'r Bwrdd Gweithredol a'r Comisiwn i gael sicrwydd bod anghenion adnoddau'r Bwrdd yn rhesymol.





### Rhaglen waith strategol

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi gwneud cynnydd yn erbyn ei amcanion strategol a'i raglen waith. Y prif feysydd gwaith y mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio arnynt yw:

- **Ymateb i bwysau costau byw** – ym mis Rhagfyr 2022, cytunodd y Bwrdd i gynyddu terfyn y lwfans y gall yr Aelodau ei hawlio i dalu unrhyw gostau angenrheidiol i redeg eu swyddfeydd yn 2022-23 fel bod yr Aelodau'n gallu parhau i gyflawni eu dyletswyddau ymgysylltu a chynrychioli eu hetholwyr yn effeithiol. Darparodd y Bwrdd hefyd daliad cyfradd safonol o £600 i bob aelod o staff cymorth ym mis Ionawr.

- **Ffyrdd o weithio** – Dechreuodd y Bwrdd adolygiad o'r Gronfa Cyswllt Swyddfeydd ac Etholwyr yn sgil y newidiadau presennol a'r newidiadau a ragwelir i ddulliau gweithio yr Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau. Bu'r Bwrdd yn gweithio gyda Chomisiwn y Senedd i gynnal ymarfer ymgysylltu â'r Aelodau i geisio deall sut mae eu ffyrdd o weithio wedi newid a beth fyddai eu hoff ffyrdd o weithio yn y dyfodol (tudalen 90). Cyflwynwyd canfyddiadau'r ymarfer hwn i'r Bwrdd ac maent yn helpu i lywio ystyriaeth y Bwrdd o unrhyw newidiadau sydd eu hangen i lwfansau'r Aelodau.

- **Adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd y Bwrdd** - comisiynodd y Bwrdd adolygiad canol tymor o'i effeithiolrwydd hanner ffordd drwy ei gyfnod yn y swydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad.

- **Cytundeb Cydweithio** - Ystyriodd y Bwrdd dystiolaeth a ddaeth i law ar oblygiadau'r Cytundeb ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau, gan gynnwys llythyrau a ddaeth i law gan grwpiau gwleidyddol. Penderfynodd y Bwrdd nad oedd angen unrhyw newidiadau i lwfansau yn sgil y Cytundeb Cydweithio.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gael ar ei wefan: https://bwrddtaliadau.cymru/

## Monitro amrywiaeth tystiolaeth y Pwyllgor

### Rôl y pwyllgorau

Mae pwyllgorau'r Senedd yn rhan bwerus o ddemocratiaeth Cymru. Maent yn gwirio ac yn herio gweithredoedd Llywodraeth Cymru, yn craffu ar gyfreithiau drafft, ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion. Mae eu hadroddiadau, eu hargymhellion, a'u newidiadau deddfwriaethol yn cael effaith wirioneddol ar sut mae'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill yn rhedeg gwasanaethau cyhoeddus, sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario, a'r cyfreithiau y mae pobl yn ddarostyngedig iddynt.

Mae pwyllgorau'n dibynnu ar dystiolaeth gan amrywiaeth o bobl a sefydliadau i wneud eu gwaith. Mae'n eu helpu i benderfynu pa faterion i ymchwilio iddynt, lle gallai problemau fod, a pha atebion a allai weithio.

Mae tystiolaeth a gesglir drwy ymgynghoriadau, cyfarfodydd pwyllgor, a gweithgareddau ymgysylltu â dinasyddion, megis ymweliadau maes, grwpiau ffocws ac arolygon, ochr yn ochr â gwaith ymchwil a wnaed gan Ymchwil y Senedd neu gan gynghorwyr arbenigol, yn helpu pwyllgorau i ddod i gasgliadau, llunio syniadau ar gyfer newid, ac ysgrifennu adroddiadau.

### Monitro amrywiaeth y dystiolaeth

Gall deall pa bobl a sefydliadau sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau helpu i nodi lleisiau coll a rhwystrau i ymgysylltu.

Yn 2021, argymhellodd cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd y dylid casglu data ar bwy sy'n ymgysylltu â phwyllgorau'r Senedd. Roedd adolygiad Stirbu 2021 o effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd hefyd yn argymell y dylid monitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau.





### Prosiect peilot un (Tachwedd 2021-Ebrill 2022)

Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ebrill 2022, cynhaliodd pwyllgorau'r Senedd brosiect peilot i fonitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau. Y gyfradd ymateb i'r arolwg oedd 18 y cant, sy'n golygu y dylid trin unrhyw gasgliadau yn ofalus. Serch hynny, roedd y data yn dangos bod y mwyafrif o ymatebwyr yr arolwg wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau pwyllgor o'r blaen, a bod mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn cyfrannu ar ran sefydliadau. Roedd hefyd yn awgrymu tangynrychioli posibl o'r canlynol:

- Pobl iau a hŷn.
- Pobl nad ydynt wedi'u haddysgu i lefel gradd neu uwch, a phobl nad ydynt yn gweithio'n llawnamser.
- Pobl anabl, a phobl sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Pobl nad ydynt yn byw yng Nghanol De Cymru.
- Y sector preifat.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael mewn blog a gynhyrchwyd gan Ymchwil y Senedd[5].

### Prosiect peilot dau (Hydref 2022-Ebrill 2023)

Ym mis Hydref 2022, dechreuodd ail brosiect peilot o'r system monitro amrywiaeth tystiolaeth, sy'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect peilot cyntaf. Disgwylir i ragor o wybodaeth am y canfyddiadau a'r camau nesaf ar gyfer monitro amrywiaeth tystiolaeth gael ei chyhoeddi yn ail hanner 2023.

Bydd y data hefyd yn helpu pwyllgorau i ddeall effaith newidiadau i'w prosesau ers y pandemig, yn enwedig y defnydd parhaus o dystiolaeth o bell.

[5] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/pwy-sy-n-rhoi-tystiolaeth-i-bwyllgorau-r-senedd-a-pha-leisiau-sydd-ar-goll/

## Strategaeth cyfnewid gwybodaeth

Cyhoeddwyd strategaeth cyfnewid gwybodaeth gyntaf y Senedd [6] ym mis Tachwedd 2021 i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Senedd a'r gymuned ymchwil. Ei nod yw ehangu, dwysáu ac amrywio'r dystiolaeth ymchwil a'r arbenigedd sydd ar gael er mwyn cefnogi'r gwaith craffu a deddfu.

Yn 2022-23, bu timau ar draws y Senedd yn cydweithio i gyflawni'r strategaeth, drwy wneud y canlynol:

- Tyfu'r Rhwydwaith Cyfnewid Gwybodaeth i fwy na 350 o aelodau o dros 100 o brifysgolion a sefydliadau ymchwil;
- Darparu hyfforddiant i fwy na 300 o ymchwilwyr ar sut i ymgysylltu'n effeithiol â'r Senedd;
- Croesawu naw intern drwy Gynllun Interniaeth Polisi Ymchwil ac Arloesedd y DU;
- Datblygu cysylltiadau newydd a chynnal y rhai sydd eisoes yn bodoli â sefydliadau ymchwil, cynghorau ymchwil, a rhwydweithiau ymchwil ledled Cymru, y DU, a thu hwnt;
- Comisiynu gwaith ymchwil newydd i lenwi bylchau tystiolaeth mewn meysydd o ddiddordeb i'r Aelodau a phwyllgorau;
- Cynnal diwrnod cyfnewid thematig ar blant a phobl ifanc ar gyfer swyddogion y Senedd ac ymchwilwyr o gampws SBARC newydd Prifysgol Caerdydd;
- Cyfnewid profiadau, cyngor a gwybodaeth â Seneddau ledled y byd; a
- Chefnogi'r gwaith o ddatblygu system i fonitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau (tudalen 58).

[6] https://senedd.cymru/media/zxylp54o/external-a5-cym.pdf





## Cynllunio adnodd ymgysylltu arloesol ar gyfer pwyllgorau

Canfu adolygiad 2021 yr Athro Diana Stirbu o effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd fod cael tystiolaeth fwy amrywiol gan ystod ehangach o bobl yn flaenoriaeth i'r Aelodau a phwyllgorau. Argymhellodd y dylai pwyllgorau gael eu harwain gan dystiolaeth, yn ogystal â bod yn uchelgeisiol a chreadigol wrth estyn allan i gynulleidfaoedd newydd.

Dangosodd prosiect peilot monitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau fod academyddion wedi cyfrannu tua 9 y cant o'r dystiolaeth, gyda 61 y cant ohonynt wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen.

Ym mis Medi 2022, lansiwyd menter Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil gyntaf y Senedd i gynnwys y gymuned ymchwil yng ngwaith y pwyllgorau. Nod y prosiect yw goresgyn rhai o'r rhwystrau i ymgysylltiad a wynebir gan ymchwilwyr, a hwyluso mynediad at waith ymchwil ac arbenigedd newydd.

Cyhoeddodd dau bwyllgor bedwar maes o ddiddordeb ymchwil ar y canlynol: newid ymddygiad a'r argyfwng hinsawdd; newid moddol a theithio llesol; cymunedau cynaliadwy; a llythrennedd iechyd.

Mae academyddion wedi bod yn cofrestru eu harbenigedd ac yn ychwanegu eu gwaith ymchwil a'u mewnwelediadau i gronfa'r prosiect. Hyd yma, mae'r meysydd o ddiddordeb ymchwil wedi denu 76 o ymatebion gan academyddion o dros 25 o brifysgolion ledled y DU, ac mae gan sefydliadau Cymru gynrychiolaeth dda.

Mae'r meysydd eisoes wedi ennill eu plwyf fel ffordd effeithiol o gyrraedd pobl heblaw'r 'un hen rai' – nid yw dros 65 y cant o'r ymatebwyr erioed wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen. Mae hyn yn cyfateb i bron 50 o leisiau newydd yn ymgysylltu â'r pwyllgorau a'u gwaith.

Cafodd yr adnodd newydd adborth cadarnhaol gan staff ac Aelodau'r pwyllgorau, ac mae pwyllgorau'n ystyried sut i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd, gan gynnwys nodi tystion arbenigol, comisiynu gwaith ymchwil newydd, a chynnal digwyddiadau.

## Gweithgarwch rhyngwladol

Ym mis Medi 2022 mabwysiadodd Comisiwn y Senedd ei Fframwaith Rhyngwladol ar gyfer y Chweched Senedd. Mae'r Fframwaith yn nodi'r egwyddorion a'r amcanion a fydd yn llywio gweithgarwch rhyngwladol yn y Chweched Senedd.

Bydd y gefnogaeth i weithgareddau rhyngwladol yn y Chweched Senedd yn canolbwyntio ar waith sy'n gwella busnes seneddol ac yn galluogi'r Senedd i 'gyflawni ei swyddogaeth graidd o gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl'. Mae'r Fframwaith yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd adeiladu enw da sefydliadol a rhyngwladol y Senedd a Chymru yn y dirwedd ryngwladol gynyddol gymhleth a chyfnewidiol.

### Cymru a'r byd ehangach

Ym mis Mai 2022, cynhaliodd y Senedd ei rhaglen fewnol fawr gyntaf ers cyn y pandemig. Croesawodd y Llywydd y Llefarydd Masizole Mnqasela a'i ddirprwyaeth o Senedd Talaith y Western Cape (WCPP), a hynny'n dilyn ei hymweliad hi â'r WCPP yn 2019. Roedd rhaglen gynhwysfawr yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd a chyflwyniadau a oedd yn caniatáu trafodaethau ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys Capasiti Seneddol a Diwygio, a gwaith pwyllgorau'r Senedd. Mae'r berthynas hon yn parhau i ddwyn ffrwyth gyda'r Senedd ar hyn o bryd yn darparu arweiniad a chymorth i'r WCPP wrth iddi ddatblygu ei Senedd Ieuenctid a'i Gwasanaeth Ymchwil.

Ar ymweliad nodedig arall, croesawodd y Senedd ddirprwyaeth, yn cynrychioli dau dŷ Senedd Ffederal Canada. Roedd ei rhaglen yn cynnwys sesiynau gydag Aelodau Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, yn ogystal â chyfle i ddysgu mwy am y Senedd fel senedd ddwyieithog.

### Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ailddechreuwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb a bu i raglenni Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ddychwelyd yn ôl bron i'r arfer. Mae hyn wedi cynnwys cyfranogiad y Senedd mewn cynadleddau ar lefel ranbarthol yn Ynys Manaw a Gibraltar, yn ogystal ag yn rhyngwladol yn Nova Scotia, Canada a'r Caribî. Mae'r Senedd hefyd wedi croesawu dirprwyaethau'n cynrychioli nifer o seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys Awstralia, Canada, Pacistan a St Helena.





### Cymru yn Ewrop

Mae ymgysylltiad y Senedd â strwythurau newydd y DU a'r UE sy'n dod i'r amlwg wedi parhau i esblygu, tra'n dod â ffocws o'r newydd i'r ymgysylltiad hirsefydlog â Chynulliad Seneddol Prydain-Iwerddon.

Ymgysylltodd Aelodau o'r Senedd â Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau rhwng y DU a'r UE a mynychwyd, am y tro cyntaf, Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, corff newydd a sefydlwyd gan y cytundeb ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae'r strwythurau hyn yn darparu cyfleoedd i adnewyddu'r berthynas bresennol â sefydliadau a rhanbarthau'r UE ac yn cefnogi gwaith parhaus y Senedd ar ystyried rôl Cymru yn y berthynas rhwng y DU a'r UE.

Mae'r Senedd hefyd wedi croesawu dirprwyaethau ac ymwelwyr o bob rhan o'r UE, gan gynnwys dirprwyaethau o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, cyn-Lysgennad yr UE i'r DU a Llysgennad newydd yr UE i'r DU, Iwerddon, yr Almaen, Catalwnia, Cyprus, Slofenia a Slofacia.

### Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA)

Mae Aelodau o'r Senedd wedi parhau i ymgysylltu â BIPA drwy gydol y cyfnod hwn, gan gymryd rhan yng ngwaith Pwyllgorau'r Cynulliad ac ymchwiliadau ar Faterion Ewropeaidd, Economaidd ac Amgylcheddol a Chymdeithasol. Mynychodd yr Aelodau Gyfarfod Llawn BIPA yn Cavan, Iwerddon yn ogystal â Chyfarfod Llawn eithriadol cyn nodi 25 mlynedd ers llofnodi Cytundeb Gwener y Groglith.

### Mewn undod â Wcráin

Mae'r Senedd wedi parhau i sefyll mewn undod â phobl Wcráin, mewn dadleuon yn y Cyfarfod Llawn, drwy waith craffu pwyllgorau ac mewn gwaith ymgysylltu rhyngwladol. Mae'r ffocws wedi bod ar sut y gall y Senedd, yr Aelodau a Llywodraeth Cymru gefnogi pobl Wcráin yng Nghymru sydd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi a mynegi cefnogaeth i'r rhai sydd wedi aros. Mynegodd pwyllgorau'r Senedd ar y cyd eu hundod wrth nodi blwyddyn ers y goresgyniad. Mae'r Senedd wedi cefnogi ymgysylltiad yr Aelodau ar y mater hwn drwy ei chyfres o erthyglau ar y goresgyniad. Yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror, cymeradwyodd yr Aelodau wydnwch pobl Wcráin a rhoddodd ddiolch i bobl Cymru am eu hymateb i'r gwrthdaro.

## Busnes y Senedd yn cymryd ffocws rhyngwladol

Mae pwyllgorau'r Senedd wedi parhau i ymgysylltu ar faterion rhyngwladol, gan graffu ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ac ymgysylltu'n uniongyrchol â seneddwyr ledled y DU ac Ewrop ar waith cysylltiadau rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar gytundebau masnach y DU gyda Seland Newydd ac Awstralia, cytundebau anfasnachol megis Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Goresgyn Trais yn Erbyn Menywod a Thrais Domestig a chyflwyno tystiolaeth i ymchwiliadau Senedd y DU ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a chraffu ar gytundebau rhyngwladol.

Mae gwaith a wnaed gan Ymchwil y Senedd i gefnogi Aelodau o'r Senedd a'r pwyllgorau wedi cael cydnabyddiaeth ryngwladol gan sefydliadau fel y Comisiwn Ewropeaidd a chyfeiriwyd at hyn mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Cenhedloedd Unedig gan Grŵp Monitro Confensiwn Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Cymru. Derbyniwyd poster yn nodi dull arloesol y Senedd o graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd i gynhadledd flynyddol Grŵp Astudio'r Senedd ym mis Ionawr 2023.

## Rhannu ein profiad seneddol


Bu swyddogion y Senedd hefyd yn rhannu eu profiadau, eu sgiliau a'u gwybodaeth â seneddau ledled y byd. Mae hyn wedi cynnwys cyfrannu at y canlynol:

- Cynllunio a threialu dangosyddion rhyngwladol Sefydliad Democratiaeth San Steffan ar gyfer gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol;
- Cwrs Sefydliad Astudiaethau Deddfwriaethol Uwch Prifysgol Llundain ar gyfer swyddogion seneddol rhyngwladol ar waith craffu ôl-ddeddfwriaethol sy'n sensitif i rywedd;
- E-gwrs Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar gawcysau seneddol menywod;
- Cefnogaeth i Gynulliad Cenedlaethol Gambia drwy Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad; a'r
- Prosiect INTER PARES i gryfhau gallu seneddau rhyngwladol, drwy secondiad hirdymor.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

## GWEITHGARWCH RHYNGWLADOL



### Ymweliadau â'r Senedd 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

- Llywodraeth Ffederal, Awstralia
- Baluchistan (Pacistan)
- Llywodraeth Ffederal, Canada
- Catalwnia
- Cyprus
- Llysgennad yr UE i'r DU
- Gambia
- Yr Almaen
- Iwerddon
- Japan
- Rwmania
- Slofacia
- Slofenia
- St Helena
- Western Cape (De Affrica)

### Ymweliadau'r Llywydd ag eraill 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

- Canada (Cynhadledd CPA)
- Sefydliadau'r UE, Brwsel, Gwlad Belg
- Fflandrys
- Gibraltar (Cynhadledd Seneddwragedd y CPA)
- Llundain
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- UK
- Iwerddon

## Gwasanaethau dwyieithog

Cafodd Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd ei gymeradwyo a'i fabwysiadu yn y Cyfarfod Llawn ym mis Medi 2022. Ers hynny, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi canolbwyntio ar gyflwyno a gweithredu'r Cynllun, gyda'r nod o gynnal y safonau a'r disgwyliadau uchel a sefydlwyd yn ystod y Bumed Senedd.

Mae fformat y Cynllun yn wahanol i gynlluniau blaenorol. Mewn ymateb i adborth a ddaeth i law dros y blynyddoedd gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau, mae'r fformat wedi'i symleiddio ac mae'r ddogfen bellach yn gliriach, ac yn haws ei defnyddio. At hynny, penderfynwyd cyfuno'r Cynllun gyda'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog er mwyn creu un ddogfen gynhwysfawr sy'n ei gwneud yn haws i randdeiliaid gael gwybodaeth am y gwasanaethau dwyieithog. Gall y rhai sy'n ymwneud â Senedd Cymru bellach weld yn glir yr hyn a ddisgwylir o ran gwasanaethau dwyieithog, a dwyn y Comisiwn i gyfrif drwy gyfeirio at y safonau gwasanaeth clir.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol yn 2021-22, gan ganolbwyntio ar effeithiolrwydd y Tîm Ieithoedd Swyddogol o ran monitro a gweithredu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Cafodd cynnwys yr archwiliad, a'i argymhellion, a'r camau gweithredu a luniwyd gan y Tîm Ieithoedd Swyddogol eu hystyried gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn ym mis Tachwedd 2022. Mae'r broses o weithredu'r argymhellion yn parhau. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Gwella amlygrwydd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r mynediad ato ar y fewnrwyd ac ar y we;
- Adolygu dulliau o fonitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun;
- Ffurfioli'r sicrwydd gan Benaethiaid Gwasanaeth;
- Mesur effeithiolrwydd ac effaith y gwasanaeth dysgu Cymraeg;
- Adolygu effeithiolrwydd y lefelau sgiliau iaith yn dilyn recriwtio;
- Ffurfioli'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd.

Mae capasiti'r Tîm Tiwtora bellach wedi'i sefydlu, ac mae'r tîm wedi gweithio'n galed i ddenu dysgwyr newydd ar draws y sefydliad, ac i ailsefydlu cysylltiadau â chyn-ddysgwyr. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (tudalen 35) yn mapio'r cynnydd yn y niferoedd sy'n derbyn cymorth ar y lefelau amrywiol ar draws y sefydliad. Mae'r niferoedd hynny'n parhau i gynyddu'n raddol. Mae nifer o





ddysgwyr wedi sefyll arholiadau CBAC eleni, sy'n gyfle iddynt dderbyn cydnabyddiaeth am eu hymroddiad a'u gwaith caled.

Mae Comisiwn y Senedd bob amser yn awyddus i rannu arfer da ac i ddysgu gan eraill. Ym mis Gorffennaf 2022, cynhaliwyd Symposiwm Cymdeithas Adrodd Seneddol Prydain-Iwerddon ar ystâd y Senedd. Thema'r Symposiwm oedd ieithoedd, a chynhaliwyd sesiynau ar recordio ieithoedd swyddogol a thafodiaith, ymhlith eraill. Roedd cyfle hefyd i gynrychiolwyr gymryd rhan mewn sesiwn Gymraeg lefel cwrteisi er mwyn iddynt ddeall ychydig am fatrics sgiliau iaith y Comisiwn, yn ogystal â dysgu ambell ymadrodd. Croesawodd y Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd ymwelwyr o Rannóg an Aistriúcháin, Gwasanaeth Cyfieithu'r Oireachtas, sy'n gyfrifol am wasanaethau dwyieithog ar draws y sefydliad hwnnw. Roedd yr ymweliad yn gyfle iddynt ddysgu mwy am waith y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, ac am y ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog ar draws y Senedd.

## Teyrnged i'w Mawrhydi y Frenhines

Ar 8 Medi 2022 cyhoeddwyd bod Ei Mawrhydi y Frenhines wedi marw. Gostyngwyd baneri'r Senedd wrth i'r wlad ddechrau'r cyfnod o alaru cenedlaethol ac, ar 11 Medi, galwyd y Senedd yn ôl i dalu teyrnged i'r Frenhines Elizabeth II ac i gytuno ar y Cynnig o Gydymdeimlad.

Wrth agor y teyrngedau i'r Frenhines Elizabeth II, dywedodd y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS:

> *Fel ym mhob Senedd, mae ein barn yn cynrychioli barn amrywiol y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae ein barn yn amrywio ar lawer iawn o agweddau ar fywyd Cymru. Bydd ein barn yn wahanol o ran sefydliad y frenhiniaeth ei hun, ond ni fydd ein barn yn wahanol iawn ar y ffordd y bu Elizabeth yn gweithredu ei rôl yn ystod ei hoes o wasanaeth cyhoeddus, sut roedd ei doethineb a'i hymroddiad i'r swydd yn cael eu gwerthfawrogi a sut rydym yn galaru yn nhristwch ei cholled ac yn cadw ei theulu yn ein meddyliau. Roedd Elizabeth II yn chwilio am yr hyn oedd yn uno pobl yn hytrach na'r hyn oedd yn creu rhaniad.*
>
> *[...]*
>
> *Ar chwe achlysur yn ystod seremonïau agoriadol ein Senedd dros y 23 mlynedd diwethaf, eisteddodd y Frenhines yma yn ein plith wrth iddi gyflawni ei dyletswydd gyfansoddiadol fel pennaeth y wladwriaeth. Dim ond 11 mis yn ôl yr oedd hi yma ar ei hymweliad olaf â Chymru, yn cadarnhau ein dilysrwydd democrataidd fel un o'i Seneddau. Diolchwn iddi am ei gwasanaeth i Gymru.*

Ar 16 Medi, fel rhan o ddiwrnod o ymrwymiadau Brenhinol yn y Brifddinas, ymwelodd Eu Mawrhydi y Brenin a'r Frenhines Gydweddog â'r Senedd i dderbyn y Cynnig o Gydymdeimlad, a roddwyd gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS:

> *Bod y Senedd hon yn mynegi ei thristwch dwys yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi Y Frenhines ac yn estyn ei chydymdeimlad diffuant i Ei Fawrhydi Y Brenin ac Aelodau eraill o'r Teulu Brenhinol. Rydym yn cydnabod ymrwymiad parhaus Ei Mawrhydi i wasanaeth a dyletswydd cyhoeddus, gan gynnwys y gefnogaeth a roddodd i nifer o elusennau a sefydliadau yng Nghymru, a'i chysylltiad ar hyd ei hoes â Chymru a'i phobl.*





Rhoddodd y Brenin ei ateb, gan siarad yn Gymraeg a Saesneg:

> *Rwyf yn wirioneddol ddiolchgar am yr anerchiadau o gydymdeimlad sy'n talu teyrnged mor deimladwy i'n diweddar sofran, fy annwyl fam, y Frenhines.*
>
> *[...]*
>
> *Ar ôl ymweld â'r Senedd yn rheolaidd ers ei sefydlu, ac ar ôl clywed eich geiriau diffuant heddiw, gwn ein bod i gyd yn rhannu'r ymrwymiad dyfnaf i les pobl y wlad hon ac y byddwn i gyd yn parhau i gydweithio i'r perwyl hwnnw.*

Roedd 14,290 o gyfeiriadau at y Senedd mewn darllediadau, ar-lein neu mewn print, yn ystod y cyfnod ac roedd darllediadau cenedlaethol nodedig yn cynnwys eitem Newsbeat BBC Radio 1 gyda dau Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru ynghylch yr ymweliad Brenhinol. Cafodd y Senedd sylw rhyngwladol hefyd gan ZDF, Al Jazeera, CNN, People a Hola Magazine. Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd 40,000 o ymweliadau unigryw i wefan y Senedd a 310,000 o chwiliadau gwefan. Cyrhaeddodd sianeli cyfryngau cymdeithasol y Senedd 432,000 o bobl, gyda bron i 15,000 o ymgysylltiadau a 26,000 o wyliadau fideo. At hynny, roedd 1,170 o negeseuon cyfryngau cymdeithasol am y Senedd, gan gyrraedd 24.5 miliwn o bobl, gan gynnwys cyfrif swyddogol y Teulu Brenhinol a chyfryngau newyddion rhyngwladol.

Ymwelodd Tywysog Cymru â'r Senedd am y tro cyntaf ar 16 Tachwedd i wella ei ddealltwriaeth o'r dirwedd wleidyddol ddatganoledig a'r materion allweddol y mae pobl yng Nghymru yn eu hwynebu. Croesawodd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, David Rees AS, Ei Uchelder Brenhinol i'r Senedd, lle cyfarfu â chynrychiolwyr Pleidiau Gwleidyddol. Cyfarfu ei Uchelder Brenhinol hefyd ag aelodau Senedd Ieuenctid Cymru i ddysgu am ei rôl yn cynrychioli llais pobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys y gwaith ar iechyd meddwl a'r amgylchedd.





**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Senedd a'i gwaith a'i gwneud yn fwy hygyrch i bobl Cymru



▼ **Dydd Gŵyl Dewi 2023**

Latifa Alnajjar, cyd-sylfaenydd Prosiect Cinio Syria yn Aberystwyth a chyd-grëwr yr arddangosfa Ffoaduriaid rhag Sosialaeth Genedlaethol, a gynhaliwyd yn y Senedd.





## ALLGYMORTH AC YMGYSYLLTU

**Mae cynulleidfa ein cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu 7.4% ar draws pob sianel**

**Gwelwyd cynnydd o 25% yn y gynulleidfa ar LinkedIn eleni, sef y cynnydd cyflymaf o blith ein platfformau**

SENEDD IEUENCTID CYMRU
WELSH YOUTH PARLIAMENT

**Cyfrannodd dros 3,600 o bobl ifanc at waith Pwyllgor Iechyd Meddwl a Lles Senedd Ieuenctid Cymru**

## Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu

Eleni cytunodd y Comisiwn ar Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu newydd. Ei hamcanion yw cynyddu ymwybyddiaeth o rôl y Senedd, gwella dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Senedd yn ei wneud a chynyddu cyfranogiad a chynnwys pobl yng ngwaith y Senedd.

Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn enwedig y rheini sy'n teimlo nad yw eu lleisiau wedi'u clywed yn draddodiadol gan sefydliadau fel y Senedd. Thema gyffredinol y strategaeth yw 'Eich Llais', a'i nod yw sefydlu'r Senedd fel rhywle y gellir clywed lleisiau o bob cefndir a chymuned; sicrhau bod profiadau bywyd pobl yn parhau i fod wrth wraidd gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu'r Senedd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r strategaeth wedi'i rhoi ar waith, gan ymgysylltu â phobl o gymunedau ledled Cymru ar faterion fel tlodi tanwydd, dyled, anghydraddoldebau iechyd meddwl a digartrefedd, i gefnogi gwaith craffu pwyllgorau'r Senedd ar eu hargymhellion i Lywodraeth Cymru a llywio eu hargymhellion iddi.

Mae timau newyddion a chyfryngau cymdeithasol y Comisiwn hefyd wedi dod o hyd i straeon bywyd go iawn i ddangos effaith gwaith y Senedd. Mae hyn wedi helpu i sicrhau sylw helaeth yn y cyfryngau i waith y pwyllgorau ar faterion fel effaith costau byw ar fynediad at chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig a'r argyfwng deintyddiaeth yng Nghymru.

Mae'r strategaeth hefyd yn ymrwymo i barhau i arddangos y Senedd fel canolbwynt bywyd Cymru, yn ffisegol ac yn ddigidol. Yn ystod blwyddyn gyntaf y strategaeth, mae torfeydd wedi heidio i'r Senedd i groesawu pencampwyr y Gymanwlad adref; cynnal sesiwn holi ac ateb unigryw gyda rheolwr tîm pêl-droed dynion Cymru, Rob Page, cyn ymweliad hanesyddol y tîm â thwrnamaint Cwpan y Byd FIFA; croesawu Carnifal Butetown i risiau'r Senedd; a'r arddangosfa fawr gyntaf o'i gwaith celf yng Nghymru gan yr artist Joanna Quinn a enwebwyd am Oscar, ffigwr o bwys ym myd animeiddio sy'n enwog am ei sgiliau lluniadu, cymeriadu a hiwmor unigryw.

Newidiodd y pandemig y ffordd y mae'r Senedd yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Hyd yn oed pan godwyd cyfyngiadau, pan ailagorodd yr ystâd a phan ailddechreuodd teithiau ar y safle, parhawyd i gynnig rhith-deithiau i sicrhau y gellir cyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol. Yn ogystal â chynnig sesiwn ddwyieithog wythnosol ar-lein, mae sesiynau ad hoc wedi'u teilwra i anghenion grwpiau penodol hefyd wedi'u darparu. Mae'r rhain wedi cynnwys Equal Power Equal Voice (EPEV) - partneriaeth rhwng y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod, Stonewall Cymru, Anabledd Cymru, a'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid – a phrosiect Digartrefedd Cymorth Cymru.

Wrth groesawu ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid o bob rhan o Gymru yn ôl, mae ffocws mawr wedi bod ar alinio'r ymweliadau addysgol â'r cwricwlwm newydd a phrofi rhai adnoddau newydd gydag athrawon a dysgwyr o bob oed.

Mae gweithdai allgymorth rhyngweithiol wedi'u cyflwyno ym mhob etholaeth ledled Cymru, gan gynnwys Ysgol Penrhyn Dewi yn Sir Benfro (Cyfnod Allweddol 3); Ysgol Eifion Wyn yn Nwyfor Meirionnydd (Cyfnod Allweddol 2) a Choleg Cambria yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Yn Ysgol Gyfun Harri Tudur ym Mhenfro, bu disgyblion blwyddyn 11 a disgyblion y chweched dosbarth yn cymryd rhan mewn sesiwn yn dysgu sut i bleidleisio, sut i gychwyn deisebau a sut i gymryd rhan yng ngwaith Senedd Ieuenctid Cymru.

Mae tîm y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu'r gynulleidfa cyfryngau cymdeithasol 7.4 y cant ar draws yr holl sianeli yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac maent yn canolbwyntio ymdrechion ar gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, iau. Maent wedi bod yn datblygu eu presenoldeb ar Instagram, gan ddatblygu cynnwys, fel 'Reels', sy'n taro tant gyda chynulleidfa iau. Mae canlyniadau'r ymdrech hon wedi arwain at gynnydd o 22 y cant yn y gynulleidfa, gyda phobl ifanc 18-35 oed yn ffurfio'r gynulleidfa fwyaf. Mae'r tîm hefyd wedi gweld llwyddiant sylweddol gyda LinkedIn, gyda thwf cynulleidfa o 25 y cant.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ceisiwyd cyfleoedd i ddod â chynulleidfaoedd newydd i'r Senedd a'u cynnwys yng ngwaith y Senedd. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r cyfarwyddwr Liana Stewart, nad oedd, er ei bod yn byw yn Butetown, erioed wedi ymweld â'r Senedd o'r blaen, i sgrinio ei rhaglen ddogfen *Black and Welsh*. Mae gwaith hefyd wedi'i wneud gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru i groesawu pobl o'r gymuned ffoaduriaid yng Nghymru i'r Senedd ar gyfer digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi arbennig, i ddangos bod y Senedd yma i unrhyw un sy'n galw Cymru yn gartref, boed hynny yn barhaol neu dros dro.

Mae arddangosfeydd sy'n cynrychioli amrywiaeth o bobl a chymunedau hefyd wedi cael eu harddangos yn y Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys 'This Is Older', arddangosfa gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac Age Cymru sy'n ceisio chwalu stereoteipiau negyddol o bobl hŷn, a 'Trwy Ein Llygaid' sy'n herio canfyddiadau a stereoteipiau drwy amlygu rolau a gweithgareddau gwerthfawr pobl sydd ag anableddau dysgu yn ein cymunedau.

Mae arddangosfeydd newydd sy'n cysylltu'r Pierhead â hanes Tiger Bay a'i gymunedau wedi'u creu mewn partneriaeth â sefydliadau lleol. Bydd yr arddangosfeydd hyn yn helpu i feithrin cysylltiadau â'r gymuned leol a chynulleidfaoedd newydd, gan helpu i gyflawni amcanion y strategaeth.



# SENEDD IEUENCTID CYMRU

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i Senedd Ieuenctid Cymru.

Ym mis Mai 2022, yn Eisteddfod yr Urdd, lansiodd y Pwyllgor Iechyd Meddwl a Lles ei ymgyrch ar 'Meddyliau Iau o Bwys'. Cyfrannodd dros 3,600 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru at waith y Pwyllgor, gan lywio'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr Adroddiad, a oedd yn cwestiynu pam mae mynediad at gymorth iechyd meddwl yn parhau i fod yn broblem mor fawr i bobl ifanc yng Nghymru.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Senedd Ieuenctid llawn yn Siambr y Senedd ym mis Tachwedd am y tro cyntaf wyneb yn wyneb ers Covid, lle cyflwynodd aelodau'r Pwyllgor Iechyd Meddwl a Lles eu canfyddiadau i Gomisiynydd Plant Cymru, y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg.

Yn y cyfarfod hwn, dywedodd Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru:

> *Mae'n anhygoel eich gweld chi yn eistedd yma [yn y Senedd] yn seddi pŵer Cymru, ac rwy'n gobeithio y byddwch chi'n parhau ar eich taith i fod yn gynrychiolwyr Cymru ac yn ddinasyddion gweithredol ym mywyd Cymru.*

Mae Senedd Ieuenctid Cymru hefyd wedi creu dau bwyllgor arall i drafod a chodi ymwybyddiaeth o'u meysydd blaenoriaeth eraill, sef y Pwyllgor Addysg a Chwricwlwm Ysgol a'r Pwyllgor Hinsawdd a'r Amgylchedd.

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a thrafod y materion sy'n bwysig i bobl ifanc yng Nghymru, mae Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru hefyd wedi bod yn cyfrannu at Fusnes y Senedd mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys cymryd rhan mewn grŵp ffocws gyda'r Pwyllgor Cyllid i graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, gan amlygu blaenoriaethau pobl ifanc o ran gwariant.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23



## Ymgysylltu â dinasyddion

Mae mor bwysig bod y cyhoedd yn cael eu cynnwys yn y materion y mae Pwyllgorau'r Senedd yn ymchwilio iddynt. Mae'n sicrhau bod profiadau byw y rhai y mae polisïau a deddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol arnynt wrth wraidd yr argymhellion a wneir i Lywodraeth Cymru. Dyma rai enghreifftiau o ymgysylltiad â dinasyddion a ddigwyddodd eleni:

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl, rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022, hwyluswyd grŵp cynghori ar-lein gyda phobl sydd wedi profi anghydraddoldebau iechyd meddwl ac sydd wedi wynebu rhwystrau o ran cael gafael ar gymorth. Mae adroddiad ar ganfyddiadau grŵp wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr ag adroddiad y Pwyllgor a bu'r grŵp cynghori ar-lein yn treialu ac yn cefnogi'r gwaith o ddylunio deunydd sy'n addas i unigolion niwrowahanol er mwyn sicrhau y byddai'r ddau adroddiad yn cael eu cyhoeddi mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

I gefnogi ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, hwyluswyd rhaglen ymgysylltu ym mis Tachwedd 2022, gan gynnwys ymweliadau â CEF Styal yn Swydd Gaer a CEF Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw. Roedd y rhain yn cynnwys teithiau o amgylch y carchar, grŵp ffocws gyda charcharorion benywaidd o Gymru, cyfarfod â'r Llywodraethwr a thrafodaeth un-i-un â charcharor benywaidd o Gymru. Cynhaliwyd grwpiau ffocws hefyd gyda Fforwm Menywod Revolving Doors a chydag Ymddiriedolaeth Nelson yng Nghaerdydd.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ddyled ac effaith costau byw cynyddol [7] cynhaliwyd grwpiau ffocws drwy gydol mis Chwefror 2023 gyda'r ffocws ar grwpiau sy'n debygol o gael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnydd mewn costau byw. Roedd tri grŵp ffocws wyneb yn wyneb a thri grŵp ffocws ar-lein yn cynnwys 46 o gyfranogwyr gyda ffocws penodol ar bobl ag anableddau, rhieni a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu yn cefnogi'r Pwyllgor wrth iddo ddrafftio ei adroddiad terfynol.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Mae cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddir, gan ddarparu adborth fel a ganlyn:

> *Mae parhad y profiad hwn, o gael fy ngwahodd i gymryd rhan, i gael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i gynnydd gael ei wneud, a chael hysbysiad o gwblhad, wedi creu argraff arna i.*
>
> *[...]*
>
> *Dwi ddim yn defnyddio e-bost, na'r rhyngrwyd a chafodd popeth yr oedd ei angen arna i ei anfon ata i drwy'r post. Dwi erioed wedi cymryd rhan mewn unrhyw beth fel hyn o'r blaen, ond dwi wedi'i fwynhau.*


**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn trafod sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi busnes y Senedd a sut rydym yn sicrhau ein bod yn eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

▼ **Tegeirianau gwenyn y tu allan i'r Senedd**







## DEFNYDDIO ADNODDAU'N GYNALIADWY

**Mae'r defnydd o nwy 19% yn llai**

**38% o ostyngiad mewn carbon cymudwyr o'i gymharu â lefelau cyn 2020**

## DYFARNIADAU AC ACHREDIADAU

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Platinum
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Platinwm

TOP 10 CYFLOGWR GORAU i Deuluoedd sy'n Gweithio 2022

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Healthy Travel Employer

LRQA CERTIFIED ISO 14001 UKAS MANAGEMENT SYSTEMS 0001

## Cynllunio corfforaethol

Drwy gydol 2022-23 mae prosesau a systemau cynllunio corfforaethol y Comisiwn wedi'u datblygu ymhellach i sicrhau bod adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio'n gynaliadwy a bod y Comisiwn yn sicrhau gwerth am arian cyhoeddus.

Datblygiad allweddol yn ystod 2022-23 fu sefydlu'r Uned Cynllunio Strategol. Diben yr Uned yw cefnogi Bwrdd Gweithredol y Comisiwn i wneud penderfyniadau am ei amcanion strategol, gan gynnwys drwy wneud y canlynol:

- Rheoli a chefnogi cylch cynllunio blynyddol a system adrodd;
- Bod yn gyswllt rhwng amcanion strategol y Bwrdd Gweithredol, a phortffolio'r Comisiwn o brosiectau a rhaglenni newid, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd;
- Cefnogi'r Bwrdd Gweithredol i barhau i adeiladu ar Gynllun Cyflawni Corfforaethol cyntaf y Comisiwn, ochr yn ochr â strategaethau eraill a Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig, gan roi trosolwg clir i'r Bwrdd Gweithredol o ran cyflawni;
- Sefydlu ac arwain fframwaith rheoli portffolio a fydd yn gweithio gydag eraill i ddiffinio, ac yna cefnogi, y gwaith o gyflawni portffolio prosiectau newid y Comisiwn;
- Goruchwylio'r berthynas rhwng y rhaglen Ffyrdd o Weithio, rhaglen Diwygio'r Senedd a gweithgarwch mawr arall, gan gynnwys rheoli'r cydberthnasau a'r rhyngddibyniaethau rhyngddynt;
- Sefydlu ac yna sicrhau bod cronfa o adnoddau corfforaethol yn cael ei defnyddio yn y modd gorau posibl ar draws portffolio'r Comisiwn a busnes fel arfer; a
- Mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn gwbl ymwybodol o faterion, cyfleoedd, a gwaith sy'n dod i'r amlwg, ac yn gweithredu ar ei ran i gyflawni blaenoriaethau a chynlluniau rhaglen a phrosiect y cytunwyd arnynt.





Mae datblygiadau eraill yn ystod 2022-23 wedi cynnwys:

- Cyflwyno ac adrodd ar Gynllun Cyflawni Corfforaethol cyntaf y Comisiwn gyda'r Bwrdd Gweithredol yn cael adroddiad ar gynnydd cyflawni ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r Cynllun Cyflawni Corfforaethol yn cael ei ddatblygu ymhellach ar gyfer 2023-24 i gynnwys adborth gan Dîm Arwain y Comisiwn;
- Cyflwyno templed cynllunio gwasanaethau newydd i alinio meysydd gwasanaeth a gweithgarwch ar lefel gorfforaethol yn well. Bwriad y templedi cynllunio gwasanaethau newydd yw galluogi penaethiaid gwasanaeth i nodi'n glir y gwasanaethau y maent yn eu cynnig; a
- Blaenoriaethu a rheoli'r gwaith o gyflawni portffolio'r Comisiwn o brosiectau a mentrau newid yn ystod 2022-23. Yn ystod yr ymarfer hwn, rhoddwyd blaenoriaeth i tua 40 o brosiectau ymgeisiol a oedd ar y gweill i ddatblygu portffolio er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau'r Comisiwn. Bydd y prosiectau hynny yr aseswyd nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol sylweddol ar wasanaethau os na chânt eu cyflawni yn 2022-23 yn cael eu hystyried ar gyfer portffolio 2023-24, y mae'r Uned Cynllunio Strategol yn arwain ar ei ddatblygiad wrth iddi weithio i gyflwyno fframwaith rheoli portffolio.

Gan edrych ymlaen i 2023-24, ac i ddatblygu Strategaeth Rheoli Adnoddau'r Comisiwn, a gymeradwywyd ym mis Medi 2022, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno i ddatblygu Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig. Bydd y Fframwaith hwn yn cynnwys mabwysiadu cyfres o egwyddorion i arwain dyraniadau adnoddau yn y dyfodol a fframwaith cyllidebol treigl tair blynedd (Cynllun Ariannol Tymor Canolig) i sicrhau bod blaenoriaethau, adnoddau a chyflawni wedi'u hanelu at y nodau tymor canolig hefyd o ran targedau'r flwyddyn gyfredol.

## Ffyrdd o weithio

Ym mis Mawrth 2022 cymeradwyodd y Comisiwn y cyfuniad o Strategaeth Ystadau'r Comisiwn, Strategaeth Cynaliadwyedd (Carbon Sero Net) a dau adolygiad a gwblhawyd yn flaenorol (Adolygiadau Dyfodol Ystwyth a Chapasiti) yn strategaeth Ffyrdd o Weithio integredig a sefydlu rhaglen gyflawni gysylltiedig.

Bwriedir i'r strategaeth a'r rhaglen Ffyrdd o Weithio fod yn fframwaith ar gyfer cyflawni ymateb 'cefn swyddfa' y Comisiwn i Ddiwygio'r Senedd ac i osod uchelgais a gweledigaeth y Comisiwn ei hun ar gyfer sut y mae'n cefnogi'r Senedd.

Er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen yn gyflym, sefydlwyd Cynllun Gweithredu Interim gyda strwythurau llywodraethu cysylltiedig a Bwrdd Prosiectau ar y Cyd, ynghyd â thair ffrwd waith gychwynnol:

- Gweithio rhanbarthol – i adolygu ôl troed rhanbarthol presennol y Comisiwn ledled Cymru ac ystyried anghenion yr Aelodau a Busnes y Senedd yn y dyfodol o ran llety a chyfleusterau rhanbarthol a ddarperir gan y Comisiwn;
- Llety Bae Caerdydd – i bennu cwmpas ac yna rheoli'r gwaith o gyflawni unrhyw brosiectau ystadau sydd eu hangen i ymateb i ffyrdd o weithio y Comisiwn yn dilyn y pandemig, i ymateb i'r prosiect Diwygio'r Senedd wrth iddo ddatblygu, ac i ystyried a chynllunio ar gyfer dyfodol Tŷ Hywel y tu hwnt i 2032 pan ddaw'r brydles gyfredol i ben; a
- Strategaeth Ffyrdd o Weithio a chynllunio corfforaethol – i ddrafftio'r strategaeth ei hun a datblygu offer cynllunio corfforaethol newydd a gwell sy'n bodoli eisoes i sicrhau bod adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio'n gynaliadwy ac yn ddoeth mewn cyfnod o bwysau ariannol sylweddol ar draws y sector cyhoeddus ac ar gyfer dinasyddion Cymru.

Mae'r ffrydiau gwaith wedi symud ymlaen neu wedi cyflawni nifer o fentrau arwyddocaol yn ystod 2022-23:

- Gwella cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd swyddfa gogledd Cymru y Comisiwn drwy ei symud i swyddfa ranbarthol fwy modern, gradd uwch a mwy cynaliadwy Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Mae'r symud hwn yn cael ei wneud ar sail achos busnes cadarn a oedd yn archwilio rhestr hir a rhestr fer o opsiynau amgen. Bydd y symud yn sicrhau arbedion arian parod parhaus i'r Comisiwn ac yn darparu gofod sy'n fwy addas ar gyfer ffyrdd o weithio ar ôl y pandemig. Bydd y swyddfa wedi symud erbyn mis Gorffennaf 2023.





- Ailgyflunio rhan o ofod y Comisiwn ei hun yn Nhŷ Hywel i weddu i arferion gwaith hybrid ar ôl y pandemig yn well ac i wneud defnydd mwy effeithlon o ofod. Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu model gweithio hybrid sydd wedi rhoi cyfle i ffurfweddu gofod y Comisiwn yn Nhŷ Hywel i flaenoriaethu a galluogi cydweithio a chyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd hybrid yn well.
- Ymarfer ar y cyd a gynhaliwyd gan y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol i sefydlu gwell dealltwriaeth o anghenion yr Aelodau, i ddarparu sail wybodaeth i lywio rhaglen Ffyrdd o Weithio y Comisiwn ac adolygiad thematig y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar ffyrdd o weithio. Gwahoddwyd pob Aelod i gymryd rhan, gyda dwy ran o dair o'r Aelodau'n cymryd rhan mewn trafodaethau unigol awr o hyd. Y diben oedd deall safbwyntiau a dyheadau presennol yr Aelodau ynghylch sut y maent hwy, a'u staff, yn gweithio ar ôl y pandemig ac, wrth edrych ymlaen at y dyfodol, sut y gallent fod eisiau gweithio yn y tymor canolig a'r tymor hwy (tudalen 56).
- Bwrw ymlaen â pharatoadau ymarferol mewn ymateb i Ddiwygio'r Senedd. Mae'r Comisiwn wedi archwilio opsiynau a chynlluniau amlinellol ar gyfer Senedd sy'n cynnwys 96 o Aelodau ar ôl i'r Senedd gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ddeall unrhyw addasiadau sydd eu hangen i'r Siambr bresennol yn adeilad y Senedd ac anghenion swyddfa 96 o Aelodau yn Nhŷ Hywel.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd gweithgarwch Ffyrdd o Weithio yn symud yn llawnach i gyfnod strategol y rhaglen – gan ganolbwyntio ar y penderfyniadau a'r polisïau tymor canolig i hirdymor a ddylai gefnogi anghenion a gofynion adnoddau a seilwaith y Senedd a'r Comisiwn dros y blynyddoedd i ddod.






## Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-2023 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y gwaith sydd wedi digwydd yn y maes hwn. Ategir hyn gan adroddiadau cysylltiedig ar gyfer data amrywiaeth y gweithlu a recriwtio, archwiliad cyflog cyfartal, data am y bwlch cyflog o ran ethnigrwydd, rhywedd ac anabledd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael drwy'r wefan[8].

Mae rhai o'r uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

### Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Chweched Senedd

Mae'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Chweched Senedd[9] yn nodi ymrwymiad y Comisiwn i amrywiaeth a chynhwysiant ac yn amlinellu'r amcanion a ganlyn ar gyfer gweddill tymor y Senedd:

- Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau bob dydd a'n gwaith cynllunio strategol
- Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd
- Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio
- Senedd hygyrch, gynhwysol i bobl Cymru

Fel rhan o'r strategaeth hon, mae meysydd gwasanaeth a thimau ar draws y Comisiwn yn gyfrifol am ystyried amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar eu gwaith. Mae'r Senedd yn parhau i ymdrechu i fod yn lle croesawgar i weithio, i ymweld â hi, ac i gynrychioli pawb yng Nghymru.

[8] https://senedd.cymru/comisiwn/cyhoeddiadau-comisiwn-y-senedd/adroddiadau-blynyddol-a-chyfrifon/?lid=2850
[9] https://senedd.cymru/comisiwn/gweithio-i-gomisiwn-y-senedd/amrywiaeth-a-chynhwysiant-yn-y-comisiwn/ein-strategaeth/

### YMLAEN – Interniaeth i Raddedig o Gefndir Lleiafrifoedd Ethnig

Eleni, gan weithio mewn partneriaeth â Chymrodoriaeth Windsor, mae'r Comisiwn wedi croesawu pedwar intern gyda'r bwriad o roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau iddynt sicrhau rolau rheoli yn y sector cyhoeddus.

Mae'r interniaid yn ymgymryd â hyfforddiant helaeth i ddatblygu sgiliau arwain a sgiliau technegol sydd wedi'u cynllunio â'r gobaith o roi'r cyfle gorau posibl iddynt sicrhau cyflogaeth mewn meysydd arbenigol ar lefel rheolwr canol neu uwch.

Mae'r Comisiwn wedi lansio ail Raglen YMLAEN yn llwyddiannus, gan ddilyn yr un broses a chyda'r un amcanion rhaglen, a bydd y garfan nesaf yn dechrau ar eu hinterniaeth ym mis Medi 2023.

▼ **Interniaid YMLAEN yn cyfarfod â Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd**







### Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle

Mae'r Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle yn helpu'r Comisiwn i gyflawni diwylliant gwaith cynhwysol sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth y rhai sy'n gweithio ar yr ystâd a lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r rhwydweithiau wedi gwneud amrywiaeth o waith i helpu cynhwysiant pellach, gan gynnwys:

- hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd ymwybyddiaeth, gan gynnwys Wythnos Genedlaethol Bywyd a Gwaith, Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, chwifio baner 'Progress Pride' yn ystod mis Chwefror ar gyfer Mis Hanes LHDTC+, a Mis Hanes Pobl Dduon;
- gweithio gyda'r tîm dysgu a datblygu i ddarparu hyfforddiant wedi'i deilwra i staff, megis iechyd meddwl ar gyfer rheolwyr llinell;
- gweithio gyda rhwydweithiau gwasanaeth sifil eraill i gynnal digwyddiadau ar gyfer aelodau'r rhwydwaith;
- cyfrannu at ystod o asesiadau effaith cydraddoldeb; ac
- ysgrifennu erthyglau i hyrwyddo'r Comisiwn fel gweithle cynhwysol.

## Mis Cynhwysiant

Ym mis Medi 2022, ymunodd y Comisiwn â chydweithwyr seneddol ledled y DU i gynnig cyfres rithwir o gyflwyniadau, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu i ddathlu cynhwysiant, gan gynnwys sesiynau ar ddementia, ymwybyddiaeth ddiwylliannol, niwroamrywiaeth, y menopos, cynhwysiant traws, gofalu, ac ymwybyddiaeth weledol.

## Cefnogi iechyd a llesiant

Yn seiliedig ar y themâu allweddol a nodwyd fel rhan o'r arolygon pwls llesiant rheolaidd ar gyfer staff y Comisiwn, mae'r Tîm Arwain wedi creu cynlluniau gweithredu llesiant ar gyfer pob maes gwasanaeth sy'n nodi'r camau allweddol y byddant yn eu cymryd i gefnogi llesiant o fewn eu timau.

## Recriwtio cynhwysol

Mae'r Tîm Recriwtio wedi parhau i wneud y canlynol:

- Monitro prosesau recriwtio a gwella cynlluniau asesu, creu strategaethau hysbysebu pwrpasol ar gyfer ymgyrchoedd, gwella amrywiaeth paneli a dyluniad disgrifiadau swydd a phecynnau ymgeiswyr, a'r cyfan er mwyn denu'r ystod ehangaf o dalent;
- Adolygu'r canllawiau i ymgeiswyr er mwyn rhoi eglurder ar y prosesau presennol a rhoi sicrwydd i ymgeiswyr a allai fod yn anabl ynghylch yr addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud drwy gydol y broses recriwtio;
- Adolygu a, lle bo'n briodol, gweithredu ar adborth gan ymgeiswyr a rheolwyr penodi; a
- Partneru'n strategol ag asiantaeth chwilio weithredol i amrywio'r doniau a'r paneli ar gyfer uwch-benodiadau'r Comisiwn, penodiadau cyhoeddus a phenodiadau'r Goron.









# Cynaliadwyedd

Yn ystod y pandemig, yn ôl y disgwyl, gostyngodd ein heffaith amgylcheddol. Rydym wedi defnyddio’r cyfle hwnnw, a’r ffaith ei fod yn tynnu sylw at aneffeithlonrwydd yn ein hystâd, er ein budd. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i sut rydym yn defnyddio’r ystâd ac mae’r data yn dangos bod y newidiadau hynny’n dechrau talu ar eu canfed.

Mae ein hadeiladau’n cael eu defnyddio eto yn helaeth, gyda chyfraddau deiliadaeth i fyny ar ddiwrnodau busnes a’n ffyrdd newydd o weithio yn dod yn fwy sefydledig. Gyda chyfleusterau hybrid a’r gallu i weithio o bell, er ein bod yn gweld Aelodau’n dod i’r Senedd ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor, a staff yn parhau i gefnogi’r rhain, mae presenoldeb yn parhau i fod yn isel y tu allan i’r gweithgareddau busnes craidd hyn. Felly rydym wedi bod yn gwneud newidiadau i'n hadeiladau er mwyn helpu ein defnydd o ynni i adlewyrchu'n well pan mae pobl yn yr adeilad.

Mae'r rhaglen Ffyrdd o Weithio yn dwyn ynghyd strategaethau ystâd, pobl a chynaliadwyedd y Comisiwn, a'i gynllun dyfodol ystwyth. Rydym wedi gosod ardaloedd gweithio hyblyg ar draws yr ystâd a mwy o gyfleusterau cyfarfod hybrid. Mae'r newidiadau hyn wedi creu arbedion effeithlonrwydd ynni a hefyd wedi creu buddion lles ymhlith ein staff. Mae annog pobl i eistedd gyda'i gilydd ar adegau o ddeiliadaeth isel ar yr ystâd, pan fydd gwres yn cael ei ddiffodd mewn mannau eraill, wedi golygu bod staff yn teimlo'n llai unig ar adegau tawelach. Mae hefyd yn golygu bod staff nad ydynt bob amser yn dod i gysylltiad â’i gilydd yn eu rolau dyddiol yn eistedd wrth ymyl ei gilydd ar adegau penodol o’r wythnos.

Mae ein gwaith yn parhau o dan faner system reoli wedi'i hardystio'n amgylcheddol sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS yn ôl gofynion ISO14001. Mae’r crynodeb a ganlyn yn dangos uchafbwyntiau a data ystadegol, ond cyhoeddir rhagor o wybodaeth yn y prif Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd, sydd ar gael ar ein gwefan.

## Carbon

Mae’r hyn rydym yn ei gynnwys o fewn cwmpas ein hôl troed carbon yn newid, er mwyn adlewyrchu’n well yr effeithiau o’n gweithrediad cyfan, yn ogystal â’r agweddau tuag at adrodd ar garbon, yn enwedig ar draws y sector cyhoeddus.

Yn y cyhoeddiad Hwyl Fawr i Garbon, ein strategaeth garbon niwtral, roeddem yn cyfrifo’r effeithiau o Gwmpas 1 (nwy yn bennaf), Cwmpas 2 (trydan) a rhai o’n hallyriadau Cwmpas 3 – teithio busnes yn bennaf. Fodd bynnag, yn y naratif gwnaethom ddweud ein bod yn disgwyl i'r ffordd y cyfrifwyd olion traed newid yn ystod oes y strategaeth. Mae’r newid hwnnw bellach wedi digwydd ac rydym wedi bod yn gweithio ar ehangu ein diffiniadau i sicrhau bod ein holl allyriadau Cwmpas 3 yn cael eu dal.

Rydym yn bwriadu mabwysiadu methodoleg Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo allyriadau Cwmpas 3. Mae hyn yn cynnwys effaith gweithio gartref, yn ogystal â'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir gennym. Er ei fod yn seiliedig ar wariant yn unig i ddechrau, hyd nes y bydd gwybodaeth fanylach gan gyflenwyr ar gael, bydd i bob pwrpas yn dyblu ein hôl troed carbon - gan ychwanegu tua 900 tunnell ato. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi man cychwyn clir inni ac mae'n rhywbeth yr ydym yn awyddus i fwrw ymlaen ag ef.

Mae ein hôl troed carbon craidd i lawr eleni (Cwmpasau 1, 2 ac agwedd teithio busnes Cwmpas 3). Gwelsom leihad iach ym mlwyddyn gyntaf y pandemig, yna cynnydd bychan wrth i ddefnydd o’r ystâd gynyddu rhywfaint a theithio ddod yn fwy cyffredin, ond eleni mae wedi gostwng eto. Mae hyn yn bennaf oherwydd ein hymdrechion i leihau’r galw am ynni, yn enwedig gwresogi drwy’r gaeaf. Rydym hefyd wedi elwa o ffactor trosi trydan is yn y DU, yn sgil sicrhau bod y grid yn fwy gwyrdd. D.S. mae'r holl drydan a brynir gennym yn dod o dariff adnewyddadwy 100 y cant, ond rydym yn parhau i ddefnyddio'r ffactor trosi grid DU hwn ar gyfer adrodd.





## Ynni

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi gostwng y pwynt gosod gwresogi ar draws yr ystâd ac wedi defnyddio pympiau gwresogi parth newydd a osodwyd gennym i sicrhau bod ein prif swyddfa yn ymateb yn well i batrymau gwaith newydd. Er enghraifft, ar ddiwrnodau penodol rydym wedi lleihau'r ddarpariaeth wresogi mewn rhai ardaloedd ac wedi annog staff i ddefnyddio ein gofod gweithio hyblyg, gan ganiatáu inni wneud arbedion o ran defnyddio gwresogi. Bu gostyngiad o 19 y cant yn y defnydd o nwy am y flwyddyn gyfan, gan ddangos effaith y mesurau arbed hyn; mesurau rydym yn gobeithio parhau â hwy yn y blynyddoedd i ddod.

Oherwydd y defnydd cynyddol o’r ystâd, a haf poethach nag yn 2021, mae ein defnydd o drydan wedi codi 5 y cant. Rydym wedi gosod offer ynni-effeithlon newydd yn lle hen offer, gan gynnwys parhau i gyflwyno goleuadau LED ledled ein hadeiladau, rhywbeth rydym yn gobeithio gallu dangos yr arbedion ohono yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Y llynedd buom yn trafod rhai arbedion effeithlonrwydd sy’n gysylltiedig â newidiadau i’n system rheoli adeilad (BMS) – mae’r mesurau effeithlonrwydd hyn yn cynnwys pethau fel lleihau’r oriau ar y clociau amser ac adolygu’r ddarpariaeth dŵr poeth a mesurau cadw tŷ da eraill. Bydd yr arbedion bach hyn wedi helpu i leihau'r defnydd o nwy a thrydan. Rydym wedi parhau â'r gwaith hwn, gan gynnwys defnyddio ein contractwr Cyfleusterau i gynnal archwiliad ynni technegol inni, yr awgrymiadau gwella yr ydym newydd ddechrau gweithio arnynt ac unwaith eto rydym yn gobeithio adrodd arnynt y flwyddyn nesaf.

## Gwastraff, dŵr ac adnoddau eraill

Mae gwastraff wedi cynyddu eto eleni, ond nid i'r lefelau cyn y pandemig. Mae cynnydd cyson o tua 10 tunnell y flwyddyn yn dilyn y gostyngiad ym mlwyddyn gyntaf y pandemig wedi golygu ein bod yn cynhyrchu tua dwy ran o dair o’r gwastraff a gynhyrchwyd gennym yn 2019-20. Mae ein holl wastraff yn parhau i gael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi - gan fynd i fannau ailgylchu neu adfer ynni, yn ogystal â gwastraff bwyd yn cael ei gompostio yn y cyfleuster treulio anaerobig gerllaw.

Mae'r defnydd o ddŵr wedi cynyddu eleni, mewn ymateb i ddefnydd cynyddol o'r ystâd - gan staff ac ymwelwyr. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig ac mae'r cyfeintiau o ddŵr glaw wedi'i ailgylchu rydym yn parhau i'w ddefnyddio yn uchel iawn. Eleni rydym wedi uwchraddio'r cyfleusterau ystafell ymolchi yn y Pierhead, fel rhan o'u cylch bywyd. Mae'r rhain bellach yn cynnwys

goleuadau LED newydd a gosodiadau awtomatig a fydd yn arbed trydan a dŵr. Digwyddodd y prosiect adnewyddu hwn tua diwedd y flwyddyn ariannol ac felly byddwn yn disgwyl adrodd ar arbedion dros y cyfnod o 12 mis sydd i ddod.

Rydym yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu a'n cyfleustodau drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a gydlynir yn ganolog. Mae staff cynaliadwyedd yn ymwneud â datblygu manylebau ac adolygiadau tendro ar gyfer pob contract mawr; sicrhau bod safonau fel Masnach Deg a'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) yn cael eu pennu lle y bo'n berthnasol. Rydym hefyd wedi bod yn parhau i ofyn i gyflenwyr newydd gyfrifo ôl troed carbon nwyddau lle bo modd, er mwyn ein helpu i gyfrifo ein hôl troed ein hunain yn fwy cywir.

## Teithio

Er bod blwyddyn gyntaf y pandemig wedi gweld gostyngiad o 90 y cant mewn teithio, a gostyngiad o 75 y cant y llynedd, eleni gwnaethom gynyddu i tua 50 y cant o'r hawliadau milltiroedd yr oeddem yn eu gweld cyn 2020. Er bod digwyddiadau rhithwir a chyfarfodydd ar-lein wedi parhau ar raddfa eang, mae mwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb yn digwydd.

Rydym yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o gyfarfodydd rhithwir a hybrid ac erbyn hyn mae gan ein hystâd gyfleusterau cyfarfodydd hybrid helaeth ac mae'r Aelodau'n parhau i ymuno â phwyllgorau a sesiynau Cyfarfod Llawn o bell.

Mae ein gwaith ar deithio llesol a chynaliadwy wedi parhau a gosodwyd mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar ein hystâd yn gynnar yn 2022 a byddwn yn parhau i fonitro eu defnydd. Mae'r holl staff a'r Aelodau yn parhau i dalu am drydan a ddefnyddir i wefru eu cerbydau.

Hanner ffordd drwy'r flwyddyn gwnaethom hefyd godi'r cyfyngiad ar ein cynllun beicio i'r gwaith sy'n caniatáu ar gyfer defnyddio beiciau trydan. Mae e-feiciau wedi dod yn fwy poblogaidd wrth i'r dechnoleg wella a phrisiau ddod yn fwy fforddiadwy. Maent bellach yn ddewis arall ymarferol i geir i staff sy'n byw o fewn 10-15 milltir i'n hystâd ac yn cymudo i'r gwaith.

Yn ein strategaeth Hwyl Fawr i Garbon, gwnaethom ymrwymo i helpu'r Aelodau a'r staff i gael mynediad at y cynlluniau aberthu cyflog sydd hefyd ar gael ar gyfer prydlesu cerbydau trydan. Mae'r cyfraddau buddion mewn nwyddau isel sydd bellach ar gael ar gyfer cerbydau trydan yn gwneud cynlluniau o'r fath yn ddeniadol yn ariannol. Lansiwyd y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon ac adroddir arno yn adroddiad y flwyddyn nesaf.





Un elfen allweddol o adran deithio ein hôl troed carbon yw effaith cymudo. Gwnaethom gynnal ein harolwg teithio bob dwy flynedd eto eleni a, diolch i gefnogaeth gan y rhai a'i cwblhaodd, mae gennym ddarlun cyfoes newydd o deithio i'n hystâd ac oddi yno, a'r carbon cysylltiedig. Mae mwy o staff yn cymudo'n ddi-garbon sydd, ynghyd â defnydd aml o gyfleusterau gweithio hybrid a'r gallu i weithio'n fwy hyblyg, wedi golygu bod yr ôl troed ar gyfer cymudo wedi gostwng yn sylweddol. Er bod ein cymudwyr cyffredin wedi cynhyrchu 0.81 tunnell o garbon cyn y pandemig, mae hyn bellach i lawr i 0.51, gan arbed 300 tunnell o garbon yn gyffredinol - gostyngiad o 38 y cant.

## Bioamrywiaeth

Mae ein cefnogaeth i fioamrywiaeth wedi parhau. Rydym wedi parhau i gynnal a chadw'r gerddi yn Nhŷ Hywel a'r ddau bwll bach sydd ynddynt, ac eleni rydym wedi ychwanegu ychydig mwy o goed a llwyni blodeuol i gynnal peillwyr ym Mae Caerdydd. Mae ein rheolaeth o'r llain o dir sydd gyfochr â'r Senedd hefyd yn talu ar ei ganfed yn yr amrywiaeth o fflora sy'n dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan gynnwys cwpl o rywogaethau o degeirianau, a'r pryfed sy'n dod i fwydo arnynt a dod o hyd i gartref yn y rhan hon o laswelltau hir a blodau gwyllt.

Rydym hefyd wedi ychwanegu at ein hardal Gwesty Trychfilod ac mae ein gwenyn mêl - Gwenyn y Pierhead - wedi gwneud yn dda drwy gydol y pandemig ac yn parhau i gynhyrchu swm solet o fêl.

## Effeithiau eraill

Er nad yw ein hadeiladau ym Mae Caerdydd a swyddfa fach yng ngogledd Cymru yn cael eu hystyried mewn perygl uniongyrchol o effeithiau newid hinsawdd, mae ein Strategaeth Carbon Niwtral yn cynnwys mesurau fel systemau solar ffotofoltäig sy'n darparu amddiffyniad pellach rhag dyfodol ansicr.

Mae ein hystâd mewn lleoliad trefol, ac nid yw ein gweithgareddau i'w chynnal yn effeithio'n uniongyrchol ar ardaloedd gwledig. Un effaith fach, gadarnhaol y gellid ei dehongli fel un sy'n effeithio ar fywyd gwledig yw ein bod yn prynu cymaint o'r cyflenwadau bwyd ar gyfer ein gwasanaeth arlwyo o Gymru ac yn annog y defnydd o gynnyrch gan gyflenwyr bach a chanolig eu maint. Mae ein cyflenwyr arlwyo newydd yn rhannu ein hangerdd dros gyrchu bwyd lleol ac wedi cael targed i gyrchu 85 y cant o'r bwyd a'r cynnyrch y maent yn ei roi ar ein bwydlenni gan gyflenwyr a chynhyrchwyr Cymreig.

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr [10] [11] [12] | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e)** | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 1 | 239 | 236 | 234 | 252 | 211 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 2 | 732 | 643 | 438 | 465 | 457 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth - cwmpas 3 | 316 | 272 | 93 | 124 [13] | 192 |
| | Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpas | 7.4 | 6.0 | 4.8 | 4.3 | 4.1 |
| | Cyfanswm yr allyriadau crynswth | 1,304 | 1,156 | 752 | 858 | 836 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net | 1,296 | 1,150 | 748 | 849 | 827 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Dangosyddion Ariannol (£)** | Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |

[10] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

[11] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.

[12] Eithriwyd teithio Aelodau o'r Senedd a'r Staff Cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

[13] Eithriwyd teithio Aelodau o'r Senedd a'r Staff Cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.





| Y Defnydd o Ynni [14] [15] | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (kwh)** | Trydan (tariff adnewyddadwy o 2018) | 2,647,115 | 2,596,810 | 1,944,436 | 2,179,254 | 2,013,490 |
| | Nwy | 1,314,772 | 1,289,334 | 1,282,969 | 1,352,857 | 949,312 |
| | Biomas (adnewyddadwy) | 492,420 | 404,690 | 285,215 | 275,885 | 391,500 |
| | Galw am wres cyfun | 1,807,192 | 1,694,024 | 1,568,184 | 1,628,742 | 1,200,812 |
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e)** | Cyfanswm yr allyriadau ynni | 1,066 | 962 | 734 | 800 | 647 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Cyfanswm y gwariant ar ynni | 467,404 | 521,093 | 406,650 | 424,857 | 437,974 |

[14] Mae'n cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle ers 2010 tan iddi ddod i ben ym mis Mehefin 2018.
[15] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon i'r tanc lle bo hynny'n berthnasol.

| Gwastraff | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli)** | Cyfanswm y gwastraff | 128 | 103 | 59 | 50 | 63 |
| | Ailgylchu / Adfer | 124 | 104 | 59 | 49 | 63 |
| | Adfer Ynni | 4.07 | 43.0 | 41.0 | 23 | 27 |
| | Tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 17.0 | 17.5 | 2.4 | 1.9 | 6.1 |
| | Gwastraff peryglus | 0.3 | 0.2 | 0.02 | 0.14 | 0.37 |
| | Papur a brynwyd (cyfateb i filiwn o dudalennau A4) | 2.73 | 2.33 | 0.86 | 0.65 | 1.97 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar waredu gwastraff | 39,749 | 27,025 | 5,445 | 15,206 | 15,460 |





| Y defnydd o ddŵr | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3)** | Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol) | 6,064 | 6,281 | 1,642 | 2,326 | 3,799 |
| | Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol) | 542 | 515 | 141 | 231 | 469 |
| | Tynnu dŵr (anuniongyrchol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar gyflenwad a charthffosiaeth | 12,189 | 18,065 | 10,499 | 11,387 | 14,545 |

| Teithio swyddogol [16] [17] | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd)** | Teithio ar gyfer busnes | 732,235 | 754,431 | 70,112 | 184,005 [18] | 405,645 |
| | Cerbydau y mae'r Senedd yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi | 16,705 | 13,003 | 913 | 4,153 | 5,138 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol | 301,200 | 300,920 | 31,999 | 84,272 [19] | 161,991 |

[16] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i'r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.
[17] Eithriwyd teithio Aelodau o'r Senedd a'r Staff Cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.
[18] Eithriwyd teithio Aelodau o'r Senedd a'r Staff Cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.
[19] Eithriwyd teithio Aelodau o'r Senedd a'r Staff Cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu..

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Rydym hefyd yn defnyddio ffactorau trosi DEFRA ar gyfer 2022 ar gyfer ffigurau cyfwerth carbon deuocsid (CO2e). Mae $CO_2$e yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol. Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i'r ystâd weinyddol graidd yn unig.

Mae crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol ar gael yn Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd y Senedd, sydd ar gael ar ein gwefan.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 26 Mehefin 2023**



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

# Atebolrwydd

**Cloc y Pierhead**

Cip y tu ôl i'r llenni ar gloc eiconig y Pierhead



# Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr a'r Clerc a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a'r drefn archwilio.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr i'w chael ar dudalennau 14-15.

### Cynghorwyr Annibynnol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau Pwyllgorau Annibynnol i'w chael ar dudalennau 16-18.

### Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chlerc a'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn i'w chael ar dudalennau 20-21.

### Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn www.senedd.cymru a www.senedd.wales.

### Digwyddiadau yn ymwneud â data personol

Nid oedd unrhyw achosion o drafferthion yn ymwneud â data personol a cholli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Roedd 11 achos o dorri rheolau data personol wedi'u hadrodd yn fewnol, a oedd yn destun ymchwiliad ac a gafodd eu rheoli'n fewnol. Barnwyd fod y tebygolrwydd o niwed neu ofid i destun y data ym mhob achos yn isel, felly nid oedd angen cymryd camau pellach.





### Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Staff

Gellir gweld gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r Comisiwn yn ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant ac ymgysylltu â staff yn yr Adroddiad Taliadau (tudalen 139 hyd 157).

### Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn y Senedd. Mae'r Adroddiad Archwilio i'w chael ar dudalen 164. Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £68,985 (2021-22, £59,987). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2022-23 (2021-22, dim).

### Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### Y Cyfarwyddyd o ran Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalennau 158 a 178 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Senedd a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Senedd: www.senedd.wales a www.senedd.cymru.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 26 Mehefin 2023**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

## Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, drwy rinwedd Adran 138 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Fawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.  Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn ac alldro ei adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.





Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn Memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 26 Mehefin 2023**

# Datganiad Llywodraethu

Mae’r Datganiad hwn, sydd wedi’i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Comisiwn, sut y caiff ei lywodraethu a’i reoli, a sut y mae’n atebol am yr hyn y mae’n ei wneud. Mae'n amlinellu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Comisiwn o ran cyflawni ei nodau strategol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

## Y fframwaith llywodraethu

O dan delerau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, dirprwyir swyddogaethau’r Comisiwn, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i’r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn amodol ar rai eithriadau ac amodau. Mae’r ddirprwyaeth hon yn cynnwys y trefniadau llywodraethu i alluogi’r Comisiwn i weithredu’n effeithiol er mwyn cyflawni ei nodau a blaenoriaethau strategol.

Mae’r fframwaith llywodraethu’n cynnwys y strwythurau, systemau, prosesau, a’r diwylliant a’r gwerthoedd, sy’n cyfarwyddo a rheoli’r Comisiwn. Mae’n diffinio perthnasoedd, atebolrwydd, a chyfrifoldebau ymhlith y rhai sy’n gweithio yn y sefydliad a gydag ef, yn penderfynu ar y rheolau a’r gweithdrefnau a ddefnyddir i bennu nodau, blaenoriaethau ac amcanion y Comisiwn, ac yn darparu’r dull o gyflawni’r amcanion hynny ac o fonitro perfformiad. Mae’r fframwaith yn ymdrin â meysydd fel: egwyddorion llywodraethu, cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; rheolau a gweithdrefnau caffael; rheolaeth ariannol; archwilio; a sicrwydd. Mae gennym bolisïau a chodau ymddygiad corfforaethol sy’n sicrhau bod pawb sy’n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda’r sefydliad, yn ymwybodol o’r angen i weithredu’n unol â’r safonau llywodraethu uchaf. Mae hyn yn cynnwys polisïau ar urddas a pharch, twyll, llygredd a llwgrwobrwyo, a chwythu'r chwiban.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu set o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol[20] sy'n cyd-fynd â’r egwyddorion a amlinellir yng nghodau ymarfer Trysorlys EF a'r Cyngor Adrodd Ariannol a'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus. Mae egwyddorion arweinyddiaeth, effeithiolrwydd, atebolrwydd a chynaliadwyedd yn ganolog i’n dulliau gweithredu, fel y dangosir drwy gydol y datganiad hwn. Mae adran *Sicrwydd* y datganiad hwn (tudalen 131) yn disgrifio sut y casglwyd tystiolaeth o'r gydymffurfiaeth hon, ac effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu, drwy Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn, sy'n cynnwys datganiadau sicrwydd gan uwch reolwyr.

## Strwythur llywodraethu

### Y Comisiwn

Y Comisiwn yw'r corff corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn i’r Senedd weithredu’n effeithiol. Mae’n cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Comisiynydd. Mae rhagor o wybodaeth am y Llywydd a’r Comisiynwyr wedi'i chynnwys yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon (yr Adroddiad Blynyddol) (tudalen 14-15).

Prif Swyddog Cyfrifyddu’r Comisiwn yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, sy’n atebol i’r Comisiynwyr am gyflawni ei nodau strategol a blaenoriaethau, ac mae’n atebol yn bersonol i’r Senedd am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yn y Comisiwn, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae’n gwarchod ei asedau. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Senedd.

### Pwyllgorau'r Comisiwn

Fel rhan o’r fframwaith llywodraethu, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Taliadau. Mae manylion am eu haelodaeth ar gael yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 16-18). Mae’r rhain yn gyrff cynghori annibynnol heb unrhyw bwerau gweithredol ac sy’n llunio eu Hadroddiadau Blynyddol eu hunain.

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'n bodloni anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n canolbwyntio ar: adroddiadau archwilio mewnol ac

[20] https://senedd.cymru/comisiwn/egwyddorion-llywodraethu-a-darpariaethau-ategol/

allanol, gan gynnwys rhoi argymhellion ar waith; Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; adroddiadau ar reoli risg, rheolaeth ariannol a phrosiectau mawr; a threfniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol. Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor drwy gydol y datganiad hwn ac ar ei dudalennau ar y rhyngrwyd[21].

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn gwneud argymhellion ar faterion ynghylch taliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr a'r Clerc a swyddi uwch eraill. Mae hyn yn cynorthwyo'r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau tâl yn bodloni'r safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn, newidiodd aelodaeth y ddau Bwyllgor hyn wrth i ni benodi tri Chynghorydd Annibynnol newydd i gymryd lle'r rhai yr oedd eu contractau wedi dod i ben. Ceir manylion y newidiadau hyn yn eu Hadroddiadau Blynyddol priodol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi aros yr un fath.

### Arall

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol hefyd sydd â swyddogaethau statudol i bennu'r cyflogau a'r cymorth ariannol arall sydd ar gael i'r Aelodau. Mae'r Bwrdd Annibynnol hwn yn llunio ac yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ei hun. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 56). Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi cymorth gweinyddol o'r fath i'r Bwrdd fel y mae angen rhesymol amdano er mwyn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau. Ers mis Gorffennaf 2022, mae'r cymorth uniongyrchol sydd ar gael i'r Bwrdd bellach wedi'i glustnodi o fewn cyllideb y Comisiwn, ac mae prosesau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith i alluogi'r Bwrdd Gweithredol a'r Comisiwn i gael sicrwydd bod anghenion adnoddau'r Bwrdd yn rhesymol.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir nodau, blaenoriaethau, ac amcanion strategol y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Mae'r ddirprwyaeth ffurfiol[22] yn amlinellu eithriadau a meysydd y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn arnynt. Mae hefyd system o awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid

[21] https://senedd.cymru/comisiwn/pwyllgor-archwilio-a-sicrwydd-risg-comisiwn-y-senedd/
[22] https://senedd.cymru/comisiwn/dirprwyo-swyddogaethau-comisiwn-y-senedd/



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Gwasanaeth sy'n cwmpasu cyllid, staffio a chyfrifoldebau adnoddau eraill, megis caffael.

Mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu'n dair cyfarwyddiaeth: Busnes; Adnoddau; a Chyfathrebu ac Ymgysylltu, ac mae eu Cyfarwyddwyr yn atebol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r cyfarwyddiaethau wedi'u hisrannu yn feysydd gwasanaeth, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y strwythur llywodraethu, gan gynnwys siart strwythur, yn adran Trefniadau Rheoli'r Comisiwn yn yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 22).

Ym mis Mawrth 2023, yn dilyn cystadleuaeth agored gadarn, penodwyd Prif Swyddog Cyllid newydd yn lle'r Cyfarwyddwr Cyllid blaenorol a adawodd y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2022. Gwnaed trefniadau i sicrhau trosglwyddiad esmwyth.

Bwrdd Gweithredol y Comisiwn, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr a'r Clerc, yw'r corff penderfynu strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Cefnogir hyn gan y Tîm Arwain, sy'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a'r holl Benaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arwain yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 23).

## Pontio i ffyrdd newydd o weithio

Yn ystod y flwyddyn, mae gweithio hybrid wedi'i wreiddio ymhellach yn ein ffyrdd o weithio o ran busnes swyddogol y Senedd ac ar gyfer staff y Comisiwn. Canolbwyntiwyd ar gydbwyso anghenion y busnes a llesiant staff ac rydym wedi parhau i fonitro hynny drwy, er enghraifft, arolygon rheolaidd.

Rydym hefyd yn adolygu ein trefniadau parhad busnes yn sgil y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig a'r gwahanol ffyrdd o weithio.

Ymdrinnir â manylion sut rydym yn cynllunio ar gyfer ffyrdd o weithio yn y dyfodol yn adran *Cynnydd a pherfformiad* o'r datganiad hwn.

## Cynllunio a mesur perfformiad

Mae nodau strategol a blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd wedi rhoi cyfeiriad ac wedi llywio gwaith cynllunio ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth. Amlinellir ein nodau a blaenoriaethau yn adran Datganiad o Ddiben yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc, y Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Gweithredol wedi rhoi arweiniad o ran nodi sut y caiff y nodau a'r blaenoriaethau eu cyflawni drwy gynllunio effeithiol ar lefelau'r gorfforaeth a'r gwasanaeth. Datblygwyd Cynllun Cyflawni Corfforaethol dros y flwyddyn ac mae'n rhoi mwy o eglurder ynghylch sut a phryd y caiff y blaenoriaethau eu cyflawni, a chyfrifoldeb ac atebolrwydd am eu cyflawni. Ceir rhagor o fanylion am gynllunio corfforaethol, ynghyd â'r fframweithiau adnoddau a chynllunio ariannol, yn adran *Cynnydd a pherfformiad* o'r datganiad hwn ac yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 88).

Ochr yn ochr â hyn, mae canllawiau a thempledi wedi'u diweddaru wedi'u cyflwyno ar gyfer cynlluniau gwasanaeth sy'n nodi'n fanwl yr amcanion ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni Corfforaethol. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn nodi sut y caiff yr amcanion eu hariannu a'u mesur, a'r risgiau i'w cyflawni. Mae'r templedi newydd yn helpu i alinio gweithgarwch gwasanaeth yn well â blaenoriaethau corfforaethol, a rhaglenni a phrosiectau i gyflawni amcanion.

Mae Uned Cynllunio Strategol newydd wedi'i sefydlu a rhan o'i rôl yw cefnogi'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu'r mecanweithiau cynllunio hyn ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynlluniau. Ceir rhagor o fanylion ar rôl yr uned newydd hon yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 88).

Mae'r Tîm Arwain yn ystyried yn barhaus yr adnoddau a drefnir o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth sy'n golygu y defnyddio staff mewn ymateb i flaenoriaethau a phwysau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys mesurau sy'n dangos perfformiad y Comisiwn ar draws gwasanaethau. Mae'r mesurau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Bwrdd Gweithredol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'n harferion gwaith ac yn parhau i fod yn addas at y diben. Ceir gwybodaeth am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol y Comisiwn yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 35).





## Cynnydd a pherfformiad

Yn Natganiad Llywodraethu'r llynedd cyfeiriwyd at "raglen waith strwythuredig tuag at gyflawni ein gweledigaeth o ddod yn Senedd fwy hyblyg, ymatebol a chynaliadwy, a fydd yn gallu ymateb yn well i'r gofynion a osodir arni, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o gynigion ar gyfer diwygio'r Senedd". Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu'r rhaglen waith hon, fel yr amlinellir o dan yr is-benawdau yn yr adran hon.

Mae gan y ddwy raglen drawsnewid fawr, sef Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio, eu strwythurau llywodraethu unigryw eu hunain ond maent hefyd yn debyg. Mae'r rhaglenni'n rhannu nifer o rhyngddibyniaethau sy'n ymwneud â pharodrwydd Comisiwn y Senedd i gefnogi Seithfed Senedd a allai fod wedi'i diwygio. Felly bydd y ddwy raglen, ynghyd â phrosiectau newid eraill, yn cael eu rheoli fel rhan o fframwaith rheoli portffolio. Bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan yr Uned Cynllunio Strategol a sefydlwyd i gefnogi'r Bwrdd Gweithredol yn ei benderfyniadau strategol. Bydd yr Uned, a fydd yn goruchwylio'r rhyngddibyniaethau rhwng y ddwy raglen, yn datblygu cylch adrodd ar y cyd. Ceir rhagor o fanylion ar rôl yr Uned hon yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 88).

Ategir hyn gan welliannau i'n prosesau cynllunio corfforaethol, sydd hefyd wedi'u hamlinellu o dan is-bennawd yn yr adran hon, a fydd yn ein helpu i reoli risgiau sy'n ymwneud â chapasiti a gallu'r Comisiwn i gyflawni agenda uchelgeisiol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

### Ymateb i newidiadau cyfansoddiadol yn y DU a chynigion ar gyfer diwygio'r Senedd

#### Newid cyfansoddiadol y DU

Rydym wedi rheoli ein hymateb i newidiadau cyfansoddiadol yn y DU drwy dargedu adnoddau ar lefelau priodol, datblygu gweithio rhyng-seneddol a rhannu gwybodaeth â swyddogion perthnasol y Comisiwn a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol. Mae hyn wedi helpu i sicrhau amlygrwydd a rheolaeth ar faterion cyfansoddiadol cyfredol a newydd. Rydym yn addasu i oblygiadau *Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020* i'r Senedd. Yn ystod 2022-23 gwnaethom gymryd camau i baratoi ar gyfer yr heriau sylweddol posibl yn sgil Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU. Rydym yn monitro gwelliannau i'r Bil a allai newid yr effaith ar y Senedd. Cafodd y gwaith paratoadol hwn ei arwain gan Gyfarwyddwr Busnes y Senedd a chafodd y risgiau

cysylltiedig eu monitro gan y Bwrdd Gweithredol drwy Gofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn.

### Diwygio'r Senedd

Mae manylion y cynnig y cytunwyd arno gan y Senedd, a'r bwriad i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer Diwygio'r Senedd, i'w gweld yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 54). Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i reoli paratoadau ar gyfer y newid posibl yn sgil diwygio. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom sefydlu rhaglen Diwygio'r Senedd a Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Senedd, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, sef yr Uwch-berchennog Cyfrifol. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr o bob rhan o'r Comisiwn ac mae'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd hefyd yn mynychu cyfarfodydd bwrdd y rhaglen.

Mae Rhaglen Diwygio'r Senedd yn cydgysylltu cymorth a chyngor a gaiff eu darparu i alluogi Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Busnes, y Bwrdd Taliadau Annibynnol, Fforwm y Cadeiryddion, a'r Llywydd i gyflawni'r gwaith y mae angen iddynt ei wneud i baratoi ar gyfer busnes seneddol yn y Seithfed Senedd, gan sicrhau eu bod i gyd yn deall gwaith ei gilydd ac yn parchu annibyniaeth ei gilydd.

Y Bwrdd Gweithredol, fel corff gwneud penderfyniadau'r Comisiwn, sydd â throsolwg strategol o'r rhaglen, a chaiff adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol a risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn adolygu'n rheolaidd y risg gorfforaethol ar Ddiwygio'r Senedd a risgiau cysylltiedig ynghylch capasiti a gallu'r Comisiwn i ymateb a pharatoi ar gyfer y newid trawsnewidiol hwn, ochr yn ochr â busnes fel arfer a chyflawni'r rhaglen Ffyrdd o Weithio. Mae cofrestr risg a materion ar gyfer rhaglen Diwygio'r Senedd wedi'i datblygu a fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd gan y Fwrdd Rhaglen Diwygio'r Senedd, gyda risgiau neu faterion sy'n dod i'r amlwg neu sy'n cynyddu yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Gweithredol mewn amser real.

Bydd Rhaglen Diwygio'r Senedd yn cydgysylltu cymorth a chyngor a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd i sicrhau bod y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gallu cyflawni ei Benderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn unol â'i raglen waith strategol, tra'n ystyried rhyngddibyniaethau â phenderfyniadau'r Comisiwn. Cynhaliodd y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ymarfer ymgysylltu ar y cyd ag Aelodau o'r Senedd yn hydref 2022, a ddefnyddiwyd i lywio eu blaenoriaethau priodol ar gyfer newid ar gyfer y Seithfed Senedd.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Mae Bwrdd Sicrwydd ar y Cyd wedi'i sefydlu gyda Llywodraeth Cymru. Mae Cyfarwyddwr Busnes y Senedd yn cyd-gadeirio'r Bwrdd â Chyfarwyddwr Pontio Ewropeaidd, y Cyfansoddiad a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru. Mae'n cyfarfod yn fisol a'i fwriad yw rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Swyddogion Cyfrifyddu a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ryngddibyniaethau rhwng Comisiwn y Senedd a rhaglenni Diwygio'r Senedd/rhaglenni newid perthnasol Llywodraeth Cymru. Mae gan Gomisiwn y Senedd hefyd gynrychiolaeth ar Fwrdd Cyflawni Diwygio Etholiadol y Senedd Llywodraeth Cymru sy'n dod â phartneriaid allweddol sy'n ymwneud â gweithredu Diwygio'r Senedd at ei gilydd, i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r gwaith gweithredu sydd ei angen i'w gyflawni a rheoli risgiau cysylltiedig.

Mae cynllunio ar gyfer Diwygio'r Senedd yn cael ei wneud o fewn yr amgylchedd seneddol, sydd â threfniadau penderfynu a llywodraethu cymhleth. Mae matrics cyfrifoldeb wedi'i greu i nodi rolau a chyfrifoldebau priodol i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r amgylchedd hwn gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.


Caiff Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn ddiweddariad corfforaethol ym mhob un o'i gyfarfodydd ac mae'n herio'r trefniadau llywodraethu a chraffu arnynt, ac yn rheoli'r risgiau cysylltiedig.


### Cwblhau a gweithredu'r strategaeth "Ffyrdd o Weithio" a'r rhaglen waith gyda chynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u cynnwys o'r dechrau

Mae manylion am sefydlu strategaeth Ffyrdd o Weithio integredig a rhaglen gyflawni gysylltiedig i'w gweld yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 90). Mae hynny'n cynnwys manylion am y cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Interim a Bwrdd Prosiectau ar y Cyd, a sefydlwyd i fwrw ymlaen ag elfennau allweddol o'r cynllun yn gyflym. Mae hefyd yn cyfeirio at ffyrdd y mae'r Comisiwn wedi gweithio gyda'r Bwrdd Taliadau Annibynnol i ddeall safbwyntiau ac anghenion Aelodau o'r Senedd yn well.

O ddechrau 2023-24, bydd y rhaglen Ffyrdd o Weithio yn symud i'w chyfnod cyflawni strategol. Mae gan y rhaglen bum thema strategol – Darparu Gwasanaethau, Dyfodol (gan gynnwys cynaliadwyedd), Pobl, Lle, a Technoleg a rheolir y gwaith o gyflawni'r rhaglen drwy strwythur llywodraethu ffurfiol fel yr amlinellir yn y diagram yn Ffigur 1:

## *Ffigur 1*


Yn darparu manylion perthnasol y rhaglen i
Comisiwn y Senedd
Sicrwydd i'r Comisiwn ar raglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio
Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Y Bwrdd Gweithredol
Yn atebol
Yn atebol
Yn darparu manylion perthnasol y rhaglen i
Uwch-berchennog Cyfrifol Ffyrdd o Weithio
Yn gofyn cyngor ac yn cael cymorth
Y Tîm Arwain
Yn gofyn cyngor ac yn cael cymorth
Uwch-berchennog Cyfrifol Diwygio'r Senedd
Adroddiad Rhaglen Fawr ar y Cyd
Cefnogaeth i
Cefnogaeth i
Bwrdd Rhaglen Ffyrdd o Weithio (FfoW)
Yn rheoli
Rheolwr Rhaglen Ffyrdd o Weithio
Adrodd gwybodaeth
Uned Cynllunio Strategol
Adrodd gwybodaeth
Rheolwr Rhaglen Diwygio'r Senedd
Yn rheoli
Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Senedd
Ffrwd Waith Datblygu Strategaeth FfoW
Technoleg
Lle
Pobl
Y dyfodol
Darparu Gwasanaethau
Ffrwd Waith Bae Caerdydd
Ffrwd Waith Gweithio Rhanbarthol


Croeso

Bydd Bwrdd Rhaglen Ffyrdd o Weithio, a fydd yn disodli'r Bwrdd Prosiectau ar y Cyd blaenorol, yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Adnoddau fel yr Uwch-berchennog Cyfrifol. Bydd aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys uwch reolwyr o bob rhan o'r Comisiwn, gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol sy'n gwneud rolau defnyddwyr a chyflenwyr. Bydd Tîm Arwain y Comisiwn a chynrychiolwyr TUS yn gweithredu fel grŵp cynghori a bydd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd hefyd yn mynychu cyfarfodydd bwrdd y rhaglen i roi cymorth a her annibynnol ynghylch llywodraethu'r rhaglen.

Fel gyda rhaglen Diwygio'r Senedd, bydd gan y Bwrdd Gweithredol, fel corff gwneud penderfyniadau'r Comisiwn, drosolwg strategol o'r rhaglen, a bydd yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol a risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg.

Bydd diweddariadau rheolaidd hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn, ochr yn ochr ag unrhyw faterion sy'n codi o'r rhaglen lle mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau.

Bydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yn cael diweddariad corfforaethol ym mhob un o'i gyfarfodydd a bydd yn herio'r trefniadau llywodraethu a chraffu arnynt, ac yn rheoli'r risgiau cysylltiedig.

Er bod y rhaglen yn rhan annatod a sylfaenol o'n hymateb i Ddiwygio'r Senedd, bydd hefyd yn sicrhau canlyniadau ehangach o ran cyflawni nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn. Felly bydd cydgysylltu rhwng y ddwy raglen, a gweithgarwch mawr arall, yn hollbwysig a bydd y fframwaith rheoli portffolio a'r cylchoedd adrodd ar y cyd yr ydym wrthi'n eu datblygu yn hwyluso hyn.

Caiff cynaliadwyedd ei roi wrth galon y rhaglen hon fel y dangosir drwy gael thema benodol ar Ddyfodol sy'n ymgorffori cynaliadwyedd. Mae rheolwr cynaliadwyedd y Comisiwn yn aelod o Fwrdd Rhaglen Ffyrdd o Weithio. Mae materion cynaliadwyedd hefyd wedi'u cynnwys fel amcanion gwariant ac anghenion busnes hanfodol ar gyfer prosiectau allweddol fel eu bod yn ffurfio craidd ein hachosion busnes.

Mae manylion yr ymrwymiad a'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn, a sut mae'r rhain yn sail i weithgareddau bob dydd a chynllunio strategol i'w gweld yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 93).



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

### Cwblhau a chyhoeddi Cynllun Cyflawni Corfforaethol newydd

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd Cynllun Cyflawni Corfforaethol cyntaf y Comisiwn (y Cynllun) gyda chyfraniad gan y Tîm Arwain ac fe'i cyhoeddwyd yn fewnol ym mis Mehefin 2022. Wedi hynny, diweddarodd y Bwrdd Gweithredol y Cynllun ym mis Tachwedd, derbyniodd adroddiad cynnydd ym mis Rhagfyr a bydd yn cael adroddiad pellach, yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn cyflawni'r camau gweithredu, ar ddechrau 2023-24. Mae'r Cynllun ar gyfer 2023-24, sydd wedi'i fframio o amgylch blaenoriaethau'r Comisiwn a'r Bwrdd Gweithredol, gan gynnwys y portffolio o brosiectau newid, yn ymgorffori gwersi a ddysgwyd ac adborth gan y Tîm Arwain ar ei ddatblygiad. Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd gan y Bwrdd Gweithredol i ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Mae Cynlluniau Gwasanaeth hefyd wedi'u llunio gan Benaethiaid Gwasanaeth sy'n nodi'n fanwl sut y bydd y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Corfforaethol yn cael eu cyflawni. Ceir rhagor o fanylion am ddatblygu'r gwaith cynllunio gwasanaethau yn yr adran *Cynllunio a pherfformiad* yn y datganiad hwn.

Gellir gweld manylion y fframweithiau adnoddau a chynllunio ariannol i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau'r Comisiwn, gan gynnwys Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (a fydd yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynllun Gweithlu) yn Adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 88).

Bydd yr Uned Cynllunio Strategol a sefydlwyd yn ddiweddar yn cefnogi'r Bwrdd Gweithredol drwy oruchwylio'r fframweithiau cynllunio, rheoli portffolio ac adrodd. Bydd yn cydlynu datblygiad parhaus y Cynllun Cyflawni Corfforaethol ac yn adrodd ar gynnydd yn ei erbyn, yn gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i sicrhau cynllunio a monitro cadarn ar gyfer darparu gwasanaethau, a sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau mawr yn cael eu cydlynu'n effeithiol ac yr adroddir arnynt.

## Rheolaeth ariannol a pherfformiad

Rydym yn gweithio o fewn system o reolaeth gref ac effeithiol i sicrhau cywirdeb a defnydd priodol o arian. Mae hyn wedi parhau wrth i ni ddod allan o weithio trwy'r pandemig i weithio hybrid fel y norm.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am reoli'r cyllid sydd ar gael yn ystod y flwyddyn, cyfrifoldeb a gyflawnir drwy broses flaenoriaethu sy'n destun profion trwyadl ac adolygiadau pellach yn ystod y flwyddyn er mwyn ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd gweithredu. Caiff swyddi cyllideb gwasanaeth eu hadolygu'n

fisol gan y tîm Cyllid ac yn chwarterol gyda rheolwyr y gyllideb ac yn adrodd pob cyfnod i'r Bwrdd Gweithredol.

Costau ynni fu'r pwysau cost sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, gyda goblygiadau cyllidebol hyd at 2023-24. Caiff y Pwyllgor Cyllid ei ddiweddaru'n rheolaidd ar gostau a'r mesurau lliniaru a weithredir gan y Comisiwn i leihau'r effaith ariannol.

Roedd Adroddiad Archwilio 2021-22 yn ddiamod. Mae'r broses a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer nodi asedau wedi'i defnyddio'n dda ac roedd cynllunio gwaith prosiect yn ofalus yn gynnar yn y flwyddyn ariannol yn golygu bod gwaith wedi'i gyflwyno'n raddol mewn modd hylaw ac amserol drwy gydol y flwyddyn, gan helpu'r Comisiwn i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae dyfyniad o adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2021-22 gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ym mis Rhagfyr 2022 yn nodi'r canlynol:

> *Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod tanwariant yn destun gwerthusiad trylwyr, gydag ailfuddsoddiad yn cael ei ddyrannu i wella gwasanaethau i staff ac Aelodau. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth yn flynyddol am unrhyw brosiectau a ariennir drwy'r gronfa brosiectau ac, at ddibenion tryloywder, yr arian a ddyrennir ar gyfer y cynlluniau hyn.*
>
> *Croesewir sylwadau'r Comisiwn am arbedion yn ystod y pandemig COVID-19, a'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i hynny. Mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i barhau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cynnal yr arbedion hyn, drwy fentrau megis ymgysylltu ar-lein a gweithio'n ystwyth i liniaru costau trafnidiaeth. Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei gynnydd yn y meysydd hyn.*

Rydym wedi parhau i gael ein herio gan y Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch lefel adnoddau'r Comisiwn a defnydd ohonynt.

Mae'r tîm Cyllid wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn allweddol o ran datblygu opsiynau ar gyfer strategaeth cyllideb a'i chyflwyno yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid wedi croesawu'r newidiadau hyn sy'n cynorthwyo o ran dealltwriaeth ac yn gwella tryloywder.

Mae dyfyniad o'r adroddiad craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2022 yn nodi:



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

> *Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yr hinsawdd economaidd anodd, yn ogystal â nodau uchelgeisiol y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd, wedi gwneud y broses o osod cyllideb ar gyfer 2023-24 yn arbennig o heriol ac mae'n nodi bod hon yn sefyllfa sy'n wynebu pob corff sector cyhoeddus wrth iddynt gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.*
>
> *Mae'r Pwyllgor yn falch o'r ffordd ddoeth y mae'r Comisiwn wedi datblygu ei gynigion cyllideb ac yn enwedig y ffordd y mae wedi mynd ati i wrando ar argymhellion blaenorol y Pwyllgor, yn enwedig o ran cadw at y Datganiad o Egwyddorion a chyflwyno ei gyllideb mewn ffordd glir, dryloyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn credu bod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 yn rhesymol ac yn gymesur.*

Ym mis Ebrill 2022, lansiwyd diweddariad i'r system gyllid. Cynhaliwyd cyfnod helaeth o brofion dros nifer o fisoedd. Mae'r fersiwn diweddaraf yn fwy ymarferol ac wedi gwneud yn bosibl gwella a/neu symleiddio llawer o'r prosesau presennol. Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y prosiect uwchraddio systemau, gyda ffocws penodol ar reoli risg. Mae'r tîm Cyllid wedi cynnal ymarfer dilysu i sicrhau bod balansau wedi'u trosglwyddo'n gywir o'r hen system i'r system newydd, yn fuan ar ôl mynd yn fyw. Dilyswyd ac adolygwyd hyn ymhellach gan archwiliad mewnol o reolaethau ariannol allweddol ym mis Tachwedd 2022 a roddodd sicrwydd sylweddol ynghylch y fframwaith rheoli sydd ar waith gan y Comisiwn.

Un o rolau allweddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yw adolygu cyfrifon y Comisiwn ac argymell y dylid eu cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael gwybodaeth am ein sefyllfa ariannol ym mhob cyfarfod a chaiff gwybodaeth megis adroddiadau ar waith craffu gan Bwyllgorau'r Senedd (fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol yn yr adran hon) ac ymatebion y Comisiwn eu rhannu ag aelodau'r Pwyllgor mewn amser real.

## Nodi a rheoli risg

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi, blaenoriaethu a rheoli'n effeithiol y risgiau i gyflawni nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn, ynghyd â chydymffurfiaeth â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau.

Mae risgiau mwyaf sylweddol y Comisiwn wedi'u cofnodi mewn Cofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn berchen ar y cyd ar y risgiau corfforaethol hyn, ac maent yn cael eu rheoli a'u monitro'n rheolaidd gan y

Cyfarwyddwr perthnasol a'i Benaethiaid Gwasanaeth. Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei hadolygu yn ei chyfanrwydd gan y Bwrdd Gweithredol bob chwarter er mwyn sicrhau bod y rheolaethau'n ddigonol a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gamau pellach i wella'r rheolaethau. Mae hyn yn cynnwys edrych i'r dyfodol am risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal â hyn, caiff risgiau eu cofnodi, eu rheoli a'u monitro ar lefel gwasanaeth, ac mae Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu adroddiadau chwarterol i'w Cyfarwyddwyr yn amlinellu newidiadau a manylion unrhyw risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn rhoi cyfle i Gyfarwyddwyr herio'r risgiau a phenderfynu a ddylid uwchgyfeirio unrhyw rai a'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r adroddiadau'n rhoi'r sail ar gyfer yr adolygiad risg chwarterol gan y Bwrdd Gweithredol. Adroddir ar risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau i'r Bwrdd Gweithredol bob mis.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i fonitro'r risgiau yn gysylltiedig â Covid-19 ar lefel gwasanaeth ac yn gorfforaethol. Mae'r asesiad risg corfforaethol yn casglu clefydau heintus, gan gynnwys Covid-19 gyda mesurau parhaus ar waith i liniaru'r risgiau.

Rydym hefyd wedi bod yn monitro risgiau sy'n ymwneud â chapasiti a gallu corfforaethol yn agos, yn enwedig wrth inni gynllunio ar gyfer newid trawsnewidiol mawr o ran Diwygio'r Senedd a ffyrdd newydd o weithio.

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg ac wedi croesawu'r asesu parhaus ac amlygrwydd risg, natur ddeinamig y gofrestr risgiau, a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd. Mae'n cynnal adolygiadau o risgiau corfforaethol yn ei gyfarfodydd ac yn dewis risgiau penodol i'w hasesu'n fanwl.

Un maes y mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio arno yw seiberddiogelwch, gan gynnig her annibynnol ar gyfer y gwaith a wnawn i ddiogelu'r Senedd rhag seiberymosodiadau ac ymosodiadau atal gwasanaeth. Yn ogystal ag adolygu diweddariadau manwl ar y risg gorfforaethol ym mhob cyfarfod a chynnal adolygiadau manwl rheolaidd, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol blynyddol ar seiberddiogelwch. At hynny, mae uwch swyddogion TGCh yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i roi diweddariadau pellach, gan gynnwys cyflwyno Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch manwl, ac ymateb i waith craffu. Rhoddir sicrwydd pellach gan adroddiad ar gynnydd yn erbyn holl argymhellion archwilio mewnol yn ymwneud â seiberddiogelwch.





Maes arall y bu'r Pwyllgor yn canolbwyntio arno oedd datblygu ein cynlluniau ar gyfer Diwygio'r Senedd, gyda diweddariadau corfforaethol yn ategu'r wybodaeth fanwl am y risgiau ym mhob cyfarfod. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cael diweddariad corfforaethol ym mhob cyfarfod ar y rhaglen Ffyrdd o Weithio.

Mae manylion proffil risg y Comisiwn a sut mae hyn wedi newid dros y flwyddyn i'w gweld o dan Proffil Risg yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 43).

## Sicrwydd

### Fframwaith Sicrwydd

Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn wedi parhau i gynnig dull effeithiol o gasglu tystiolaeth ar lefelau sicrwydd. Yn seiliedig ar y model tair llinell amddiffyn sydd wedi cael ei fabwysiadu'n eang, mae'r fframwaith yn cynnig dull strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'n helpu i asesu cryfder ein rheolaethau mewnol, gyda phob maes gwasanaeth yn mapio eu lefelau sicrwydd. Caiff y mapiau hyn, ynghyd â dulliau i brofi ymwybyddiaeth staff, eu defnyddio i lywio datganiadau sicrwydd ar lefel gwasanaethau, sy'n cael eu hadolygu gan Gyfarwyddwyr. Mae pob Cyfarwyddwr hefyd yn cynhyrchu datganiad sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu lywio'r Datganiad Llywodraethu hwn. Mae Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn (gan gynnwys Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn) yn craffu'n fanwl ac yn herio datganiadau sicrwydd a'r broses ar gyfer casglu tystiolaeth i gefnogi'r sicrwydd a ddarperir. Mae hyn yn ychwanegu haen arall o sicrwydd.

Cynhelir cyfarfodydd rhwng y tîm Llywodraethu a Sicrwydd a Phenaethiaid Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn ac, ochr yn ochr â'r broses datganiad sicrwydd, maent yn helpu i nodi unrhyw feysydd lle mae angen ffocws, gwaith codi ymwybyddiaeth, neu hyfforddiant pellach. Rhoddir sylw i hyn wedyn drwy sesiynau briffio neu hyfforddiant pellach wedi'u targedu, a ddarperir gan y tîm Llywodraethu a Sicrwydd. Enghraifft o hyn oedd darparu hyfforddiant wedi'i deilwra, sydd wedi'i achredu gan Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), ar gyfer y meysydd gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ym mis Mawrth 2023.

Mae hyn i gyd yn rhoi hyder bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu deall yn dda a'u cymhwyso ar draws y Comisiwn a bod unrhyw feysydd o wendid cymharol yn cael sylw.

Ceir rhagor o fanylion am y lefelau sicrwydd yn adran *Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol* y datganiad hwn

Yn unol ag arfer gorau sy'n dod i'r amlwg, eleni gwnaethom addasu'r templedi ar gyfer mapio sicrwydd ar lefel gwasanaeth/gweithredol a datblygu mecanweithiau ar gyfer mapio sicrwydd mewn ffordd fwy strwythuredig ar lefel cyfarwyddiaeth/corfforaethol..

## Archwilio mewnol

Yn ei rôl fel Pennaeth Archwilio Mewnol, mae Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd y Comisiwn yn rhoi sicrwydd ar draws ystod o wasanaethau ac yn mynd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cyflawni rhaglen lawn o adolygiadau yn ystod 2022-23. Mae adolygiadau archwilio wedi eu cwblhau ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, Rheolaethau Ariannol Allweddol gyda ffocws ar y system gyllid newydd, Risg Fframwaith Rheoleiddiol a Pharhad Busnes. Cynhaliwyd hefyd adolygiad blynyddol o dreuliau Aelodau a lluniwyd adroddiad ar gynnydd ar weithredu argymhellion archwiliad seiberddiogelwch blaenorol. Mae darnau mwy rhagweithiol o waith sicrwydd wedi bod yn ategu'r allbynnau archwilio mewnol mwy traddodiadol gan gynnwys adolygiad Gwersi a Ddysgwyd o gyfnod Covid 19, arsylwi mewn byrddau prosiect a darparu cyngor sicrwydd parhaus i gydweithwyr ar draws y sefydliad.

Mae adroddiadau archwilio mewnol yn parhau i nodi nifer fach o feysydd lle gellir cyflwyno gwelliannau i'r amgylchedd rheoli, ac yn amlygu meysydd lle mae'r Comisiwn yn defnyddio arferion da o ran y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith. Lle caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio.

Mae Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru (fel archwilwyr allanol y Comisiwn) yn parhau i fod â pherthynas waith effeithiol yn unol â phrotocol cydweithio. Mae Archwilio Cymru wedi ystyried y gwaith archwilio mewnol ar dreuliau Aelodau wrth archwilio'r cyfrifon.

Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol 2022-23 yn dod i'r casgliad y gall y Swyddog Cyfrifyddu gymryd sicrwydd cymedrol[23] bod y trefniadau i sicrhau bod gwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, wedi'i gynllunio a'i gyflawni'n effeithiol. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

[23] Sicrwydd cymedrol - mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.





Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiadau y tu allan i'r rhaglen archwilio mewnol: roedd hyn yn cynnwys adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol ac adolygiad parhaus o effeithiolrwydd y Bwrdd Gweithredol. Mae cysylltiadau â sefydliadau seneddol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill hefyd wedi'u cynnal i rannu gwybodaeth ac arferion da.

## Meysydd llywodraethu eraill

Lluniodd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a chyflwynodd hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol a'i Farn ar gyfer 2022-23. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban yn ystod 2022-23.

Mae Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ar gyfer 2022-23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn rhan bwysig o'r broses sicrwydd ynghylch materion diogelu data. Mae'n cynnwys manylion unrhyw achosion o dorri data, a fyddai hefyd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ni chafwyd unrhyw achosion o golli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Mae'r Comisiwn yn parhau i ddefnyddio fframweithiau allanol a fframweithiau a safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol i arwain ein gwaith llywodraethu, gwaith rheoli risg, a sicrwydd ynghylch meysydd fel seiberddiogelwch a chynaliadwyedd.

Mae'r Comisiwn yn monitro cydymffurfiaeth ffurfiol yn erbyn rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol, a chyhoeddir adroddiadau arnynt ar wefan y Comisiwn. Enghreifftiau o hyn yw'r Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant, Adroddiad Blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol, ac Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

## Sicrwydd annibynnol

Mae Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn[24] yn rhoi cefnogaeth a her adeiladol i'r Comisiwn a'i waith. Ar wahân i'w rolau cynghori pwysig ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau, maent wedi helpu mewn nifer o gynlluniau recriwtio, wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd staff a'n gwobrau cydnabod staff, wedi cefnogi ein gwaith i wneud ein sefydliad yn fwy cynhwysol, wedi helpu drwy

[24] https://senedd.cymru/comisiwn/cynghorwyr-annibynnol/?CId=386&Year=2015

gyflwyno eu harbenigedd ar faterion penodol a darparu her i uwch reolwyr fel rhan o'r broses datganiad sicrwydd.

Yn ystod y flwyddyn, penodwyd tri Chynghorydd Annibynnol newydd i gymryd lle'r rhai yr oedd eu contractau wedi dod i ben. Ceir manylion y newidiadau hyn yn yr adran Trosolwg o Adroddiad Blynyddol y Comisiwn (tudalen 16-18).

Fel rhan o'i rôl yn adolygu gweithgarwch archwilio, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cael sicrwydd ar hyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys drwy ei Adroddiad Blynyddol a Barn, a gan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Flynyddol sy'n cynnwys adran ar annibyniaeth.

Hefyd, mae sesiwn breifat flynyddol gydag Archwilio Cymru wedi'i gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor, sy'n rhoi cyfle pellach i drafod y broses archwilio allanol. Mae hyn yn ogystal â thrafodaethau am y broses yn ystod y cyfarfodydd ffurfiol. At hynny, mae cyfleoedd i gynrychiolwyr o Archwilio Cymru a Chyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn gael ôl-drafodaeth â'r Pwyllgor ar ôl y sesiwn gwersi a ddysgwyd flynyddol a gynhelir rhwng y tîm Cyllid a'r tîm archwilio allanol.

Mae canlyniadau'r gweithgareddau cydnabyddiaeth allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn ac maent yn adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd cynhwysol y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddo. Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys o dan Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 93).

## Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Mae'r broses ar gyfer casglu ac adolygu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth fewnol a llywodraethu wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac wedi esblygu dros amser. Mae manylion yr addasiadau rydym wedi'u gwneud i'r broses eleni wedi'u cynnwys yn yr adran *Sicrwydd - fframwaith sicrwydd* yn y datganiad hwn.

Yn ganolog i'r adolygiad hwn oedd proses hunan-adolygu a herio a gynhaliwyd o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau. Dilynwyd hyn gan gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a oedd yn cynnwys y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd ym mis Mawrth 2023 i adolygu'r datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr a wnaeth ystyried mapiau sicrwydd manwl a datganiadau gan bob Pennaeth Gwasanaeth.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Daeth y Cadeirydd ac un aelod arall o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r cyfarfod i ddarparu her a chraffu annibynnol.

Roedd yr adolygiad yn ymdrin â sicrwydd ynghylch:

- ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;
- rheoli risgiau;
- y cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd; a
- meysydd i ganolbwyntio arnynt neu eu cryfhau.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y broses ar gyfer casglu ac adrodd ar sicrwydd yn parhau i fod yn effeithiol ac yn dangos aeddfedrwydd.

## Meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2023-24

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r rhaglen waith strwythuredig tuag at gyflawni ein gweledigaeth o ddod yn Senedd fwy hyblyg, ymatebol a blaengar, a fydd yn gallu ymateb yn well i'r gofynion a osodir arni, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o gynigion ar gyfer Diwygio'r Senedd.

Bydd y meysydd ffocws a datblygu penodol ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

- cwblhau a gweithredu'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig;
- sicrhau bod trefniadau llywodraethu prosiectau a rhaglenni'n parhau i fod yn effeithiol, a gweithredu'r fframwaith rheoli portffolio a chylchoedd adrodd ar y cyd ar gyfer rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio a phrosiectau mawr eraill;
- ymgorffori'r fframwaith cynllunio gwasanaeth a chorfforaethol wedi'u diweddaru;
- bwrw ymlaen â'r gwaith ar symleiddio a chyfleu rheolau a gweithdrefnau yn ein fframwaith rheoleiddio fel y mae'n berthnasol i Aelodau; a
- chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ynghylch cydymffurfio â'n Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

## Datganiad i gloi

Mae wedi bod yn flwyddyn arall o gyflawniadau sylweddol, fel y dangoswyd yn ein Hadroddiad Blynyddol. Mae’r datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein hamcanion wrth weithio tuag at ein nodau strategol wedi bod yn effeithiol.

Rwy'n fodlon bod unrhyw wendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw, neu yn y broses o gael sylw. Rwy’n hyderus ein bod, yn ystod y flwyddyn, wedi cynnal safonau llywodraethu uchel a bod ein rheolaethau, systemau a phrosesau mewnol yn ein fframwaith llywodraethu yn gweithredu'n effeithiol.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 26 Mehefin 2023**







# Staff a thaliadau

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi gwybodaeth ariannol a sylwebaeth am ddeiliaid swyddi yn y Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

## Y Polisi Taliadau

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol (y Bwrdd), a sefydlwyd gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010* (y Mesur), sy'n gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau. Penodwyd Dr Elizabeth Haywood yn Gadeirydd y Bwrdd ym mis Medi 2020, a hynny am dymor o bum mlynedd.

Mae'r Cadeirydd yn cael £400 y diwrnod. Mae pedwar aelod arall y Bwrdd (y Fonesig Jane Roberts, Michael Redhouse, Hugh Widdis a Syr David Hanson) yn gymwys i gael cyfradd diwrnod o £310[25].

Fel Bwrdd annibynnol, mae'n cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun, ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn wedi'u nodi yn y Mesur.

Y cyflog sylfaenol a bennwyd i'r Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 oedd £67,920 (£67,649 yn 2020-21). Caiff cyflogau'r Aelodau eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol ag ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion), ar yr amod nad yw'r addasiad yn is na 0 y cant ac nad yw'n uwch na 3 y cant. Y cynnydd a gymhwyswyd i 2022-23 oedd 0.4 y cant.

Oherwydd amgylchiadau eithriadol a phwysau ariannol o ganlyniad i ddigwyddiadau byd-eang, ym mis Rhagfyr 2022 penderfynodd y Bwrdd Taliadau wneud taliad costau byw untro o £600 (pro rata) i Staff Cymorth, a chyflwynwyd cynnydd o £1,000 i'r lwfans sydd ar gael i Aelodau i dalu eu costau swyddfa a'r gost o ymgysylltu ag etholwyr.

[25] Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd diwrnod am ei waith ar y Bwrdd.

Roedd gan y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| Swydd | O 1 Ebrill 2022 | O 1 Ebrill 2021 |
|---|---|---|
| Y Llywydd | £43,511 | £43,338 |
| Y Dirprwy Lywydd | £22,286 | £22,197 |
| Comisiynwyr y Senedd | £13,796 | £13,741 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch)[26] | £13,796 | £13,741 |
| Cadeirydd Pwyllgor (is)[27] | £9,191 | £9,154 |
| Aelodau'r Pwyllgor Busnes | £9,191 | £9,154 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

O 1 Ebrill 2022, cafodd arweinydd grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £13,796 (2021-22, £13,741) a £1,061 (2021-22, £1,057) yn ychwanegol am bob aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £38,204 (2021-22, £38,052).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae'r Aelodau o'r Senedd yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd y cyhoeddir cyfrifon blynyddol ar wahân ar ei gyfer drwy wefan y Senedd[28].

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: sef: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar Aelod arall o'r Senedd a benodir gan

[26] Y pwyllgorau oedd Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; Cyllid; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Llywodraeth Leol a Thai; Deisebau; Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Safonau Ymddygiad.
[27] Nid yw cadeiryddion pedwar pwyllgor yn cael tâl ariannol am gadeirio'r pwyllgorau hynny gan eu bod yn cael cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol eraill, a chaiff Aelodau hawlio un cyflog deiliad swydd ychwanegol yn unig. Maent yn cynnwys y Pwyllgor Busnes, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, Pwyllgor y Llywydd a'r Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd (a ddaeth i ben ar 8 Mehefin 2022).
[28] www.senedd.cymru





y Senedd. Rhestrir y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod 2022–23 ar dudalennau 14-15.

Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr.  Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd[29] yn dâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac ni chodir hwy ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

***Tabl 1: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw a theitl | Cyflog | | Buddion Pensiwn[30] [31] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
| Elin Jones AS - y Llywydd | 110-115 | 110-115 | (20) | 16 | 90-95 | 125-130 |
| Ann Jones AS - Dirprwy Lywydd – hyd at 28 Ebrill 2021 | - | 5-10 | - | 1 | - | 5-10 |
| David Rees AS - Dirprwy Lywydd – o 12 Mai 2021 | 90-95 | 75-80 | (3) | 15 | 85-90 | 90-95 |

[29] https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/y-dirprwy-lywydd/
[30] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir y buddion pensiwn i'r £1000 agosaf).
[31] Efallai y bydd rhai Aelodau'n gorfod talu taliadau treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i gronni pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

***Tabl 2: Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd - buddion pensiwn***

| Enw a theitl | Cynnydd / (gostyngiad) gwirioneddol mewn pensiwn | Cyfanswm y pensiwn cronedig | CETV ar 31 Mawrth 2023 | CETV ar 31 Mawrth 2022 | Cynnydd / (gostyngiad) gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Elin Jones AS – y Llywydd | (2.5-0) | 50-55 | 974 | 884 | (33) |
| Ann Jones AS - Dirprwy Lywydd – hyd at 28 Ebrill 2021 | - | - | - | 771 | - |
| David Rees AS - Dirprwy Lywydd – o 12 Mai 2021 | 0-2.5 | 20-25 | 457 | 422 | (4) |

Mae Tabl 1 a Thabl 2 yn destun archwiliad

Clerc y Senedd (a benodwyd o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau bod y Senedd yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni i ymgymryd â'i rhwymedigaethau. Mae hyn yn sicrhau y gall y Senedd a'i phwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Senedd yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

## Cynghorwyr Annibynnol ac Aelodau Pwyllgorau

Mae Comisiwn y Senedd yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau y caiff Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Senedd eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith. Rhestrir y Cynghorwyr Annibynnol a wasanaethodd yn ystod 2022-23 ar dudalennau 16-18.

## Uwch staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r dull hwn yn unol â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fuddion o dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.





Dangosir uwch staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Manon Antoniazzi | Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Roedd Manon Antoniazzi yn bresennol mewn saith o wyth cyfarfod y Comisiwn, pedwar o chwe chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dau o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. |
| Siwan Davies | Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Roedd Siwan Davies yn bresennol mewn wyth o wyth cyfarfod y Comisiwn, pump o chwe chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dim o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. |
| Arwyn Jones | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Roedd Arwyn Jones yn bresennol mewn wyth o wyth cyfarfod y Comisiwn, pump o chwe chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dim o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. |
| Ed Williams | Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd<br>Roedd Ed Williams yn bresennol mewn wyth o wyth cyfarfod y Comisiwn, chwech o chwe chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dim o ddau gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu. |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol nhw.

***Tabl 3: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw | Cyflog (£'000) | | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) [32] | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| **Manon Antoniazzi** | 165-170 | 160-165 | 64 | 62 | 230-235 | 220-225 |
| **Siwan Davies** | 115-120 | 105-110 | 46 | 43 | 160-165 | 150-155 |
| **Arwyn Jones** | 105-110 | 95-100 | 41 | 38 | 145-150 | 130-135 |
| **Ed Williams** | 95-100 | 15-20 | 38 | 7 | 135-140 | 20-25 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros, tâl goramser a lwfansau recriwtio a chadw.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

Penodwyd Huw Williams i swydd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol ar 1 Ebrill 2022. Cyn hynny roedd yn rhoi cyngor cyfreithiol drwy secondiad o Geldards ar sail gwasanaeth ymgynghori (ers 1 Awst 2019).

[32] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

## Cyflogau staff y Comisiwn

Cyflogau (neu dâl) yw cydnabyddiaeth flynyddol gyfwerth ag amser llawn yr holl staff (gan gynnwys staff dros dro) fel ar 31 Mawrth 2023. Nid yw tâl yn cynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwr, cyfraniadau pensiwn, taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na thâl neu fonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn daladwy yn 2022-23 nac yn 2021-22.

| Gwybodaeth am dâl | 2022-23 £ | 2021-22 £ |
|---|---|---|
| Pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf | 167,500 | 162,500 |
| Newid canrannol ym mhwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf o'r flwyddyn ariannol flaenorol | 3.08% | 10.17% |
| Newid canrannol yng nghyflog cyfartalog gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf) o'r flwyddyn ariannol flaenorol | 3.76% | 3.97% |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 25ain canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 31,137 | 27,271 |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 50fed canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 40,422 | 39,360 |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 75fed canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 51,137 | 49,793 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Datgelir y berthynas rhwng pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a thâl gweithiwr ar y 25ain, 50fed a 75fed canradd o holl staff y Comisiwn yn y tabl a ganlyn.

| Gwybodaeth Cymhareb Tâl | Cymhareb cyflog y 25ain canradd | Cymhareb cyflog canolrifol | Cymhareb cyflog y 75ain canradd |
|---|---|---|---|
| 2022-23 | 5.38:1 | 4.14:1 | 3.28:1 |
| 2021-22 | 5.96:1 | 4.13:1 | 3.26:1 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae cymhareb y 25ain ganradd wedi lleihau 9.73 y cant ac mae cymhareb y canolrif a chymhareb y 75ain ganradd wedi cynyddu 0.24 a 0.61, yn y drefn honno, ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad yn y 25ain ganradd o ganlyniad i'r ffaith bod mwy o staff ar ben uchaf yr ystod cyflog o fewn y ganradd hon o gymharu â 2021-22. Mae'r ystod cyflogau lle ar y canolrif a'r 75ain ganradd wedi aros yn weddol sefydlog, ac felly cafwyd newidiadau cymharol fach yn y gymhareb. Cynyddodd y cyflog uchaf 2.7 y cant yn unol â'r dyfarniad cyflog

Yn 2022-23 a 2021-22, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau yn amrywio o £21,000, a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn cael Cyflog Byw, i £167,000 (£18,000 i £146,000 yn 2021-22).





## Pensiynau

***Tabl 4: Uwch-reolwyr – buddion pensiwn***

| Gwir gynnydd mewn pensiwn [33] £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig [34] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2023 [35] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:*** *Manon Antoniazzi* | | | | |
| 2.5-5 | 30-35 | 447 | 372 | 41 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Senedd:*** *Siwan Davies* | | | | |
| 2.5-5 | 10-15 | 125 | 87 | 25 |
| ***Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu:*** *Arwyn Jones* | | | | |
| 0-2.5 | 5-10 | 76 | 50 | 15 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd****:* *Ed Williams* | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 33 | 5 | 20 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn i staff y Senedd drwy drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, fel rhan o ddiwygiadau llywodraeth i bensiynau gwasanaeth cyhoeddus, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – sef y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa ar gyfartaledd gydag oedran pensiwn arferol sy'n gyfartal ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 oed os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi a mwyafrif y rhai a oedd eisoes yn gweithio yn y gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil: tair adran sy'n darparu buddion ar

[33] Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.
[34] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn, a chyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer deiliaid swyddi cyfredol, ac ar y dyddiad y gwnaethant roi'r gorau i ddal swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.
[35] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

sail cyflog terfynol (sef y cynlluniau classic, premium, classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un adran sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. O dan drefniadau diogelwch trosiannol, arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Newidiodd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'diogelwch trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a'r diffoddwyr tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'diogelwch trosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu'r darpariaethau a oedd yn arwain at wahaniaeth o ran triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau a oedd wedi cyflawni'r cyfnod perthnasol o wasanaeth. O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny yn 2015, gan wneud y cynllun yn deg i'r holl aelodau yr effeithir arnynt.

Felly, maes o law, gallai aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 fod â hawl i wahanol fuddion pensiwn mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae buddion PCSPS yn cael eu "bancio" ar gyfer pob aelod sy'n newid i alpha, a chaiff y rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu yn alpha - fel sy'n briodol. Pan mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun.)

Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad penodol ('prynu arian') gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).





Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion yn y cynllun classic yn crynhoi ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd cyntaf o bensiwn pan fydd rhywun yn ymddeol. Mae buddion yn y cynllun premium yn crynhoi ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i gynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, cyfuniad yw'r cynllun classic plus, gyda'r buddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y gwneir yn y cynllun classic a'r buddion am wasanaeth o 1 Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo fel y gwneir yn y cynllun premium. Gyda chynllun nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), telir 2.3 y cant o gyflog pensiynadwy'r aelod yn ystod blwyddyn y cynllun i'w gyfrif pensiwn a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae buddion cynllun alpha yn cronni mewn ffordd debyg i gynllun nuvos, heblaw bod y gyfradd gronni yn 2.32 y cant. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn *Neddf Cyllid 2004*.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus yw 60 oed, a 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a'r oedran uchaf, sef 65 oed, neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer uwch staff yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu alpha – fel sy'n briodol. Pan mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth

cyfun eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gallai cyfran o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy wrth gyrraedd oedrannau gwahanol).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**





## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun ei datgelu.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd ei fod wedi prynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hunan. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Niferoedd y staff

Niferoedd y staff yn ôl categori

Mae’r holl uwch-reolwyr a’r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Roedd nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr) fel a ganlyn:

***Tabl 5: Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn***

| Categori | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Staff a gyflogwyd | 450.98 | 443.09 |
| Staff ar secondiad | 8.51 | 1.79 |
| Staff dros dro/achlysurol | 13.95 | 12.74 |
| **Cyfanswm** | **473.44** | **457.62** |

Mae’r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y Comisiwn yn cyflogi 473 o staff cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2022: 460).

***Tabl 6: Penodiadau oddi ar y gyflogres***

| Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y dydd a mwy fel ar 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022<br>Nifer |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau presennol | 2 |
| **Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023** | **2022-23<br>Nifer** |
| Nifer | 4 |
| O'r rhain:<br>Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac a ystyrir o fewn cwmpas IR35 | 4 |

Cafwyd un ymrwymiad oddi ar y gyflogres gan aelodau’r bwrdd neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 (Prif Swyddog Cyllid Dros Dro) (2021-22 – dim).





***Tabl 7: Cyfansoddiad staff yn ôl rhyw a band cyflog****

| Categori | 31 Mawrth 2023 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Anneuaidd | Hunaniaeth rhywedd arall | Cyfanswm |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 3 | - | - | **5** |
| Staff | 248 | 243 | - | - | **489** |
| **Cyfanswm** | **250** | **246** | **-** | **-** | 496 |

| Categori | 31 Mawrth 2022 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Anneuaidd | Hunaniaeth rhywedd arall | Cyfanswm |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 2 | - | - | **4** |
| Staff | 244 | 232 | - | - | **476** |
| **Cyfanswm** | **246** | **234** | **-** | **-** | 480 |

*Yn y tablau uchod, adroddir bod y staff a gyflogir yn niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, adroddir bod y dadansoddiad o rywedd ar sail niferoedd gwirioneddol.

Nid yw cynghorwyr annibynnol wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn na'r dadansoddiad rhywedd uchod.

## Data absenoldeb salwch

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gefnogi a rheoli gweithwyr sy'n absennol o'r gwaith oherwydd afiechyd neu salwch. Mae hyn yn golygu ymdrechu i greu amgylchedd sy'n caniatáu cyfathrebu agored ac adeiladol a chefnogaeth ar gyfer lles gweithwyr i'w galluogi i ddod â phob agwedd ar eu hunain i'r gwaith. Rydym hefyd wedi cyflwyno Strategaeth Llesiant sy’n rhychwantu 2022-25, sy’n darparu ar gyfer dull strategol o gynllunio a rheoli ymyriadau llesiant, yn ogystal â chaniatáu ar gyfer asesu effaith y gweithgareddau hyn.

Rydym yn rhoi gwerth uchel ar iechyd a lles ein gweithwyr ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu cefnogi a'u rheoli gan roi ystyriaeth ddyledus i anghenion gweithredol y Comisiwn. Mae absenoldeb yn arwain at gostau uchel i’r Comisiwn a’n staff ac yn cael effaith fawr arnynt, ac mae’r nod o sicrhau’r lefelau presenoldeb gorau o les i bawb. Mae gennym weithdrefnau ar waith i reoli absenoldeb er mwyn sicrhau bod dull teg, cyson a, lle bo’n briodol, cadarn yn cael ei ddefnyddio i reoli absenoldeb yn y Senedd.

Cynyddodd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn i gyfartaledd o 7.4 diwrnod a gollwyd fesul person (yn 2021-2022 collwyd 6.7 diwrnod fesul person), fodd bynnag mae hyn yn dal i fod yn is na meincnod y Swyddfa Ystadegau Gwladol a ddefnyddir gennym i fonitro absenoldeb salwch yn ei gyfanrwydd. Mae absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl bellach yn cyfrif am 1076 o ddiwrnodau a gollwyd (30 y cant o gyfanswm yr absenoldeb), sy'n golygu bod y gyfradd wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig, ac sy'n dilyn y cyfraddau uchaf yn 2021-22 pan oedd absenoldeb iechyd meddwl yn 48 y cant o gyfanswm yr absenoldeb, ac yn 2020-21 lle roedd absenoldeb iechyd meddwl yn cyfrif am 40 y cant o gyfanswm yr absenoldeb. Mae rhwydwaith MINDFUL y Senedd wedi parhau i gynnal sesiynau rhithwir galw heibio, gan greu lle i bawb gael sgwrs gyffredinol a chyngor yn ôl yr angen, ynghyd â sesiynau ar y safle.

Mae'r Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Ystadau a TGCh wedi parhau i gydweithio i sicrhau bod gan staff sy'n gweithio o bell offer sgrin arddangos (DSE) priodol, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol a gofynion ergonomig. Mae'r Senedd wedi caffael system DSE ar-lein ac wrthi'n cyflwyno'r system, a fydd yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n gweithio o bell neu ar yr ystâd.

Mae Arolygon Pwls Llesiant yn parhau i gael eu cynnal bob tymor, sy'n ein galluogi i fonitro llesiant ein staff, rhoi ymyriadau ymatebol ar waith, a monitro effeithiolrwydd cyffredinol ein Strategaeth Llesiant.

## Data trosiant staff

Mae trosiant wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf i 9.08 y cant (7.21 y cant yn 2021-22). Mae hyn yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer y gyfradd ymddiswyddiadau gwirfoddol (16.4 y cant yn 2022 yn ôl Xpert HR), a dylid nodi bod cyfanswm y gyfradd trosiant llafur ledled y DU wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd effeithiau'r pandemig a'r farchnad lafur dynn sy'n ei gwneud yn anoddach i gyflogwyr gadw staff.

Y gyfradd trosiant eleni yw 9.08 y cant, sy'n dal i fod ychydig yn is o'r cyfartaledd o 9.42 y cant yn y Comisiwn yn seiliedig ar gyfraddau trosiant y pedair blynedd ariannol diwethaf. Cyn y pandemig roedd y gyfradd trosiant yn 9.7 y cant yn 2018-19.

## Dangosyddion ymgysylltu â staff

Cynhaliwyd y 10fed arolwg pobl blynyddol ym mis Mawrth 2023. Mae'r arolwg yn rhoi cipolwg ar brofiad gweithwyr o weithio yn y Senedd ac yn helpu i nodi meysydd i'w gwella fel y gallwn roi newid ar waith yn seiliedig ar adborth



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

gweithwyr. Rydym wedi gweithio ar y cyd â WorkL eto i gynnal yr arolwg, ac wedi cyfuno eu harbenigedd hwy â'n hanghenion penodol ni. Mae'r bartneriaeth hon wedi ein galluogi i barhau i feincnodi ein canlyniadau yn erbyn amrywiaeth ehangach o sefydliadau tebyg, gan gynnwys y gwasanaeth sifil.

Mae'r arolwg yn seiliedig ar fframwaith sy'n mesur chwe thema graidd: Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth; Rhannu Gwybodaeth; Galluogi; Llesiant; Ennyn Balchder a Boddhad Gwaith. Unwaith eto, mae'r canlyniadau'n dangos bod timau'n gweithio'n hyblyg, ac yn cefnogi ei gilydd drwy heriau a newidiadau, ac mae'r mwyafrif helaeth o gydweithwyr yn falch o weithio yn y Senedd. Mae'r Sgôr Ymgysylltu yn y Gweithle eleni yn parhau i fod yn gadarnhaol (75 y cant), ac yn cymharu'n ffafriol â sgôr cymharydd y Sector Cyhoeddus (63 y cant).

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod lle i wella bob amser, ac felly mae ein hamcanion Cyflawni Corfforaethol ac amcanion Lefel Gwasanaeth yn adlewyrchu adborth o'r Arolygon Pwls Llesiant a'r Arolwg Pobl Blynyddol; gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i adolygu ac adnewyddu'r cynnig Dysgu a Datblygu presennol a'r broses barhaus o weithredu ein Strategaeth Llesiant 2022-25.

## Anabledd

Mae EMBRACE, rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle'r Senedd ar gyfer anabledd, yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, yn creu polisïau ac yn cyfrannu at y broses o'u datblygu drwy gynnig syniadau a herio. Mae gennym hefyd Uwch Hyrwyddwr anabledd sy'n gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith ac yn eirioli dros gydraddoldeb i bobl anabl ar lefel uwch o ran gwneud penderfyniadau.

Mae gennym gamau ar waith i gefnogi gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae ein Polisi Recriwtio yn cyfeirio at ein safbwynt o warantu cyfweliad i ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion sylfaenol y rôl, ac mae hyn hefyd yn berthnasol yn fewnol i weithwyr sydd am gael dyrchafiad. Gwahoddir ymgeiswyr i drafod gyda'r Tîm Recriwtio unrhyw anghenion unigol i gefnogi hygyrchedd ym mhob agwedd ar y broses recriwtio a chânt eu bodloni lle bo angen.

Gwneir addasiadau i'r gweithle, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng gweithwyr a rheolwyr ar gyfer dechreuwyr newydd, gweithwyr mewn swydd neu'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn anaf neu salwch a allai gael effaith ar eu gallu i wneud eu gwaith. Gallai hyn gynnwys addasiadau i batrymau gwaith a/neu offer wedi'i addasu a thechnoleg

gynorthwyol sy’n ystyriol o drefniadau gweithio o bell neu weithio ar y safle. Bydd gweithwyr anabl yn cael Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) pan fyddant fel arfer wedi'u lleoli ar ein hystâd. Mae gan ein hystâd systemau dolen glyw mewn sawl lleoliad ac arwyddion hygyrch. Cynhelir archwiliadau hygyrchedd rheolaidd ar ein hystâd ac rydym wedi cael cydnabyddiaeth allanol gan bartneriaid fel Action on Hearing Loss ac rydym yn sefydliad sy'n Ystyriol o Awtistiaeth.

## Perthynas â’r undebau llafur

Mae Fforwm Partneriaeth y Senedd yn gorff sy’n cynnwys Rheolwyr a chynrychiolwyr o Ochr yr Undebau Llafur ac yn seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol y caiff nodau ac amcanion sefydliad eu cyflawni orau gan reolwyr a gweithwyr, wedi’u cynrychioli gan eu hundebau llafur cydnabyddedig, yn cydweithio â’i gilydd i gyflawni nodau a rennir. I'r perwyl hwn, eleni, mae'r Cytundeb Partneriaeth wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu'r gwerthoedd, yr egwyddorion, a'r gweithdrefnau ymgysylltu ac ymgynghori. Cynhelir cyfarfodydd Partneriaeth ffurfiol unwaith bob hanner tymor, gyda chyfarfodydd llai ffurfiol yn rheolaidd bob tymor, i roi cyfle i drafod y gwahanol faterion ar draws y Comisiwn a sicrhau ymgynghori ac ymgysylltu priodol ag Ochr yr Undebau Llafur.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-2026 y Comisiwn yn amlinellu pedwar amcan blaenoriaeth ar gyfer tymor y Senedd hwn: Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol; Lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo; Arweinyddiaeth a diwylliant a arweinir gan werthoedd; a Senedd gynhwysol, hygyrch i bobl Cymru.

Un o'n blaenoriaethau hirsefydlog yw sicrhau bod ein gweithlu yn cynrychioli'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu ac rydym yn gweithio i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig yn ein gweithlu, yn enwedig ar y lefel lle gwneir penderfyniadau uwch. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys: ehangu ein cronfa dalent, gwella ein brand fel cyflogwr a gweithio gyda phartneriaid dibynadwy i ymgysylltu'n agosach fel sefydliad a allai fod yn gyflogwr o ddewis gyda chymunedau lleol.  Eleni, rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid chwilio gweithredol i amrywio’r gronfa dalent ar gyfer uwch swyddi a swyddi penodiadau cyhoeddus/penodiadau’r Goron. Rydym hefyd wedi dylunio a lansio YMLAEN, ein rhaglen interniaeth newydd i raddedigion o leiafrifoedd ethnig.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Roedd ein proses ddiweddar ar gyfer recriwtio cynghorwyr annibynnol i’r Comisiwn yn cynnwys ffocws ar arbenigedd amrywiaeth a chynhwysiant i helpu i hybu ein hymrwymiad sefydliadol. Penodwyd yr Athro Uzo Iwobi CBE yn gynghorydd annibynnol gan ddod â chyfoeth o brofiad i’r Comisiwn.

Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad:  26 Mehefin 2023**

# Atebolrwydd ac archwilio

## Datganiad o gyflenwad y Senedd a nodiadau ategol

### a) Crynodeb o Alldro Adnoddau 2022-23

| | | Cyllideb | Alldro | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant)** | **Alldro** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd | Nodyn SOS 01 | 45,326 | 43,862 | 1,464 | 40,954 |
| Costau sy'n gysylltiedig ag etholiad | Nodyn SOS 01 | - | - | - | 1,905 |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | Nodyn SOS 01 | 16,802 | 16,529 | 273 | 15,450 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | Nodyn SOS 01 | 1,800 | 1,822 | (22) | 1,660 |
| | | **63,928** | **62,213** | **1,715** | **59,969** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad ar Berfformiad.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

### b) Gofyniad arian parod net 2022-23

| | | Cyllideb | Alldro | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant)** | **Alldro** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gofyniad arian parod net | Nodyn SOS 03 | 58,592 | 58,297 | 295 | 56,091 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae SOS 03 i'w weld yn yr Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra, tudalen 209.

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

## (Datganiad o gyflenwad y Senedd)

***SOS 01. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2022-23***

| Gwariant refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 27,171 | 27,417 | 246 | 27,241 | 70 | 25,367 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 10,810 | 13,478 | 2,668 | 11,075 | 265 | 12,908 |
| Costau cyfalaf – heblaw arian parod | 5,224 | 2,250 | (2,974) | 6,290 | 1,066 | 2,099 |
| **Gwariant refeniw gros** | **43,205** | **43,145** | **(60)** | **44,606** | **1,401** | **40,374** |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (73) | (220) | (147) | (220) | (147) | (61) |
| **Gwariant refeniw net** | **43,132** | **42,925** | **(207)** | **44,386** | **1,254** | **40,313** |
| Gwariant cyfalaf* | 380 | 500 | 120 | 516 | 136 | 641 |
| **Alldro adnoddau net (gwariant y Comisiwn)** | **43,512** | **43,425** | **(87)** | **44,902** | **1,390** | **40,954** |
| Cyflogau a lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 16,529 | 17,552 | 1,023 | 16,802 | 273 | 15,450 |
| Costau cysylltiedig â'r etholiad - refeniw | - | - | - | - | - | 1,399 |
| Costau cysylltiedig â'r etholiad – cyfalaf* | - | - | - | - | - | 506 |
| Cymorth y Bwrdd Taliadau | 274 | - | (274) | 352 | 78 | - |
| Swyddfa'r Comisiynwyr Safonau | 76 | 165 | 89 | 72 | (4) | - |





| | Alldro | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig | Alldro 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Alldro adnoddau** | **60,391** | **61,142** | **751** | **62,128** | **1,737** | **58,309** |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 1,822 | 1,800 | (22) | 1,800 | (22) | 1,660 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau net** | **62,213** | **62,942** | **729** | **63,928** | **1,715** | **59,969** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad. * Cyfanswm y gwariant cyfalaf yw £380,000 (2021-22 £1,147,000)

## Alldro adnoddau net - Sylwebaeth reoli

Yr alldro adnoddau ar wariant y Comisiwn, cyn Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau, costau cymorth i'r Bwrdd Taliadau, costau cymorth Swyddfa'r Comisiynydd Safonau a chostau cyllid pensiwn, ar gyfer 2022-23 oedd £43.5 miliwn yn erbyn cyllideb o £44.9 miliwn, gan arwain at danwariant cyffredinol o £1.4 miliwn (3.2 y cant). Er bod hyn y tu allan i ystod darged y Comisiwn o 0.0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb, roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y tanwariant yn fwy na'r disgwyl yn erbyn cyllidebau nad ydynt yn arian parod, sef dibrisiant ar gyfer asedau Hawl i Ddefnydd a thaliadau llog tybiannol o ganlyniad i gyflwyno safon gyfrifo newydd yn ymwneud ag ymdrin â lesoedd (IFRS 16).

Ac eithrio eitemau nad ydynt yn arian parod, yr alldro oedd £38.3 miliwn yn erbyn cyllideb o £38.6 miliwn, gan arwain at danwariant o 0.84 y cant, sydd ymhell o fewn ystod darged y Comisiwn ac yn adlewyrchu'r dull rhagweithiol o reoli adnoddau'r Comisiwn.

Defnyddiwyd yr ystâd ar gyfer gweithio hybrid yn ystod y flwyddyn ariannol gyfan. Mae lefelau deiliadaeth yn dal i fod yn sylweddol is na'r capasiti ac mae gwaith wedi'i wneud i gael y gwerth a'r defnydd mwyaf posibl o'r ystâd drwy ddarparu mannau gweithio hyblyg ac uwchraddio offer TGCh i roi profiad gwell i'r Aelodau mewn cyfarfodydd hybrid. Mae gwell rheolaeth ar yr ystâd a gwell defnydd o ofod hefyd wedi arwain at arbedion mewn costau cyfleustodau.

Yn 2022-23 dychwelwyd i lefelau mwy arferol o wariant ar gynnal a chadw'r ystâd ac adnewyddu offer TGCh yn barhaus yn dilyn blwyddyn o orfod blaenoriaethu gwariant mewn ymateb i'r angen i reoli'r pandemig. Mae'r Comisiwn yn prynu ynni ymlaen llaw felly lliniarwyd y rhan fwyaf o effaith y cynnydd mewn prisiau byd-eang.

Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, cymeradwyodd y Comisiwn daliad costau byw untro o £500 i'r holl staff ar y bandiau cyflog Gradd 1 Cymorth Tîm a Swyddog Gweithredol, a dalwyd fesul cam ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth. Mae'r ddau fand cyflog hyn yn is na chyfartaledd cyflog y DU a theimlwyd, ar ôl ymgynghori â'r undebau, ei bod yn briodol rhoi'r taliad ar y sail hon.

Roedd tanwariant o 0.26 y cant mewn cyflogau staff a chostau cysylltiedig yn erbyn y gyllideb ac roedd tanwariant o 7.5 y cant mewn cyllidebau heb fod yn staff (yn cynnwys cyllidebau and ydynt yn rhai arian parod).





Y gyllideb a osodwyd ar gyfer Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau oedd £17.6 miliwn, ond gostyngwyd hyn i £16.8 miliwn drwy Gyllideb Atodol. Yr alldro oedd £16.5 miliwn, gan roi tanwariant o ychydig dros 1.6 y cant. Mae arbedion o'r gyllideb hon wedi'u neilltuo ac nid ydynt ar gael i'r Comisiwn.

Hefyd cymeradwyodd y Bwrdd Taliadau daliad o £600 i'r holl Staff Cymorth a ariannwyd gan y Penderfyniad.

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd yn y dyfodol. Gosodwyd y gyllideb o £1.8 miliwn ar gyfer 2022-23 ym mis Tachwedd 2021, ar sail data a oedd ar gael ar y pryd. Y costau gwirioneddol oedd £1.82 miliwn.

***SOS 02. Cysoni alldro â gwariant gweithredu net.***

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 62,211 | 59,969 |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (380) | (1,147) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 764 | 760 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 05 | 2 | - |
| **Gwariant gweithredu net** | | **62,597** | **59,582** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae'r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £764,479 (2021-22, £759,690) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; ac o gostau cyflogau a threuliau y Comisiynydd Safonau, y Comisiynydd Safonau Dros Dro a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff y cyflogau a'r treuliau hyn eu talu gan y Comisiwn ond, gan eu bod yn daliadau uniongyrchol o'r Gronfa, ni chânt eu cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

Enillodd y Comisiwn £1,811 mewn llog ar ei gyfrif banc masnachol yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, a fydd yn cael ei roi yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2023-24 yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, nad yw'n caniatáu i'r Comisiwn gadw llog banc a enillir.

# Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn am y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn y Senedd ar gyfer y flwyddyn 2022-23 o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o Gyflenwad, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr;
- y nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith gymwys a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd a'u mabwysiadwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Comisiwn y Senedd ar 31 Mawrth 2023 a'i ofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net, a'i gostau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u llunio'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EF o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.





### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol:

- mae'r Datganiad o Gyflenwad yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ac mae'n dangos nad aed dros y cyfansymiau hynny;
- mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy Nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Gomisiwn y Senedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi canfod ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r Dystysgrif hon.

Mabwysiedir sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer Comisiwn y Senedd i ystyried y gofynion a nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth

Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau ariannol pan ragwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm hadroddiad archwilio arnynt. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi casgliad sicrwydd arnynt. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn cyfateb i gamddatganiad o bwys. Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau sylweddol o'r fath neu os ymddengys fod camddatganiadau o bwys, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn gamddatganiad o bwys, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei llunio'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael eu llunio'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF/Gweinidogion Cymru a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*;

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Trosolwg, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu llunio ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.





## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Trosolwg, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu na chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;

- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;

- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys EF am daliadau a thrafodiadau eraill wedi cael ei datgelu; neu

- nad yw datgeliadau penodol o daliadau a bennwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;

- llunio'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;

- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;

- sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi datganiad ariannol i gael ei lunio heb gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Comisiwn y Senedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd heb gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys mewn adroddiad. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac ystyrir eu bod o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achos o anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau. Byddaf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Ymholi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Comisiwn y Senedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiwn y Senedd sy'n ymwneud â:
  - nodi a gwerthuso deddfau a rheoliadau a chydymffurfio â hwy ac a oeddent yn ymwybodol o achosion o anghydymffurfedd;
  - dod o hyd i risgiau'n ymwneud â thwyll ac ymateb iddynt, ac a oes ganddynt wybodaeth am dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, a dangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais bosibilrwydd twyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol a rheolwyr yn diystyru rheolaethau;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiwn y Senedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiwn y Senedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiwn y Senedd.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu a oeddent yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- ymholi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd Gweithredol;
- mynd i'r afael â'r risg o dwyll a all godi os yw rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth gyflwyno amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes trafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i arwyddion o dwyll neu anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiwn y Senedd, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad ychwanegol o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau archwilio eraill

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd resymol bod y Datganiad o Gyflenwad yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ac mae'n dangos nad aed dros y cyfansymiau hynny.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, ymhlith materion eraill, gan gynnwys diffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.





## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 28 Mehefin 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Senedd Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

# Datganiadau ariannol

▼ Y tu allan i'r Senedd



## Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023***

| **Incwm o weithrediadau** | **Nodyn** | **2022-23 £'000** | **2021-22 £'000** |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 73 | 61 |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **73** | **61** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a | 34,521 | 33,086 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 10,260 | 9,688 |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 2a a 9 | 1,822 | 1,660 |
| Taliadau dibrisiant ac amhariad | 3 | 4,591 | 2,099 |
| Cost cyllid | 3 | 633 | - |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 10,843 | 13,110 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **62,597** | **59,582** |
| Incwm cyllid | | 2 | - |
| **Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth** | SOS 02 | **62,595** | **59,582** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 2a a 9 | (18,506) | (2,856) |
| Enillion net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (7,305) | (7,746) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **36,784** | **48,980** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol heblaw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 179 i 208 yn rhan o'r cyfrifon hyn



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

***Ar 31 Mawrth 2023***

| **Asedau anghyfredol:** | **Nodyn** | **31 Mawrth 2023 £'000** | **31 Mawrth 2022 £'000** |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 73,230 | 68,149 |
| Asedau hawl i ddefnydd | 10 | 66,920 | - |
| Asedau anniriaethol | 5 | - | - |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **140,150** | **68,149** |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Stocrestrau | | 18 | 15 |
| Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | 2,152 | 2,097 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7 | 226 | 1,171 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **2,396** | **3,283** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **142,546** | **71,432** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (4,351) | (6,081) |
| Rhwymedigaethau prydles | 10 | (1,708) | - |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(6,059)** | **(6,081)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **136,487** | **65,351** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 9 | (2,532) | (19,216) |
| Rhwymedigaethau prydles | 10 | (65,547) | - |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(68,079)** | **(19,216)** |
| **Cyfanswm asedau namyn y cyfanswm rhwymedigaethau** | | **68,408** | **46,135** |
| **Ecwiti Trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 35,457 | 37,173 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | 9 | (2,361) | (19,045) |
| Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn | | 35,312 | 28,007 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **68,408** | **46,135** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 179 i 208 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Mae'r Comisiwn yn cadw'r cronfeydd wrth gefn a ganlyn:

- Cronfa Gyffredinol sy'n cynrychioli cyfanswm yr asedau heb gynnwys rhwymedigaethau'r Comisiwn, i'r graddau nad yw'r cyfanswm yn cael ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn eraill ac eitemau ariannu.
- Mae'r Gronfa Bensiwn wrth Gefn yn dangos y newid mewn enillion actiwaraidd neu golledion ar rwymedigaethau cynllun pensiwn (a gydnabyddir yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr).
- Mae'r Gronfa Ailbrisio wrth Gefn yn gronfa nad yw'n arian parod a grëwyd i adlewyrchu gwir werth asedau'r Comisiwn pan fo gwerth marchnad categori penodol o ased yn fwy neu'n llai na gwerth ased o'r fath ar yr adeg y caiff ei gofnodi yn y llyfrau cyfrifon.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 26 Mehefin 2023**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 179 i 208 yn rhan o'r cyfrifon hyn



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

## Datganiad Llif Arian

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023***

| | Nodyn | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian o weithgareddau gweithredu | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOS 02 | (62,595) | (59,582) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod: | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad | 3, 4 ac 5 | 2,603 | 2,099 |
| Colled wrth waredu asedau | 3, 4 ac 5 | - | 2 |
| Cynnydd mewn rhestri eiddo | | (3) | (5) |
| Cynnydd mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | (54) | (197) |
| Cynnydd mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (1,730) | 1,078 |
| Cynnydd mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | SOS 03 | 945 | (759) |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau prydles | 10 | 68,908 | - |
| Llog ar rwymedigaethau prydles | | 633 | |
| Costau cyllid pensiynau | 9 | 1,822 | 1,660 |
| **Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | | **10,529** | **(55,704)** |
| Llif arian o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (380) | (1,147) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(380)** | **(1,147)** |
| Llif arian o weithgareddau cyllido | | | |
| Asedau hawl i ddefnydd - ychwanegiadau | | (66,920) | - |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 58,521 | 57,262 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | SOS 02 | 764 | 760 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 03 | (1,171) | (412) |
| Llog banc (yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru) | | (2) | - |
| Talu rhwymedigaethau prydles | 10 | (2,286) | - |
| **Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau cyllido** | | **(11,094)** | **57,610** |
| Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 03 | (945) | 759 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 1,171 | 412 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **226** | **1,171** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 179 i 208 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023***

| | Nodyn | Y gronfa gyffredinol £'000 | Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn £'000 | Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn £'000 | Ecwiti Trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | 38,244 | 20,261 | (20,241) | 38,264 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (59,582) | 7,746 | 2,856 | (48,980) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,660 | - | (1,660) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 57,463 | - | - | 57,463 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (201) | - | - | (201) |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 760 | - | - | 760 |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (1,171) | - | - | (1,171) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | 37,173 | 28,007 | (19,045) | 46,135 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (62,595) | 7,305 | 18,506 | (36,784) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,822 | - | (1,822) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 58,592 | - | - | - |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (71) | - | - | - |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 764 | - | - | - |
| Llog banc (taladwy) | SOS 02 | (2) | - | - | - |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (226) | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **35,457** | **35,312** | **(2,361)** | **68,408** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 179 i 208 yn rhan o'r cyfrifon hyn





# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail croniadol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2022-23 a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad y Senedd a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiwn yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

### Adolygiad o safonau newydd

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2022-23 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn.

Roedd y safonau a'r dehongliadau / diwygiadau a ganlyn, nad ydynt wedi'u cymhwyso yn y datganiadau ariannol hyn, dan sylw ond nid ydynt wedi dod i rym eto:

- Cymhwyso IFRS 9 'Offerynnau Ariannol' gydag IFRS 4 'Contractau Yswiriant' (Diwygiadau i IFRS 4)
- Contractau Beichus—Cost Cyflawni Contract (Diwygiadau i IAS 37)
- Eiddo, offer a chyfarpar: Enillion cyn y Defnydd a Fwriadwyd (Diwygiadau i IAS 16)
- Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3)
- Diwygiadau i IFRS 17 Contractau Yswiriant

- Dosbarthiad Rhwymedigaethau fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol (Diwygiadau i IAS 1)
- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 8)
- Datgelu Polisïau Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Ymarfer IFRS 2)
- Treth Ohiriedig yn ymwneud ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Un Trafodiad (Diwygiadau i IFRS 1 ac IAS 2)
- Cymhwysiad Cychwynnol IFRS 17 ac IFRS 9-Gwybodaeth Gymharol (Diwygiadau i IFRS 17 ac IFRS 9)
- Dosbarthiad Rhwymedigaethau fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol—Gohirio Dyddiad Dod i Rym (Diwygiadau i IAS 1)

Nid yw'r Comisiwn yn disgwyl y byddai mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol mewn cyfnodau yn y dyfodol.

**IFRS 16 - Prydlesau**

Mae IFRS 16 - Prydlesau yn darparu model cyfrifyddu prydlesau sengl, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid prydlesau gydnabod asedau ar brydles a rhwymedigaethau sy'n cynrychioli'r hawl i ddefnyddio'r eitem ar brydles a'r taliadau priodol am y brydles yn y dyfodol.

Caiff y gost rhent o ran prydlesau gweithredu a gydnabuwyd o'r blaen yn y datganiad incwm ei ddisodli gan dâl dibrisiant a thâl cyllid. Bydd hyn yn berthnasol i bob prydles berthnasol oni bai bod cyfnod y brydles yn llai na 12 mis neu os oes gwerth isel i'r ased sylfaenol. Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu lefel de-minimis o £5,000.

Mae IFRS 16 yn rhoi diffiniad mwy cyfyng o brydles nag IAS 17 ac IFRIC 4 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth gostyngedig isafswm taliadau'r brydles, ac y caiff yr asedau, sydd i'w disgrifio fel asedau hawl i ddefnydd, eu cyflwyno o dan eiddo, peiriannau ac offer. Felly, bydd gweithredu IFRS 16 yn cynyddu gwerth asedau eiddo, peiriannau ac offer a gwerth rhwymedigaethau prydles. Mae'r Comisiwn wedi dewis peidio â chymhwyso IFRS 16 i asedau anniriaethol ac yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, nid yw'r Comisiwn wedi ailasesu a yw unrhyw gontract yn brydles, neu'n cynnwys prydles, ar ddyddiad cymhwyso cychwynnol IFRS16.





**Effaith ar gyfrifon 22-23**

Ar gyfer prydlesau a lofnodwyd fel ar 31 Mawrth 2023 (dyddiad y cais cychwynnol), yr adroddir arnynt ar hyn o bryd o dan Nodyn 10, mae effaith mabwysiadu'r safon newydd wedi cynyddu'r ased eiddo, peiriannau ac offer oddeutu £69 miliwn a bydd gwerth rhwymedigaethau'r brydles hefyd yn cynyddu oddeutu £67 miliwn.

Codwyd Costau Dibrisiant a Chostau Cyllid ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE), sy'n disodli taliadau rhent. Codir taliadau rhent ar rwymedigaeth y brydles.

Mae mabwysiadu IFRS 16 wedi arwain at ostyngiad o tua £2.3 miliwn yn yr all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu, wedi'i wrthbwyso gan gynnydd cyfatebol o ran all-lif arian parod net o weithgareddau cyllido. Fodd bynnag, nid oes effaith o ran llif arian cyffredinol yn deillio o fabwysiadu'r safon newydd.

**Confensiwn cyfrifyddu**

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried ailbrisio asedau sefydlog yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

**Eiddo, offer a chyfarpar**

Caiff asedau eu cyfalafu pan ystyrir bod gwariant ar offer a/neu brosiectau yn bodloni'r profion cydnabyddiaeth a nodir yn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 16 ar Eiddo, Peiriannau ac Offer. Nid yw'r Comisiwn yn defnyddio de-minimis i gyfalafu ond mae'n cynnal asesiad sylweddol o drafodion i gyfalafu gwariant pan fo'n briodol gwneud hynny.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

**Amhariad asedau**

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, fe'i nodir yn golled amhariad yn y Datganiad Gwariant Net.

### Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei chynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

### Asedau anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased.

### Asedau a gafwyd yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu yn ôl eu gwerth cyfredol wrth eu derbyn, ac fel rheol cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a gafwyd yn rhodd yn cael ei gredydu â gwerth y rhodd gwreiddiol ac ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Fawrhydi o dan y Rhaglen Llwybr Clir (Clear Line of Sight).

### Dibrisiant

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael.





Isod, rhestrir oes arferol asedau:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Tir ac Adeiladau | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| Gosodion a ffitiadau: | Pump i ddeng mlynedd |
| Offer TGCh, cyfarpar clyweledol a darlledu | Tair i chwe blynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 blynedd |
| Asedau anniriaethol (meddalwedd): | Pum mlynedd |
| Cerbydau modur: | Pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

### Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant. Gall elfen o'r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm sy'n ymwneud â gormodedd o'r fath yn elw a wireddir ar y prisiad, ac mae i'w drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, pan gaiff yr ased ei werthu.

### Cydrannau Asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd ag oes ddefnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol. Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau.

Mae asedau TGCh wedi'u "grwpio" yn TGCh; offer clyweled a darlledu; Seilwaith TGCh, ac asedau anghyffyrddadwy. Bydd y gwahanol rannau yn cael eu dibrisio dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol briodol.

## Datganiad gwariant cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu Aelodau mewn cysylltiad â threuliau neu gostau a godir ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau amrywiol ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad.

## Stocrestrau

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y gost neu'r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

## Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.

## Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol gyda Gwasanaeth Bancio y Llywodraeth a chyda'r banciau masnachol y gellir ei drosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nad oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

## Prydlesau

**Asedau ar brydles:** Caiff prydlesau tir ac eiddo sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau a ddaw yn sgil perchnogaeth eu dosbarthu fel prydlesau cyllid. Caiff yr asedau ar brydles eu mesur i ddechrau ar swm sy'n gyfartal â'r gwerth isaf eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff yr asedau eu hailbrisio, yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

Ar ddyddiad cychwyn y brydles, mae'r Comisiwn yn cydnabod ased hawl i ddefnydd a rhwymedigaeth prydles ar y fantolen. Mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur ar bris cost, sy'n cynnwys mesuriad cychwynnol o'r rhwymedigaeth prydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a wynebir gan y Comisiwn, ac unrhyw daliadau prydles a wneir cyn dyddiad cychwyn y brydles (heb gynnwys unrhyw cymhellion a dderbyniwyd).



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Mae'r Comisiwn yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnydd ar sail llinell syth o ddyddiad cychwyn y brydles hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnydd neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Mae'r Grŵp hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnydd ar gyfer amhariad pan fo dangosyddion o'r fath yn bodoli. Ar y dyddiad cychwyn, mae'r Comisiynydd yn mesur y rhwymedigaeth prydles ar werth presennol y taliadau prydles sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles os yw'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd neu gyfradd fenthyca gynyddrannol y Comisiwn. Y gyfradd fenthyca gynyddrannol a ddefnyddiwyd (a bennwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi) yw 0.95 y cant.

Mae taliadau prydles sydd wedi'u cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth prydles yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys rhai sefydlog mewn sylwedd), taliadau amrywiol yn seiliedig ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol a thaliadau sy'n codi o opsiynau y ceir sicrwydd rhesymol y cânt eu harfer.

Yn dilyn y mesuriad cychwynnol, bydd yr atebolrwydd yn cael ei leihau ar gyfer taliadau a wneir a'i gynyddu ar gyfer llog. Bydd yn cael ei ail-fesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog mewn sylwedd. Pan fydd y rhwymedigaeth prydles yn cael ei hailfesur, mae'r addasiad cyfatebol yn cael ei adlewyrchu yn yr ased hawl i ddefnydd, neu elw a cholled os yw'r ased hawl i ddefnydd eisoes wedi'i ostwng i sero. Mae'r Comisiwn wedi dewis cyfrifo ar gyfer prydlesau tymor byr (llai nag un flwyddyn) a phrydlesau asedau â gwerth isel (llai na £20,000) gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol. Yn lle cydnabod ased hawl i ddefnydd a rhwymedigaeth prydles, mae'r taliadau mewn perthynas â'r rhain yn cael eu cydnabod fel traul mewn elw neu golled ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol, mae asedau hawl i ddefnydd wedi'u cynnwys mewn eiddo, offer a chyfarpar ac mae rhwymedigaethau prydles wedi'u cynnwys mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill.

Caiff asedau a ddelir o dan brydlesau eraill eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu ac nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

**Taliadau prydles**: Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## Cyflwyno adroddiadau fesul rhan

Mae'r rheolwyr yn fodlon nad oes gan y sefydliad, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliad ychwanegol i'w wneud.

## Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff. Mae'r rhwymedigaeth am wyliau blynyddol heb ei gymryd yn seiliedig ar nifer cyfartalog y diwrnodau a gronnwyd fesul aelod o staff wedi'i luosi â chyflog canolrifol y staff.

## Pensiynau

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff a secondiwyd i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun. Cynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cwblhawyd prisiad y Cynllun fel yr oedd ym mis Mawrth 2016 ar 26 Chwefror 2019. Mae gwaith ar y prisiad actiwaraidd pedair blynedd nesaf, a ddisgwylir ar 31 Mawrth 2020, yn mynd rhagddo gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Codir symiau sy'n daladwy i'r Cynllun ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fyddant yn ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Cyfrifon Blwydd-dal Sifil (**https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/**).

### Aelodau Cynllun Pensiwn y Senedd (MSPS)

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau o'r Senedd yn wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Cynllun buddion diffiniedig yw hwn, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog unrhyw ddeiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau o'r Senedd drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Byddai unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ariannu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Yn unol ag IAS 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actiwaraidd sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actiwaraidd berthnasol ar y dyddiad hwnnw.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn paratoi ei gyfrifon blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Senedd[36].

## Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, a gall y TAW ar nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir i'r Senedd fod yn adferadwy.
Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Senedd.

## Darpariaethau

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisïau cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

**Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd:** Mae manylion am y rhagdybiaethau actiwaraidd yn Nodyn 02.A ac yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y Cynllun Pensiwn.

**Dadfeilio:** Mae'r Comisiwn o'r farn, yn gyffredinol, nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio gan ystyried yr ychydig o waith cynnal a chadw wrth gefn, a'r adolygiad blynyddol, a chytuno ar y flaenraglen waith 10 mlynedd. Gofynnir am gyngor ynghylch materion penodol a gwneir darpariaeth lle bernir ei bod yn briodol.

[36] https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/aelodau-o-r-senedd-adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon/

## 02. A - Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

Mae gwybodaeth am nifer yr Aelodau a staff (a datgeliadau perthnasol eraill) i'w chael yn yr Adran Atebolrwydd - Adroddiad ar Daliadau a Staff.

### Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

***Tabl 8: Costau staff***

| Categori | Staff £'000 | Aelodau a deiliaid swyddi £'000 | Cyfanswm 2022-23 £'000 | Cyfanswm 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 19,459 | 5,295 | 24,754 | 23,851 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 569 | - | 569 | 521 |
| Staff ar secondiad | 156 | - | 156 | 72 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 2,263 | 697 | 2,960 | 2,686 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 54 | - | 54 | 43 |
| Staff ar secondiad | 15 | - | 15 | 5 |
| **Costau pensiwn eraill** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 5,225 | 1,041 | 6,266 | 6,003 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 107 | - | 107 | 88 |
| Staff ar secondiad | 30 | - | 30 | 15 |
| Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 27,878 | 7,033 | 34,911 | 33,284 |
| Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol | (390) | - | (390) | (198) |
| **Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff** | **27,488** | **7,033** | **34,521** | **33,086** |

Ni wnaed unrhyw daliadau diswyddo i staff y Comisiwn yn 2022-23 (2021-22, un taliad.)





Y Comisiwn sy'n talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel yr esbonnir yn yr Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2023, roedd 60 Aelod o'r Senedd mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 36 o swyddi deiliaid swyddi, gydag 14 ohonynt yn ffurfio'r Cabinet: un Prif Weinidog, wyth Gweinidog, gydag un Gweinidog hefyd yn Gwnsler Cyffredinol, a phum Dirpwy Weinidog, gyda un ohonynt hefyd yn Brif Chwip.

### Trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Ar gyfer 2022-23, roedd cyfraniadau cyflogwr o £5.299 miliwn (2021-22, £5.018 miliwn) yn daladwy ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6 y cant i 30.3 y cant o'r tâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Caiff cyflogeion newydd ers 1 Ebrill 2015 ymuno naill ai â chynllun alpha neu'r cynllun partneriaeth. Cynllun pensiwn buddion diffiniedig cyfartaledd gyrfa yw alpha; cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw'r cynllun partneriaeth.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £34,444 (2021-22, £30,924) yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**.

### Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Mae'r Senedd yn darparu cynllun buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*. Mae Adran 20(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Bwrdd Taliadau'r Senedd yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Senedd a'u staff. Mae manylion y cyflogau a'r lwfansau wedi'u cynnwys yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.

Cyflwynodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd gynllun pensiwn cyfartalog gyrfa newydd (CARE) ar gyfer Aelodau.

Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys EF yn unol â *Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013* a'i gyflwyno i ddod i rym o 6 Mai 2016.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion ar gyfer Aelodau'r Senedd a deiliaid swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Senedd, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Ers dechrau'r Chweched Senedd, mae pob Aelod yn y Cynllun CARE. Mae gan y Cynllun gyfradd gronni o 1/50fed ac mae'r oedran pensiwn yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Cyfradd cyfraniad yr aelodau yw 10.5 y cant. Cafodd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 'Warchodaeth drosiannol' ac maent wedi parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 6 Mai 2021. Cyfrannodd yr aelodau hyn naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer 40fed neu 50fed croniad yn y drefn honno tan 6 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'warchodaeth drosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a'r diffoddwyr tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'gwarchodaeth drosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu'r darpariaethau a oedd yn arwain at wahaniaeth o ran triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau a oedd wedi cyflawni'r cyfnod perthnasol o wasanaeth.

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i gael gwared ar y gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau diogelwch trosiannol sydd ynddynt ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd wedi ymgynghori â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Bydd yr Aelodau yr effeithir arnynt yn cael y dewis i aros yn y Cynllun CARE neu ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol am y cyfnod Rhwymedi o 6 Mai 2016 i 6 Mai 2021.

O 7 Mai 2021, mae'r holl Aelodau bellach yn y cynllun CARE.

Cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar hyn o bryd yw 19.9 y cant. Bydd prisiad actiwaraidd nesaf y Cynllun yn digwydd ar 31 Mawrth 2023.





Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol o 65 oed.

Caiff asedau'r Cynllun eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Senedd, gan Mobius Life Limited, ac mae pedwar Rheolwr Buddsoddi yn eu trin. Mae buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM. Mae'r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn cronfa Enillion Real Cynaliadwy, cronfa Aml-Ased Gynaliadwy, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Mynegai Ecwiti Byd-eang Moesegol (wedi'i warchod a heb ei warchod), cronfa Eiddo a chronfa Giltiau Mynegrifol. Yn ystod y flwyddyn cytunodd y Bwrdd i ddadfuddsoddi o Baillie Gifford Diversified Growth Pension Fund a newid y cronfeydd i Baillie Gifford Sustainable Multi Asset Fund. Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i weithio tuag at eu hamcanion o ran ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant a buddsoddi i leihau amlygiad uniongyrchol y Cynllun i'r sector olew a nwy.

Y prif amcan cyllido yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r buddion a addawyd i aelodau a'u buddiolwyr. Mae'r amcan hwn yn unol â chyngor Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan ystyried cyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau y telir am fuddion cronni yn ystod cyfranogiad aelodau yn y Cynllun a bod y taliadau a delir gan y Senedd ar gyfer cronni buddion yn rhesymol sefydlog dros gyfnod. Ymdrinnir â'r amcanion hyn drwy bennu cyfradd cyfrannu a fynegir fel canran lefel o'r cyflog pensiynadwy o'r enw'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Mae'r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddion o dan y Cynllun, cyhyd â bod y profiad hwnnw yn unol â'r tybiaethau actiwaraidd a wnaethpwyd. Gan ddibynnu ar faint y gronfa gronedig a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel y'i datgelir gan y prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd, efallai y bydd yn rhaid talu cyfraniadau mwy neu daliadau llai am gyfnod i ganiatáu, yn benodol, ar gyfer amorteiddio'r symiau dros ben neu'r diffygion.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, gydag incwm cyfraniadau yn dal i fod yn fwy na gwariant rheolaidd ar fuddion. Mae hyd cyfnod cyfartalog rhwymedigaethau'r cynllun, wedi'i bwysoli, oddeutu 20 mlynedd.

***Tabl 9: Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn***

| | Nodyn | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | | (45,135) | (65,211) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 42,774 | 46,166 |
| **Rhwymedigaeth net** | | **(2,361)** | **(19,045)** |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | (2,361) | (19,045) |
| Asedau | | - | - |
| **Rhwymedigaeth net** | **9** | **(2,361)** | **(19,045)** |

***Tabl 10: Dadansoddiad o'r swm a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr***

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Cost cyfredol y gwasanaeth | 2,251 | 2,200 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,749 | 1,253 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (1,227) | (846) |
| | **2,773** | **2,607** |
| **Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:** | | |
| Costau pensiwn eraill | 951 | 947 |
| Costau cyllid pensiynau | 1,822 | 1,660 |
| | **2,773** | **2,607** |

***Tabl 11: Dadansoddiad o'r swm a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr* (SCITE)**

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (4,921) | 2,233 |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | (3,536) | 229 |
| Newidiadau mewn tybiaethau | 26,963 | 394 |
| **Enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE** | **18,506** | **2,856** |





***Tabl 12: Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 65,211 | 63,885 |
| Cost presennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau) | 2,251 | 2,200 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 502 | 500 |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (1,151) | (2,004) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 1,749 | 1,253 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd | (23,427) | (623) |
| **Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth** | **45,135** | **65,211** |

***Tabl 13: Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 46,166 | 43,644 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 1,227 | 846 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (4,921) | 2,233 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 951 | 947 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 502 | 500 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (1,151) | (2,004) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **42,774** | **46,166** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £1,019,391 at Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn 2023-24.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

***Tabl 14: prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun***

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 51% | 54% |
| Buddsoddiadau amgen | 16% | 16% |
| Eiddo | 8% | 7% |
| Llog sefydlog ac arian parod | 25% | 23% |
| | **100%** | **100%** |

Mae asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn amrywiaeth o gronfeydd fel a ganlyn:

- BNY Mellon Sustainable Real Return
- Baillie Gifford Sustainable Multi Asset Growth
- Legal & General Investment Management ("LGIM") Managed Property
- Partners Group Generations
- LGIM Ethical Global Equity Index (wedi'i warchod a heb ei warchod)
- LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt Index
- LGIM Cash (sylwer nad yw hyn yn rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun ac fe'i defnyddir ar sail ad hoc at ddibenion llif arian)

Rhagwelir y bydd y strategaeth hon yn sicrhau lefel o enillion disgwyliedig debyg i strategaeth fuddsoddi flaenorol y Cynllun. Cyfanswm gwerth yr Arian a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2023 y farchnad oedd £42.7 miliwn (31 Mawrth 2022, £46.1 miliwn).

Dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 cynhyrchodd portffolio buddsoddi'r Cynllun elw o tua -7.8 y cant. Sbardunwyd hyn gan ostyngiad yng ngwerth pob dosbarth o asedau mawr yn ystod y cyfnod. Yr elw gwirioneddol ar fuddsoddiadau'r cynllun yn ystod 2022-23 oedd colled o £3.6 miliwn (2021-22, enillion o £3.2 miliwn).

Roedd strategaeth fuddsoddi'r Cynllun wedi tanberfformio yn erbyn marchnadoedd ecwiti dros yr un cyfnod, a wnaeth ostwng tua 0.7 y cant (yn lleol), ond a wnaeth berfformio'n well na bondiau hirdymor Llywodraeth y DU (a wnaeth





elw o tua -29.7 y cant). Tanberfformiodd y Cynllun yn erbyn ei gyfradd ddisgownt (Mynegai Prisiau Defnyddwyr plws 2.5 y cant), a wnaeth elw o tua 12.6 y cant yn ystod cyfnod o chwyddiant uwch.

## Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

***Tabl 15: Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

| Tybiaethau | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| Cyfradd y gostyngiad | 4.65% | 2.65% |
| Cynnydd mewn enillion yn y dyfodol - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | 0.55% | -2.00% |
| Cynnydd pensiwn yn y dyfodol - yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | 2.05% | -0.50% |
| Hyd oes ddisgwyliedig yn 65 oed (blynyddoedd): | | |
| Dynion | 23.6 | 23.5 |
| Menywod | 25.2 | 25.1 |
| Gweddwon | 24.0 | 23.9 |

## Sensitifrwydd i'r prif ragdybiaethau

Pe bai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 1 y cant y flwyddyn, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 2 y cant, a byddai newid o tua £0.9 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Pe bai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 1 y cant, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 16 y cant, a byddai newid o tua £2.7 miliwn yng nghyfanswm y rhwymedigaethau.

Os rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn fwy o ddwy flynedd, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd tua 6 y cant, a byddai'n cynyddu cyfanswm y rhwymedigaethau tua £7.2 miliwn.

Mae'r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol fel a ganlyn:

***Tabl 16: Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol***

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 45,135 | 65,211 | 63,885 | 54,679 | 55,178 |
| Asedau'r cynllun | 42,774 | 46,166 | 43,644 | 35,248 | 37,150 |
| Rhwymedigaeth net | (2,361) | (19,045) | (20,241) | (19,431) | (18,028) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 3,536 | 229 | 355 | (635) | (370) |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | (4,921) | 2,233 | 7,144 | (3,220) | 388 |

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd[37] ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

[37]https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

## 02. B - Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr aelodau, sef £10.260 miliwn (2021-22, £9.688 miliwn), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys:

| Categori | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Costau swyddfa | 1,408 | 1,129 |
| Costau ychwanegol | 260 | 240 |
| Costau staff yr Aelodau | 8,410 | 8,209 |
| Costau teithio | 182 | 110 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **10,260** | **9,688** |

Mae costau staff aelodau yn cynnwys tri thaliad diswyddo yn 2022-23 ar gyfanswm cost o £25,361 (2021-22, dim).

Mae gan y Senedd gynllun pensiwn rhanddeiliaid grŵp (cyfraniad diffiniedig) gydag AVIVA y mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10 y cant iddo o'r cyflog gros ar gyfer staff cymorth Aelodau o'r Senedd. Yn ychwanegol, o ddechrau'r Chweched Senedd, pan fydd aelod o staff yn dewis gwneud cyfraniad personol i'w bensiwn, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i'r cyfraniadau personol hynny hyd at uchafswm o dri y cant o'r cyflog gwirioneddol a delir. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig a dyddiad ail-gyflwyno'r Cynllun oedd 1 Ionawr 2023. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr a dalwyd yn 2022-23 oedd £885,875 (2021-22, £703,437), roedd hyn yn cynnwys £139,184 a dalwyd gan staff drwy drefniant aberthu cyflog (2021-22, £102,572).

## 02. C – Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau *Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009*, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd Safonau ('y Comisiynydd'), ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'r Comisiynydd yn eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu codi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Y Comisiynydd Safonau yw Douglas Bain CBE TD, a benodwyd o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae'r penodiad am gyfnod o chwe blynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Douglas Bain a'i waith fel y Comisiynydd ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

### Adnoddau cymorth

Caiff swydd y Comisiynydd ei chefnogi gan ddau aelod o staff y Comisiwn sydd ar secondiad i gynorthwyo gyda'r gwaith achos a gaiff ei ystyried, i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid a sicrhau bod y swyddfa'n cael ei rhedeg yn effeithiol. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion yr amser a'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r Comisiynydd a chostau cyflogau ei staff cymorth. Yn ogystal, yn ystod 2022-23 gofynnodd y Comisiynydd Dros Dro am gyngor cyfreithiol ar nifer o faterion. Darparwyd y cyngor hwn gan staff y Comisiwn.

### Oriau a chostau staffio

| Natur y gost | 2022-23 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Costau | Oriau | Costau |
| Oriau'r Comisiynydd | 429 | | 377 | |
| Costau cyflogaeth y Comisiynydd | | £38,955 | | £31,552 |
| **Costau a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru [1]** | | **£38,740** | | **£31,552** |
| Costau cyflogaeth staff cymorth | | £71,115 | | £70,874 |
| Costau cymorth cyfreithiol a chymorth proffesiynol arall | | £9,524 | | £5,137 |
| **Costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol ag adnoddau a** ddarparwyd gan y Comisiwn | | **£119,595** | | **£76,011** |

[1] Roedd tandaliad gros o £216 ym mis Hydref 2022, wedi'i gywiro ym mis Ebrill 2023.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

## 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £16.2 miliwn (2021-22, £15.2 miliwn) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2022-23 £'000 | 2021-22 £'000 |
|---|---|---|
| Prydlesau - adeiladau | 535 | 2,795 |
| Prydlesau - eraill | 37 | 56 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 5,345 | 5,412 |
| Costau TGCh | 2,972 | 3,144 |
| Treuliau gweinyddol | 1,311 | 1,191 |
| Costau cysylltiedig â staff | 643 | 512 |
| **Costau gweinyddol eraill** | **10,843** | **13,110** |
| Costau llog ar asedau hawl i ddefnydd | 633 | 0 |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad | 4,591 | 2,099 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol eraill** | **16,067** | **15,209** |

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £68,985 (2021-22, £59,987). Ni chynhaliwyd dim gwaith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2022-23 (2021-22, dim).

Mae'r gostyngiad mewn costau prydles o gymharu â 2021-22 i'w briodoli i gyflwyno IFRS 16. Mae costau prydles (ac eithrio TAW) bellach yn cael eu codi ar y rhwymedigaeth prydles yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Y tâl yn 2022-23 oedd £2.286 miliwn.

## 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Gosodion a ffitiadau [38] £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **65,510** | **8,502** | **1,863** | **118** | **75,993** |
| Ychwanegwyd | 24 | 97 | 150 | 109 | 213 |
| Ailddosbarthwyd | - | 79 | - | (79) | - |
| Ailbrisiwyd | 5,390 | - | - | - | 5,414 |
| Gwerthwyd | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **70,924** | **8,678** | **1,924** | **148** | **81,620** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **-** | **(6,803)** | **(1,042)** | **-** | **(7,845)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,914) | (561) | (128) | - | (2,603) |
| Ailbrisiwyd | - | - | - | - | |
| Gwerthwyd | 1,914 | - | - | - | 1,914 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **-** | **(7,364)** | **(1,170)** | **-** | **(8,534)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023** | **70,924** | **1,314** | **843** | **148** | **73,229** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022** | **65,510** | **1,699** | **821** | **118** | **68,148** |

Gwerth llyfr y tir a'r adeiladau a ddelir o dan drefniadau prydles ar 31 Mawrth 2022 yw £5.284 miliwn (31 Mawrth 2022, £4.910 miliwn).

Cynhaliwyd ailbrisiad cynhwysfawr o dir ac adeiladau gan DS Gibbon FRICS o Avison Young (UK) Cyf, fel ar 31 Mawrth 2023, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Cafodd y Senedd a'r Pierhead eu hailbrisio ar gost adnewyddu dibrisiedig (DRC) fel procsi ar gyfer y gwerth cyfredol. Roedd dull y prisiwr yn cynnwys cyfrifo cost codi adeiladau cyfwerth modern a dibrisio'r gost i ystyried oedran a bywyd economaidd yr adeiladau yn y dyfodol.

[38] Mae gosodion a ffitiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2022-23

Ar gyfer y flwyddyn bresennol comisiynwyd J Williams o Avison Young (UK) Limited i gynnal prisiad llawn o dir ac adeiladau.

Mae ailbrisio wedi arwain at gynnydd yng ngwerth Tir ac Adeiladau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o £7.329 miliwn o'i gymharu â'r swm cario a fyddai wedi cael ei gydnabod pe bai'r asedau wedi cael eu cario o dan y model cost.

Ni nododd yr adolygiadau amhariad unrhyw arwyddion o nam ar 31 Mawrth 2023 ac felly ni nodwyd unrhyw namau.

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Gosodion a ffitiadau [39] £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **61,130** | **7,366** | **1,789** | **191** | **70,476** |
| Ychwanegwyd | - | 989 | 84 | 74 | 1,147 |
| Ailddosbarthwyd | - | 147 | | (147) | 0 |
| Gwerthwyd | - | - | (10) | - | (10) |
| Ailbrisiwyd | 4,380 | - | - | - | 4,380 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **65,510** | **8,502** | **1,863** | **118** | **75,993** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021** | **(1,683)** | **(6,508)** | **(929)** | **-** | **(9,120)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,683) | (295) | (121) | - | (2,099) |
| Gwerthwyd | - | - | 8 | - | 8 |
| Ailbrisiwyd | 3,366 | - | - | - | 3,366 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **0** | **(6,803)** | **(1,042)** | **-** | **(7,845)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022** | **65,510** | **1,699** | **821** | **118** | **68,148** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2021** | **59,448** | **858** | **860** | **191** | **61,357** |

[39] Mae gosodion a ffitiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

## 05. Asedau anniriaethol

Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd ar gyfer y prif systemau a ddefnyddir gan y Comisiwn:

| | Meddalwedd £'000 | 2023 Cyfanswm £'000 |
|---|---:|---:|
| **Cost neu brisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022 ac ar 31 Mawrth 2023** | **884** | **884** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022 ac ar 31 Mawrth 2023** | **(884)** | **(884)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022 a 2023** | **-** | **-** |

| | Meddalwedd £'000 | 2022 Cyfanswm £'000 |
|---|---:|---:|
| **Cost neu brisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021 ac ar 31 Mawrth 2022** | **884** | **884** |
| **Amorteiddiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2021 ac ar 31 Mawrth 2022** | **(884)** | **(884)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2021 a 2022** | **-** | **-** |





## 06. Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---:|---:|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 176 | 89 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 24 | 14 |
| Rhagdaliadau | 1,771 | 1,810 |
| TAW y gellir ei hadennill | 181 | 184 |
| | **2,152** | **2,097** |

Nid oedd dim symiau i'w derbyn yn ddyledus ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 2023 £'000 | 2022 £'000 |
|---|---:|---:|
| Balans ar 1 Ebrill | 1,171 | 412 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (945) | 759 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **226** | **1,171** |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 71 | 1,257 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 155 | (86) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **226** | **1,171** |

## 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---:|---:|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| TAW yn daladwy | 21 | 14 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 881 | 849 |
| Symiau masnachol taladwy | 721 | 680 |
| Croniadau | 2,500 | 3,367 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 226 | 1,171 |
| | **4,349** | **6,081** |

Nid oedd dim symiau'n ddyledus gan ddyledwyr ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Cynllun pensiwn Aelodau o'r Senedd £'000 | Darpariaeth Dadfeilio £'000 | 2022-23 Cyfanswm £'000 | 2021-22 Cyfanswm £'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **19,045** | **171** | **19,216** | **20,412** |
| Gostyngiad mewn darpariaeth | (18,506) | - | (18,506) | (2,856) |
| Costau cyllid pensiynau | 1,822 | - | 1,822 | 1,660 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **2,361** | 171 | **2,532** | **19,216** |

O dan IAS 19, cydnabyddir atebolrwydd o £2.361 miliwn ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd. Darperir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 02.A. Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y darpariaethau dadfeilio yn adran ddarpariaethau Nodyn 01 - Datganiad o bolisïau cyfrifyddu.

O'r cyfanswm o £2.361 miliwn o ddarpariaeth (2021-22, £19.216 miliwn), ni ddisgwylir i unrhyw swm grisialu o fewn blwyddyn (2021-22, £0 miliwn).





## 10. Ymrwymiadau o dan brydlesau

### (a) Prydlesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl blwyddyn y cyfrifon hyn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

| Categori | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---:|---:|
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | - | 2,796 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | - | 11,084 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | 13,869 |
| | **-** | **27,749** |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 18 | 38 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 41 | 85 |
| | **59** | **123** |

Ar 31 Mawrth 2023, roedd y brydles weithredu ar gyfer y car at ddefnydd pawb wedi dod i ben ac nid oedd un newydd wedi'i llofnodi. Rhagwelir y bydd trefniant newydd ar gyfer y car ar ddefnydd pawb yn dechrau yn 2023-24.

### (b) Prydlesau ariannol

Mae dadansoddiad yn y tablau isod o'r ymrwymiadau a ddosberthir fel prydlesau yn unol â chymhwyso IFRS 16. Nid oes gan y Comisiwn unrhyw brydlesi cyllid eraill. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio'r dull dal i fyny cronnus (*cumulative catch-up*) wrth drosglwyddo ac wedi cymhwyso cyfradd ddisgownt o 0.95 y cant wrth gyfrifo gwerth yr asedau hawl i ddefnydd. Dyma gyfradd ddisgownt Trysorlys EF a gyhoeddwyd mewn papurau Arolwg o Wariant Cyhoeddus fel y gyfradd fenthyca gynyddrannol a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r risg hylifedd yn y dadansoddiad aeddfedrwydd o'r ased hawl i ddefnydd yn fach iawn o ystyried bod y Comisiwn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar sail cyllideb sy'n darparu ar gyfer costau gwasanaethu'r brydles.

| Asedau Hawl i Ddefnydd | Adeiladau | Technoleg Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2022 | 68,821 | 87 |
| Cost dibrisiant | (1,966) | (22) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 66,855 | 65 |

| Dadansoddiad aeddfedrwydd | £'000 |
|---|---|
| **Adeiladau** | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,261 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11,500 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 66,700 |
| *Llai'r* elfen llog | (11,640) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | 68,821 |
| **Arall** | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 25 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 63 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - |
| *Llai'r* elfen llog | (1) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | 87 |
| Cyfanswm gwerth presennol rhwymedigaethau | 68,908 |
| Rhan gyfredol | 1,653 |
| Rhan nad yw'n gyfredol | 67,255 |

| | £'000 |
|---|---|
| Cyfanswm yr all-lif arian parod ar gyfer prydlesau | 2,286 |

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys TAW





## 11. Ymrwymiadau cyfalaf ac eraill

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2023 nac ar 31 Mawrth 2022.

## 12. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae gan y Comisiwn gontractau eraill sy'n cyfeirio at derfynu'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 13. Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae gan y Comisiwn nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Yn ogystal, mae trafodion rheolaidd yn digwydd gyda Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (gweler yr adroddiad Taliadau a staff, tudalen 139). Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd, ar sail cynnig gan y Comisiwn, ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd.

Gall y Senedd roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Senedd, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Senedd. Ni chaiff yr Aelodau bellach gyflogi aelodau o’r teulu fel eu staff cymorth a rhaid i unrhyw rai a gyflogir ar hyn o bryd gael eu diswyddo ar ddiwedd tymor y Senedd bresennol.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau ar gyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu’r uwch-reolwyr i weithio i’r Comisiwn.

Mae’r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.





# Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra

## Adrodd ar Reoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn y Senedd ei hawdurdodi gan y Senedd drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y ceir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiad a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2022-23 y Llywodraeth (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a’r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

### SOS 03 Cysoni’r gofyniad arian parod net â’r cynnydd mewn arian parod

| | 31 Mawrth 2023 £’000 | 31 Mawrth 2022 £’000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (58,297) | (56,091) |
| O’r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 58,592 | 57,463 |
| Symiau sy’n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio | (71) | (201) |
| Llog banc a dderbyniwyd | 2 | |
| Symiau a dalwyd i’r Gronfa Gyfunol | (1,171) | (412) |
| Cynnydd mewn arian parod | (945) | 759 |

Mae’r tabl hwn yn destun archwiliad.

Derbyniwyd swm o £1,811 o ran llog banc ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 23. Yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, ni chaniateir i’r Comisiwn gadw’r swm hwn a bydd yn ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

## SOS 04 Cysoni Alldro Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net 2022-23

| | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant /(gorwariant) £'000 | Alldro 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 63,928 | 62,213 | 1,715 | 59,969 |
| Arian parod sydd ei angen ar gyfer rhent | | 2,320 | 2,286 | 34 | - |
| Addasiadau croniadol | | - | - | - | - |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (8,006) | (7,046) | (960) | (3,761) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | 350 | 843 | (493) | (117) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **58,592** | **58,297** | **295** | **56,091** |

| ***Eitemau nad ydynt yn arian parod*** | Nodyn | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2022-23 £'000 | Alldro 2021-22 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | 4 a 5 | (5,410) | (4,591) | (819) | (2,101) |
| Costau llog a dibrisiant mewn perthynas ag IFRS16 | | (896) | (633) | (263) | - |
| Cost cyllid pensiynau a newidiadau eraill mewn darpariaeth | 9 | (1,700) | (1,822) | 122 | (1,660) |
| | | **(8,006)** | **(7,046)** | **(960)** | **(3,761)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.





## SOS 05 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Cyllideb 2022-23 £'000 | Alldro 2022-23 £'000 | Alldro 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 220 | 73 | 61 |
| Is-gyfanswm | 220 | 73 | 61 |
| Swm a gadwyd | 220 | 73 | 61 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | **-** | **-** | **-** |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2022-23 (dim yn 2021-22).

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.